Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ASD regional support team
ssia

WLGA • CLILC

Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

Casgliad o Arfer a Datblygiad yng Nghymru

Ionawr 2011

ASD regional support team

Cyflwyniad

Rhoddwyd y ddogfen hon at ei gilydd gan y Tîm Cymorth Rhanbarthol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA). Ariennir y Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i lleolir yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Prif bwrpas y Tîm Cymorth Rhanbarthol yw darparu cymorth i awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y sectorau statudol a gwirfoddol gyda'u gwaith o wella gwasanaethau lleol i'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan ASA.

Pwrpas

Gobeithiwn y bydd y casgliad hwn o arfer a datblygiad ASA yng Nghymru yn dangos deilliannau cadarnhaol Cynllun Gweithredu Strategol ASA Cymru hyd yma. Gobeithiwn hefyd y bydd yr enghreifftiau o arfer a chynnydd yn helpu datblygu gwasanaethau ASA yng Nghymru yn y dyfodol.

Ymwadiad

Darparwyd yr enghreifftiau yn y ddogfen hon gan y llu o bartneriaid sy'n gweithio ym maes ASA ledled Cymru. Nid yw'r tîm wedi ymchwilio i unrhyw un o'r enghreifftiau a welir yn y ddogfen hon nac wedi'u gwerthuso.

Gwyddom fod llawer mwy o enghreifftiau o arfer a datblygiad nad ydynt wedi'u cynnwys yma a bod rhai o'r rhai rydym wedi eu cynnwys eisoes yn bodoli mewn meysydd eraill. Ein nod yw creu darlun cyfredol o arfer arloesol y mae modd ei rannu, ei ystyried a'i addasu i fodloni anghenion y rhai hynny sy'n rhan o wella gwasanaethau a chymorth i bobl ar y sbectrwm awtistig.

Gair am derminoleg:
Rydym yn cydnabod bod yna drafodaethau'n mynd yn eu blaen o ran sut y disgrifiwn y sbectrwm awtistig a bod yna wahaniaethau yn y ffordd y mae pobl yn defnyddio'r termau awtistiaeth, anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASA), cyflyrau'r sbectrwm awtistig, syndrom Asperger ac awtistiaeth gweithredu lefel uchel. Yn y casgliad hwn, rydym wedi cadw at y derminoleg a ddefnyddir yn gyffredinol yn y disgrifiadau gwreiddiol o brosiectau a mentrau fel y'u cyflwynwyd i ni.

Y Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA

Cynnwys

Pennod 1

Cefndir 4
Gweithrediadau cenedlaethol 5
Rhwydwaith Dysgu a Gwella ASA 9
e-Adnodd ASA 10

Pennod 2

Ymchwil yng Nghymru 11

Pennod 3

Gweithrediadau rhanbarthol 15
Gweithredu'n lleol 17

Pennod 4

Seilwaith 23

Pennod 5

Hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth 34

Pennod 6

Asesu, diagnosis a chymorth wedi diagnosis 48

Pennod 7

Ymyriadau a hyfforddiant i unigolion ag ASA, rhieni a gofalwyr 54

Pennod 8

Systemau cymorth 58

Pennod 9

Hamdden 73

Pennod 10

Amrywiol 77

Pennod 11

Ymchwil bellach yng Nghymru 81

Pennod 1

Cefndir

Lansiwyd Cynllun Gweithredu Strategol ASA Cymru ym mis Ebrill 2008. Mae'r strategaeth yn esbonio sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu bodloni anghenion unigolion ag ASA, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i greu strategaeth ar gyfer pobl o bob oed. Bu i'r Cynllun greu nifer o weithrediadau a ariennir o ran sut gall gwasanaethau lleol fodloni orau anghenion pobl ifanc ac oedolion ag ASA. Pan gyhoeddwyd y cynllun, dyrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £5.4m o arian ar gyfer ASA dros gyfnod o dair blynedd i helpu datblygu ffyrdd o fodloni anghenion pobl ag ASA.

Ar ôl cyhoeddi Cynllun Gweithredu Strategol ASA Cymru, roedd yn bwysig bod y gwaith o ddatblygu gwasanaethau'n cael ei gefnogi ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae pobl allweddol nawr yn gweithio gyda'i gilydd i greu gwasanaethau ar gyfer unigolion ag ASA a rhannu arfer da ledled Cymru.

Yn genedlaethol, er mwyn gyrru yn eu flaen y gweithrediadau yn y cynllun gweithredu, mae Rheolwr Gweithredu ASA yn gweithio yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn rhanbarthol, mae Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA bach, wedi'i leoli gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), sy'n cefnogi ardaloedd lleol i weithio gyda'i gilydd a datblygu mentrau rhanbarthol.

Yn lleol, mae gan ardal pob awdurdod lleol swyddog arweiniol ASA, a chynllun gweithredu lleol a ddatblygwyd ac a fydd yn cael ei weithredu a'i adolygu trwy Grŵp Rhanddeiliaid Lleol.

I gael gwybodaeth am eich cynllun gweithredu lleol neu grŵp rhanddeiliaid ASA lleol, anfonwch eich ymholiadau at ASDinfo@WLGA.gov.uk.

Gweithrediadau Cenedlaethol

Deunyddiau Codi Ymwybyddiaeth

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu ystod o ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth ar gyfer grwpiau o broffesiynolion. Bydd y deunyddiau hyn yn helpu codi ymwybyddiaeth o anhwylderau'r sbectrwm awtistig a byddant yn targedu amrywiaeth o broffesiynolion a sefydliadau gwahanol.

Arweiniwyd y gwaith ar bob maes pwnc gan bobl sydd wedi ennyn diddordeb cynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau ac unigolion ag ASA er mwyn creu'r deunyddiau.

Bydd y deunyddiau codi ymwybyddiaeth yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

Maes	Ardal arweiniol y grŵp	Sefydliad
Teuluoedd a chymorth teulu	Shirley Parsley	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
Cyflogaeth	Mary Rendell	Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA
Eiriolaeth	Mary Rendell	Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA
Gofal iechyd sylfaenol	Jo Manikiza	Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA
Addysg	Lynn Plimley	Autism Cymru
Cyfiawnder troseddol	Maggie Bowen	Autism Cymru
Deintyddion ac optegwyr	Sharon Walters	Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA
Gofal preswyl a dydd	Nick Haake	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
Pobl hŷn	Yr Athro Ian Stuart Hamilton	Prifysgol Morgannwg
Ffydd grefyddol	Y Parchedig Dr John Gillibrand	Yr Eglwys yng Nghymru

Lansiwyd y deunyddiau codi ymwybyddiaeth ASA ar 3 Chwefror 2011 a byddant ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen Oedolion ag ASA

Ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Strategol, gwnaeth grŵp gyfarfod i archwilio anghenion oedolion ag ASA yng Nghymru. Lluniodd 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen Oedolion ag ASA' adroddiad a oedd yn ystyried anghenion oedolion ag ASA ac argymhellwyd ffyrdd o fodloni'r rhain.

Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, cyhoeddodd Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, fuddsoddiad o £1.7 miliwn, dros dair blynedd o fis Ebrill 2010, i ddatblygu a gwella gwasanaethau i oedolion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Caiff yr arian hwn ei ddefnyddio i ddatblygu gwasanaethau a fydd yn helpu oedolion ag ASA i gyrraedd eu potensial. Bydd y gwasanaethau'n cynnwys llawer o sefydliadau gan gynnwys y GIG ac awdurdodau lleol, a bydd yn ymdrin ag asesu a rhoi diagnosis, mynediad i wasanaethau, cymorth cymunedol, cyflogaeth a thai.

Ymhlith y gweithrediadau hyn, o 2010/11 mae datblygu ymagwedd Cymru gyfan at asesu a chymorth cyn ddiagnostig ac ôl-ddiagnostig i oedolion ag awtistiaeth yn y GIG a sefydlu rhaglenni cymorth cymunedol rhanbarthol ar hyd a lled Cymru i'r oedolion hynny ag ASA sy'n byw yn y gymuned, gan gynnwys y rhai hynny â syndrom Asperger, sydd angen cymorth ond nad ydynt efallai'n bodloni'r meini prawf mynediad ar gyfer y gwasanaethau presennol. Mae gweithgareddau hefyd o ran cyflogaeth; mynediad i'r agenda gwasanaethau; eiriolaeth a thai.

Asesu a Diagnosis

Un gweithgaredd a ariennir o Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw datblygu ymagwedd Cymru gyfan at asesu a chymorth ôl-ddiagnostig oedolion ag awtistiaeth yn y GIG. Mae'r rhwydwaith hwn yn cael ei gydlynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chymorth gan Fwrdd Iechyd Bro Morgannwg Abertawe. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n asesu cynnig sydd wedi'i gyflwyno ger ei bron gan y partneriaid hyn a disgwylir i'r rhwydwaith hwn gael ei roi ar waith yn ystod 2011.

Prosiectau Monitro a Chymorth Cymunedol

Gweithgaredd arall a ariennir fydd sefydlu rhaglenni cymorth cymunedol rhanbarthol ar hyd a lled Cymru i'r oedolion hynny ag ASA sy'n byw yn y gymuned, gan gynnwys y rhai hynny â syndrom Asperger, na allant fanteisio ar wasanaethau cymorth traddodiadol.

Mae cynigion am brosiectau a fydd yn datblygu monitro a chymorth cymunedol i oedolion ag ASA wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag ni wnaed unrhyw benderfyniad ffurfiol ar gyllid hyd yma, oherwydd y moratoriwm presennol ar gyhoeddiadau am gyllid yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Tai

Mae peth gwaith newydd yn mynd rhagddo ym maes tai i unigolion ag ASA. Mae Hugh Morgan, Rheolwr Gweithredu ar gyfer y Cynllun Gweithredu Strategol ASA, yn gweithio gydag Adran Dai Llywodraeth Cynulliad Cymru i bennu ymagwedd at ddatblygu dewisiadau tai i unigolion ag ASA. Caiff y gwaith hwn ei adrodd yn uniongyrchol i'r Gweinidogion dros Dai ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn gwneud unrhyw gyhoedddiadau y bydd eu hangen cyn diwedd 2010-11.

Gwaith ar Gyflogaeth i Unigolion ag ASA

Llysgennad Cyflogaeth ASA

Ar 1 Rhagfyr 2010, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, benodiad Llysgennad Cyflogaeth Awtistiaeth i Gymru.

Mae Robert Lloyd Griffiths, Cyfarwyddwr Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Cymru, wedi dechrau'r swydd ran-amser hon am gyfnod o 18 mis. Ei rôl fydd codi proffil cyflogi pobl ag awtistiaeth a dangos sut y gall busnes yng Nghymru elwa ar y talentau, sgiliau a gwybodaeth y gall pobl ag awtistiaeth ddod â nhw i'r gweithle.

Ystyrir mai'r penodiad newydd hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y DU ac o bosibl y byd. Mae'n un elfen yn unig mewn nifer o brosiectau arloesol sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i alluogi oedolion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awstistig i gyflawni eu potensial yn y gymdeithas heddiw.

Gyrfa Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio ar hyn o bryd gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu hyfforddiant ASA penodol i staff Gyrfa Cymru yn ystod 2010 a 2011.

Canolfan Byd Gwaith a Mwy

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymgysylltu'n agos â Chanolfan Byd Gwaith a Mwy ac mae'n mynd ati i roi camau ar waith a fydd yn deillio o adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Oedolion ag ASA yn ystod 2010-11

Gwaith pellach y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Oedolion ag ASA

Mae 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen Oedolion ag ASA' Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ail ymgynnull i gynnal gwaith pellach ar bum maes allweddol:

- Addysg bellach ac addysg uwch
- Anghenion iechyd meddwl pobl ar y sbectrwm awtistiaeth
- Y system cyfiawnder troseddol
- Effaith diwygio'r Adran Gwaith a Phensiynau ar y system fudd-daliadau
- Pobl hŷn

Caiff adroddiad yn deillio o'r gwaith hwn, gan gynnwys argymhellion, ei gyflwyno i Weinidogion yn 2011.

Rhwydwaith Dysgu a Gwella ASA

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyflwyno ymgais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am Rwydwaith Dysgu a Gwella ASA. Bydd y rhwydwaith yn sicrhau y caiff dysgu, datblygiadau ac arfer da ym maes ASA eu rhannu ledled Cymru, ac yr adeiladir ar waith blaenorol y Tîm Cymorth Rhanbarthol.

Os bydd yn llwyddiannus, prif swyddogaethau'r rhwydwaith dysgu a gwella fydd parhau i gefnogi rhoi cynllun strategol ASA i Gymru ar waith yn effeithiol a gwella gwasanaethau i blant ac oedolion ag ASA yng Nghymru drwy gydweithio i:

- Fynd i'r afael ag amrywiaeth yn narpariaeth y gwasanaeth drwy gefnogi cysondeb a gwelliant parhaus
- Canfod a gweithio i fynd i'r afael â phwysau o ran gwasanaethau a rennir (datrys problemau ar y cyd)
- Rhannu gwybodaeth ac uchafu dysgu am ddatblygu gwasanaethau, arloesi ac arfer wedi ei seilio ar dystiolaeth
- Bod yn gyswllt rhwng Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru ac arfer ledled Cymru
- Mynd i'r afael ag agendâu cyffredin (e.e. cynhyrchu gwybodaeth hygyrch, codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff).
- Bod yn gwndid i LICC drafod a datblygu rhoi cynllun gweithredu strategol ASA i Gymru ar waith rhwng fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Monitro a rhannu cynnydd y prosiectau a ariennir yn rhanbarthol
- Sicrhau cynnwys ac ymgysylltu'n effeithiol â rhwydweithiau perthynol

Bydd y Rhwydwaith Dysgu a Gwella yn defnyddio'r seilwaith ASA bresennol:



Datblygu e-Adnodd ar gyfer ASA

Mae Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi'i lleoli yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn datblygu e-Adnodd ASA ar gyfer proffesiynolion ar hyn o bryd.

Bydd yr offeryn hwn yn cefnogi gwaith y rhwydwaith dysgu a gwella ASA a bydd hefyd yn rhoi cymorth i weithwyr rheng flaen proffesiynol sy'n gweithio gydag unigolion ag ASA. Bydd yr adnodd yn fyw yn 2011 a bydd yn rhoi cymorth i weithwyr rheng flaen proffesiynol fel a ganlyn:



Bydd yr e-adnodd yn gweithredu fel 'canolbwynt' i wybodaeth am wasanaethau a datblygiadau ASA lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru a bydd yn rhoi cysylltiadau a chyfeirio at wybodaeth a gwasanaethau eraill.

Pennod 2

Ymchwil yng Nghymru
Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru

Dechreuodd Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru (WARC) weithredu ym Mhrifysgol Caerdydd ar 2 Ebrill 2010 a chafodd ei lansio'n ffurfiol ar 23 Medi. Cyfarwyddwr y Ganolfan yw'r Athro Sue Leekam sy'n Gadeirydd Awtistiaeth hefyd. Bydd Sue a'i thîm o ymchwilwyr yn cynnal ymchwil newydd a chyffrous i faes awstistiaeth. Er i'r prosiect hwn gael ei ddechrau gan Autism Cymru a ffurfiodd bartneriaeth â'r elusen gyllido ymchwil Austistica a Phrifysgol Caerdydd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gysylltiedig ag ariannu'r prosiect hwn sy'n rhoi Cymru ar fap rhyngwladol ymchwil i awtistiaeth.

Cenhadaeth y ganolfan:

Creu newid cadarnhaol i unigolion a theuluoedd y mae awtistiaeth yn effeithio arnynt drwy

- fynd ag ymchwil wyddonol yn ei blaen ym meysydd ffactorau risg, canfod cynnar, diagnosis, datblygu gwybyddol ac ymyrraeth
- gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr, elusennau a Llywodraeth Cynulliad Cymru i integreiddio tystiolaeth wyddonol â pholisi ac arfer

Amcanion y ganolfan

- cynnal prosiectau ymchwil wyddonol sy'n gystadleuol ar lefel ryngwladol
- hwyluso ymchwil ryng-ddisgyblaethol a rhwydweithiau ymchwil
- datblygu ymchwil a hyfforddiant sy'n cefnogi ac yn dylanwadu ar arfer a pholisi
- gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a phroffesiynolion o ymchwil

Dechreuwyd Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru drwy gydweithio unigryw rhwng Autism Cymru, Autistica, Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cefnogwyd hi gan roddion hael y sefydliadau uchod a chan; Autism Initiatives, Baily Thomas Charitable Fund, Waterloo Foundation, Freemasons Grand Charity, Jane Hodge Foundation, a Research Autism.

Mae staff yn y ganolfan yn ymchwilio i ffactorau risg, adnabod y rhain, diagnosis, datblygiad gwybyddol ac ymyrraeth. Mae'r ganolfan wedi'i lleoli yn yr Ysgol Seicoleg ac mae'n yn ymgymryd â chydweithio ymchwil amlddisgyblaeth ar draws y meysydd canlynol; seicoleg ddatblygol, gwyddorau'r golwg, seicoleg wybyddol, niwrofioleg, delweddu'r ymennydd, geneteg, seiciatreg a seicioffisioleg. Mae eu hymchwil hefyd yn canolbwyntio ar ymarferwyr. Maent yn astudio ac yn defnyddio tystiolaeth ymchwil mewn gwasanaethau awtistiaeth ac yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth. Nod unigryw, a wnaed yn bosibl gan Strategaeth ASA y Llywodraeth yng Nghymru

yw integreiddio canfyddiadau ymchwil wyddonol â pholisi.

Ymhlith gwaith y ganolfan mae:

Rhoi diagnosis o ASA

Mae'r ymchwilwyr yn y ganolfan wedi cynnal prosiect a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i werthuso'r systemau a'r dulliau sydd ar waith ar gyfer rhoi diagnosis o ASA i blant yng Nghymru. Roedd y prosiect yn cynnwys cael gwybodaeth gan glinigwyr (drwy grŵp ffocws a holiaduron) er mwyn deall cwmpas a natur gwasanaethau diagnostig yng Nghyrmu, mewn ffordd a fydd yn llywio datblygu polisïau yn y maes hwn. Mae'r ymchwil hefyd yn ceisio ymestyn gwybodaeth am y ffordd y caiff offer diagnostig megis yr Amserlen Arsywli Diagnostig Awtistiaeth (ADOS) a'r Cyfweliad Diagnostig Awtistiaeth eu defnyddio mewn arfer clinigol.

Mae ail brosiect ymchwil sy'n ymchwilio i roi diagnosis WARC yn canolbwyntio ar y Cyfweliad Diagnostig ar gyfer Anhwylderau Cymdeithasol a Chyfathrebu (DISCO). Mae'r gwaith hwn yn rhan o brosiect ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd a Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth. Nod dadansoddi cronfa ddata sy'n eisoes yn bodoli fydd ateb cwestiynau sydd angen yr ymagwedd 'sbectrwm' arbennig a gynigir gan DISCO yn unig a chanfod ffyrdd o ddatblygu DISCO ymhellach i uchafu defnydd o ymchwil.

Astudiaethau Niwroddelweddu yn ASA

Mae aelodau WARC yn defnyddio technegau delweddu'r ymennydd gwahanol i archwilio gwahaniaethau o ran gweithgarwch a strwythur yr ymennydd ymhlith pobl sydd ag ASA. Mae un prosiect yn defnyddio magneto-enceffalograffi (MEG), sbectrosgopeg (MRS) a data tryledu (D-MRI) i ymchwilio i wahaniaethau o ran prosesu gweithgarwch yr ymennydd wrth symbylu'r synhwyrau. Yn ogystal, mae prosiect yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i ddefnyddio D-MRI i ymchwilio i gysylltedd strwythurol yn yr ymennydd. Caiff yr holl ddelweddu ei wneud yng Nghanolfan Delweddu Ymchwil i'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC).

Sylw Gweledol mewn ASA

Mae'r ganolfan wedi bod yn cynnal ymchwil ar sylw gweledol, mewn geiriau eraill, i ble mae pobl ag ASA yn edrych a pham. Mae'r prosiectau wedi cynnwys defnyddio methodoleg olrhain y llygaid i gofnodi symudiadau llygaid cyfranogwyr wrth iddynt edrych ar luniau neu fideos ar gyfrifiadur. Hyd yma mae ymchwil wedi canolbwyntio ar y gallu i ddefnyddio ciwiau cymdeithasol ac i ddysgu rhannau o'r lluniau sy'n cael eu hailadrodd. Yn ddiweddarach, mae peth gwaith hefyd o ran ymchwilio i sut y gallai sylw pobl ag ASA fod yn wahanol i bobl eraill ag anhwylderau datblygiadol, megis syndrom Williams.

Anawsterau Cymdeith

Anawsterau Cymdeithasol a Gwybyddol o ran ASA

Mae'r anawsterau y mae pobl ag ASA yn eu cael o ran cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol wedi bod yn gysylltiedig ag anawsterau i ddeall meddyliau ac ymddygiad pobl eraill, sy'n hysbys yn aml fel Theori o Feddwl (ToM). Mae un o brosiectau presennol WARC yn ymchwilio i b'un a oes gan blant ag ASA anhwylder penodol o ran deall cynrychiolaethau *meddyliol* (ToM) neu p'un a ydynt yn cael anhawster gwybyddol mwy cyffredinol o ran deall cynrychiolaethau meddyliol a chynrychiolaethau nad ydynt yn feddyliol.

Ymyriadau mewn ASA

Mae ymyriadau clinigol ac addysgol yn rhan hanfodol o lwybr gofal cymdeithasol dynodedig pob unigolyn ag anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth, ond mae angen am ymyriadau therapiwtig effeithiol wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae'r ganolfan yn gweithio ar brosiect i werthuso pa mor effeithiol y gall ymyriadau unigol fod, fel bod y wybodaeth hon ar gael i ymarferwyr. Yn benodol, bydd y prosiect yn canolbwyntio ar y symptomau sy'n creu anawsterau difrifol i deuluoedd; ymddygiad cyfyngedig, ailadroddus.

Mae astudiaeth a fydd yn ymchwilio i sbardunau a swyddogaethau ymddygiad ailadroddus a sut mae'r ymddygiad hwn yn newid dros amser, yn gysylltiedig â'r prosiect hwn. Bydd yr ymchwil hon yn ffurfio rhan o raglen ymchwil ehangach o gydweithio ymchwil genedlaethol a rhyngwladol ar ymddygiad ailadroddus a gofid gan gynnwys ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Newcastle a Phrifysgol Durham yn y DU a Phrifysgol Melbourne, yn Awstralia.

I gael rhagor o wybodaeth am waith y ganolfan, ewch i:
http://www.cardiff.ac.uk/psych/home2/warc/

Datblygu Cofrestr ASA

Mewn prosiect a ariannwyd ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae prosiect yn cael ei gynnal ar draws Gogledd Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu cronfa ddata/cofrestr ASA. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan ymchwilwyr o Brifysgol Bangor a Chanolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n cael ei ariannu ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Caiff y canlyniadau eu hadrodd yn ôl o fewn 18 mis.

Ymchwil Pobl Hŷn

Ar hyn o bryd, ychydig iawn mae'r byd yn ei wybod am yr hyn sy'n digwydd i bobl ag awtistiaeth wrth iddynt ddod yn nes at oed pensiwn ac yna'n ei gyrraedd. Felly gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Bangor edrych ar anghenion pobl hŷn ag awtistiaeth. Mae'r ymchwil hon wedi'i chwblhau bellach ac mae cyfres o argymhellion

wedi'u gwneud. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach wedi gofyn i'r Athro Sue Leekam, Cadeirydd Awtistiaeth, i weithio gyda phobl allweddol i wneud cynigion i Weinidogion ar gyfer y dyfodol.

Pennod 3

Gweithrediadau Rhanbarthol

Fforymau Rhanbarthol ASA

Mae arweinwyr rhanbarthol fforymau ASA de-ddwyrain Cymru, canolbarth a gorllewin Cymru a gogledd Cymru wedi'u datblygu a'u cefnogi gan y Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA. Mae'r fforymau hyn yn cefnogi rhannu arfer a datblygiadau ar lefel ranbarthol. Mae'r fforymau hefyd wedi bod yn gyfrwng allweddol i ddatblygu a rhoi prosiectau ASA wedi'u hariannu'n rhanbarthol ar waith.

Enghreifftiau o Gydweithio

Mae llawer o enghreifftiau o gydweithio ar draws pob rhanbarth. Ymhlith yr enghreifftiau o'r ffordd arloesol hon o weithio mae:

- Dechrau grŵp llywio Gwent gyfan, sy'n llywio cyfeiriad gwaith ar draws yr holl wasanaethau yn ardal Gwent gyfan.
- Awdurdodau lleol Ynys Môn a Gwynedd yn rhannu eu cyllid grant i sicrhau'r buddion mwyaf posibl.
- Powys yn arwain prosiect yn rhoi hyfforddiant yn nulliau ADOS a 3Di i asesu a rhoi diagnosis i 38 o broffesiynolion o'r saith sir yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Prosiectau Rhanbarthol

O fis Ebrill 2010, caiff 22 o brosiectau awtistiaeth newydd ag ystod eang ddatblygu a gwella eu cyflwyno ar lefel leol a rhanbarthol ac maent wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae llawer o'r prosiectau hyn yn newydd ac yn gyffrous a byddant yn helpu i greu gwasanaethau gwell a dealltwriaeth i unigolion ag ASA.

Mae pob yn o'r prosiectau hyn yn mynd rhagddynt neu wedi'u cwblhau ac yn cynnwys:

- Cynlluniau cardiau gwasanaethau brys ASA: de-ddwyrain Cymru
- Gweithdai sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ASA: de-ddwyrain Cymru
- Codi ymwybyddiaeth wedi'i dargedu at ddarparwyr hamdden: de-ddwyrain Cymru
- Pecyn cymorth ar ôl diagnosis: De-ddwyrain Cymru
- Hyfforddiant rhaglen i rieni / gofalwyr: De-ddwyrain Cymru

- Datblygu cymorth i blant ag anghenion synhwyraidd: Canolbarth a gorllewin Cymru
- Creu gwefan rhwydweithio cymdeithasol i rieni / gofalwyr: Canolbarth a gorllewin Cymru
- Datblygu gwefan rhwydweithio cymdeithasol i bobl ifanc ag ASA: Canolbarth a gorllewin Cymru
- Datblygu mynediad i ddarpariaeth chwarae, adloniant a hamdden: Canolbarth a gorllewin Cymru
- Datblygu darpariaeth ofal ASA wedi'i rhannu: Canolbarth a gorllewin Cymru
- Defnydd cymdeithasol o'r rhaglen iaith: Canolbarth a gorllewin Cymru
- Prosiect Addysg Haen 3: Canolbarth a gorllewin Cymru
- Hyfforddiant ADOS a 3Di: Canolbarth a gorllewin Cymru
- Datblygu ysgolion uwchradd sy'n awtistiaeth-gyfeillgar: Gogledd Cymru
- Anghenion iechyd meddwl oedolion â syndrom Asperger – astudiaeth ddilynol carfan ag ASA: Gogledd Cymru
- Hyfforddiant TEACCH: Gogledd Cymru
- Hyfforddiant ADOS/ADI-R i glinigwyr : Gogledd Cymru
- Hyfforddiant i hwyluswyr 'Socialeyes' : Gogledd Cymru
- Hyfforddiant ASA ELKAN : Gogledd Cymru
- Prosiect Gwenu: Gogledd Cymru

Mae crynodebau o'r prosiectau hyn sydd wedi'u hariannu'n rhanbarthol wedi'u cynnwys yn yr adran enghreifftiau o arfer ar ddiwedd y ddogfen hon.

Gweithredu'n Lleol

Mae gan bob ardal awdurdod lleol (ALl) yng Nghymru gynllun gweithredu ar gyfer ASA. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu'r ffordd y caiff gwasanaethau awtistiaeth eu datblygu neu'u darparu'n lleol. Mae llawer o bobl wedi bod yn ymwneud â datblygu'r cynlluniau gweithredu, gan gynnwys unigolion ag ASA, rhieni a gofalwyr, yr aelod arweiniol lleol dros ASA ac ystod eang o broffesiynolion eraill.

Mae'r Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA wedi helpu i gefnogi datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu ASA. Mae pob cynllun yn wahanol ond mae ganddynt amrywiaeth o weithrediadau a fydd yn fuddiol i unigolion ag ASA. Mae llawer o themâu cyffredin sydd yn llawer o'r cynlluniau gweithredu ar draws Cymru, ond nid pob un ohonynt. Mae'r Tîm Cymorth Rhanbarthol wedi dewis llawer o'r themâu hyn ac wedi gofyn i swyddogion arweiniol ASA lleol i adrodd ar gynnydd lleol sy'n ymwneud â'r rhain. Gobeithiwn y bydd y wybodaeth hon yn sylfaen i rannu arfer a chydweithio yn y dyfodol.

Mae crynodeb o themâu wedi'i amlinellu isod. Mae'n bwysig sylwi bod gan ardaloedd lleol lawer o weithrediadau unigryw yn eu cynlluniau gweithredu lleol nad ydynt wedi'u hamlinellu yma.

Ar y tudalennau a ganlyn, ceir crynodeb o nodweddion cyffredin datblygiadau seilwaith a themâu cynlluniau gweithredu ASA lleol.

Creu Seilwaith Lleol i Gefnogi Datblygiadau ASA

Bellach mae seilwaith cadarn sy'n cefnogi datblygu gwasanaethau ASA ledled Cymru.

Mae gan bob ardal awdurdod lleol aelod arweiniol dros ASA wedi'i enwi, cynllun gweithredu lleol ar gyfer ASA a grŵp cydlynu ASA i oruchwylio datblygu a chyflawni'r cynllun.

Mae pob ardal leol wedi gofyn am farn unigolion ag ASA. Mewn rhai ardaloedd, mae cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau yn y grŵp cydlynu ASA. Mewn ardaloedd eraill, mae grwpiau o gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau ar wahân sy'n cyfrannu at y grŵp cydlynu. Mae llawer o ardaloedd wedi cynnal digwyddiadau lleol er mwyn ymgynghori â'r boblogaeth ehangach o unigolion ag ASA, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Rydym hefyd yn gweld bod gan gynllun gweithredu ASA pob ardal leol weithrediadau i blant ac oedolion, terfynau amser ac aelodau arweiniol dros y gweithrediadau.
Mae crynodeb o themâu cyffredin yn ymwneud â'r seilwaith wedi'i amlinellu isod:

Seilwaith Lleol



Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth am ASA fel gweithrediadau yn eu cynllun gweithredu lleol ar gyfer ASA.

Mae rhanddeiliaid o lawer o gefndiroedd yn gweld codi ymwybyddiaeth am ASA fel y cam cyntaf wrth ddatblygu gwasanaethau a chynyddu mynediad i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli i unigolion ag ASA.

Mae'r hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth sydd wedi'u rhoi ar waith yn amrywio o ardal i ardal, ond mae enghreifftiau i'w gweld ym mhennod 5 y crynodeb hwn.



Asesu, Diagnosis, a Chymorth ar ôl Diagnosis

Mae llawer o weithrediadau yng nghynlluniau gweithredu ASA lleol sy'n ymwneud â llwybrau asesu, llwybrau gofal, cymorth ac ymyriadau ôl-ddiagnostig.

Mae'n hynod gadarnhaol gweld faint o ardaloedd lleol sy'n dweud wrthym eu bod yn gweithio ar y themâu hyn. Unwaith eto, mae enghreifftiau manwl i'w gweld yn nes ymlaen yn y crynodeb hwn.



Addysg a Chyflogaeth

Mae llawer o ardaloedd lleol yn gweithio i ddatblygu gwasanaethau sy'n ymwneud ag addysg a chyflogaeth. Mae hwn hefyd yn faes a amlygwyd am ei waith i'w ymestyn ar draws Cymru gyfan yn y dyfodol.



Enghreifftiau o Arfer a Datblygiad

Yn yr adran hon caiff enghreifftiau o arfer eu hamlygu. Er hwylustod i'r darllenydd, rydym wedi didoli'r enghreifftiau i'r meysydd canlynol:

- Seilwaith
- Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth
- Asesu a rhoi diagnosis
- Ymyriadau a hyfforddiant i unigolion ag ASA, rhieni a gofalwyr
- Systemau cymorth
- Hamdden
- Amrywiol
- Ymchwil bellach yng Nghymru

Pennod 4

Seilwaith

Mae crynodeb o themâu cyffredin yn ymwneud â'r seilwaith hwn wedi'i amlinellu isod:

GWEFAN CYSYLLTIADAU			
Cynhaliwr	Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA	Ardaloedd dan sylw	Cymru Gyfan
Disgrifiad			
Mae Cysylltiadau yn wefan a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y Tîm Cymorth Rhanbarthol ASA i gefnogi aelodau arweiniol ASA yng Nghymru. Fel rhan o wefan AGGC, mae gan Cysylltiadau adran gyhoeddus ac adran ddiogel i aelodau arweiniol ASA lle y byddant yn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf i gefnogi rhoi cynllunio gweithredu ar waith yn lleol. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau cenedlaethol a rhanbarthol yn ogystal ag adran bwrpasol ar gyfer datblygu arfer. Mae fforwm trafod i aelodau arweiniol lleol gefnogi ei gilydd, rhannu ac ennill gwybodaeth a syniadau.			
Nod/deilliannau	Rhannu gwybodaeth ac arfer ar draws Cymru		

Grŵp Awtistiaeth Trawsbleidiol (GAT) Cynulliad Cenedlaethol Cymru			
Cynhaliwr	GAT	Ardaloedd dan sylw	Cenedlaethol
Disgrifiad			
Mae'r grŵp hwn yn un o'r grwpiau mwyaf dylanwadol a chyda'r gefnogaeth fwyaf yn y Cynulliad. Mae wedi ei arwain gan aelodau, a'r materion sy'n cael eu trin a'u trafod yn y Cynulliad yw'r materion y mae pobl sy'n gysylltiedig â'r grŵp yn dweud yw'r rhai pwysicaf iddynt. Mae gweithgareddau'r grŵp wedi cynnwys cyhoeddi adroddiad ymchwil i ddarparu addysg awtistiaeth arbenigol yng Nghymru, a arweiniodd at ymchwiliad gan Bwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Wedi hynny, gwnaeth y pwyllgor nifer o argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar weithrediadau y gellid eu cymryd i wella'r ddarpariaeth a'r profiad addysg i bobl ifanc ag awtistiaeth yng Nghymru. Mae'r Grŵp Awtistiaeth Trawsbleidiol yn parhau i ymgyrchu ar hyn ac ystod o faterion eraill. Mae'r Grŵp Awtistiaeth Trawsbleidiol yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae ei gyfarfod blynyddol yng Ngogledd Cymru yn golygu mai dyma'r unig grŵp trawsbleidiol i gynnal ei gyfarfodydd y tu allan i Gaerdydd.			

Nod/deilliannau	Sefydlwyd y Grŵp Awtistiaeth Trawsbleidiol ym mis Mai 2003 i fod yn fforwm i godi ymwybyddiaeth a hybu buddiannau pobl ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) – Prosiect Grŵp Oedolion ag ASA			
Cynhaliwr	BIPBC	Ardaloedd dan sylw	Gogledd Cymru
Disgrifiad			
Yn dilyn ymrwymiad a wnaed gan Mrs Mary Burrows i'r Grŵp ASA Trawsbleidiol y llynedd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi sefydlu Grŵp Prosiect Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) i Oedolion Gogledd Cymru, dan gadeiryddiaeth Dr Roger Banks, Ymgynghorydd mewn Seiciatreg Anableddau Dysgu. Pwrpas y Grŵp Prosiect ASA i Oedolion yw esbonio a chytuno ar y materion penodol sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd yng nghyd-destun ASA, goruchwylio datblygu ymatebion i'r materion hynny a, thrwy ymgysylltu'n uniongyrchol â chydweithwyr rhanbarthol a chenedlaethol, hwyluso cyflwyno Cynllun Gweithredu ASA LICC. Mae i'r grŵp bedair ffrwd waith: Ffrwd waith 1: Gwasanaeth asesu/rhoi diagnosis ASA i oedolion, gan gyfeirio ar natur amlochrog cyflwyniadau. Ffrwd waith 2: Strategaeth hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ASA. Ffrwd waith 3: Datblygu cronfa ddata o bobl sydd â diagnosis o ASA, a fydd yn adeiladu ar y wybodaeth a gedwir yn y gronfa ddata plant sy'n cael ei datblygu. Ffrwd waith 4: Gwasanaeth/ymyriadau i oedolion. Nod y ffrwd waith yw datblygu model ar gyfer cyflenwi ymyriadau iechyd i oedolion â diagnosis o ASA yn cynnig mynediad effeithiol mewn ffordd amserol i driniaeth a gwasanaethau cymorth priodol. Yn amlwg, mae llawer o orgyffwrdd rhwng rhai o'r ffrydiau hyn, ond y prif ddeilliannau fydd; • Datblygu a gweithredu strategaeth gytûn BIPBC ar gyfer rhoi diagnosis a chymorth i oedolion o ran y diagnosis hwnnw. • Datblygu strategaeth hyfforddiant yn sicrhau bod gan ymarferwyr iechyd lefel o ymwybyddiaeth o ASA neu'r gallu i gyflwyno asesiadau/diagnosis neu gymorth fel sy'n ofynnol drwy eu gwaith.			

- Datblygu cronfa ddata o ddefnyddwyr ac felly deall anghenion y boblogaeth yn well a chynllunio yn unol â hynny.

- Datblygu model gwasanaeth lle mae defnyddwyr gwasanaethau'n cael cymorth neu arweiniad sy'n berthnasol i angen wedi'i asesu.

Yn y pen draw, bydd ond modd cyflawni'r nodau hyn yn llwyddiannus mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid a sefydliadau partner presennol ac felly byddant yn cynnwys cwmpasu'r gwasanaethau presennol a dealltwriaeth gyffredin am y meini prawf mynediad presennol i oedolion i'r ystod lawn o wasanaethau a rhwydweithiau cyfredol.

Cyfeirlyfr Gwasanaethau			
Cynhaliwr	Rhondda Cynon Taf	Ardaloedd dan sylw	Rhondda Cynon Taf
Disgrifiad			
Nid yw pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd bob amser yn ymwybodol o'r holl wasanaethau a chymorth sydd ar gael iddynt yn lleol neu'n genedlaethol. Mewn ymateb i'r angen hwn, a amlygwyd gan gynllun awtistiaeth lleol Rhondda Cynon Taf, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu a chyhoeddi Cyfeirlyfr Gwasanaethau. Mae'r Cyfeirlyfr Gwasanaethau'n cydnabod bod gwybodaeth gynhwysfawr, o ansawdd da ar ôl cael diagnosis a chymorth yn hanfodol i bobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd. Mae'r cyfeirlyfr yn cynnwys manylion cyswllt a gwybodaeth am gymorth awtistiaeth penodol lleol a chenedlaethol, yn ogystal â gwybodaeth am gymorth a gwasanaethau sy'n berthnasol i bobl ag anableddau, yn fwy cyffredinol. Mae'n cyfeirio hefyd at ffynonellau gwybodaeth a chymorth sydd ar gael yn y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, addysg, y Bwrdd Iechyd Lleol, cymorth cyflogaeth a budd-daliadau, gwasanaethau hamdden, a gwyliau a diwrnodau allan i'r teulu. Caiff copi o'r cyfeirlyfr ei roi i bobl ag awstistiaeth sydd ar fin cael diagnosis, pan fo gwir angen gwybodaeth ddibynadwy a chymorth ar bobl ag awstistiaeth a'u teuluoedd.			
Nod/deilliannau	Rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol i bobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd.		

Cyfeirlyfr Gwasanaeth ASA

Cynhaliwr	Wrecsam	Ardaloedd dan sylw	Wrecsam
Description			
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn croesawu'r Cynllun Gweithredu Strategol ac yn ddiweddar mae wedi datblygu *Fframwaith Strategol Wrecsam ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awstistig* (ASA) sydd â'r nod o ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion ag ASA a'u teuluoedd drwy ddod â phroffesiynolion at ei gilydd o'r meysydd iechyd, addysg, tai, cyfiawnder ieuenctid, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol, ar y cyd ag Autism Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth. Cynhaliwyd ymchwil gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithgor Awtistiaeth rhwng mis Mawrth 2007 a mis Gorffennaf 2008, ar y cyd â rhieni a phroffesiynolion â phrofiad a gwybodaeth am ASA. Trwy gydol trafodaethau'r Gweithgor Awstistiaeth, roedd yn amlwg bod cyswllt annatod rhwng anghenion plant ag ASA ac anghenion ehangach y teulu. Roedd hefyd yn amlwg bod angen cydlynu ymatebion yn well i sicrhau ffordd haws i rieni gael mynediad i fath a lefel y cymorth sydd eu hangen arnynt. Un o'r prif faterion a godwyd oedd nad yw gwybodaeth ar gael yn hawdd i rieni a bod hyfforddiant yn bwysig iawn i bawb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion ag ASA, yn benodol, gweithwyr cymorth. Dywedodd rhieni sut roeddent wedi profi diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth am ASA yn gyffredinol ac roeddent yn teimlo'n gryf bod angen codi ymwybyddiaeth yn y gymuned ehangach a'r gwasanaethau y mae unigolion yn dod i gysylltiad â nhw'n rheolaidd. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu astudiaethau cenedlaethol, sydd hefyd yn awgrymu mai dim ond os bydd gan y gymdeithas ddealltwriaeth well am eu cyflwr y bydd bywydau plant ac oedolion ag ASA yn gwella. Mae codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am ASA yn un o'r prif elfennau i sicrhau y caiff anghenion pob unigolyn eu hadnabod a'u hasesu'n llawn.			
Nod/deilliannau	Ein nod oedd datblygu'r arfer da ymhellach ym maes awtistiaeth sydd eisoes yn bodoli yn Wrecsam ar draws asiantaethau a rhyngddynt ac i ddod ag arbenigedd a gwybodaeth leol at ei gilydd i ddatblygu ymagwedd gysylltiedig, lyfn a chydlynedig i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ASA. Felly fel rhan o'r Fframwaith Strategol dyfeisiwyd cynllun gweithredu tair blynedd, yn defnyddio arfer gorau cenedlaethol a lleol ac yn amlinellu'r camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau amlasiantaeth yn Wrecsam.		

Rheolwr Prosiect ASA			
Cynhaliwr	Bro Morgannwg	Ardaloedd dan	Bro Morgannwg

		sylw	
Disgrifiad o'r prosiect			
Cyflogwyd rheolwr prosiect ASA i ddatblygu'r cynllun gweithredu lleol ar gyfer ASA ac i roi'r cynllun ar waith yn lleol. Mae rhan fawr o rôl rheolwr y prosiect wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth am ASA ar draws timau a gwasanaethau yn yr ardal. Mae rheolwr y prosiect wedi llwyddo i godi proffil ASA yn y gwasanaethau/meysydd canlynol: Tîm Anableddau Dysgu Tîm Pontio Anawsterau Dysgu Tîm Iechyd Meddwl Tîm iechyd (fel rhan o anawsterau dysgu) Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cydraddoldeb Anabledd Tîm Hyfforddiant Corfforaethol Tîm Cymorth i Deuluoedd Bwrdd rheoli Llywodraethwyr Ysgolion y Fro Aelod cynlluniad lleol ac AS Cynghorwyr Lleol Cydlynwyr grwpiau ieuenctid Rheolwr Ysgolion Bro Ymgynghorydd Addysg Awyr Agored a Swyddog Gwobr Dug Caeredin Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro Coleg Addysg Bellach y Barri Croesffyrdd Grŵp Llywio Plant ag Anabledd Face2Face Grŵp Pontio Rhwng Asiantaethau Caerdydd Gwirfoddolwyr sy'n fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd Rheolwr Symudedd a Chynhwysiant First Great Western Grŵp cludiant pobl hŷn y fro			

Dadansoddiad o Anghenion a Bylchau			
Cynhaliwr	Wrecsam	Ardaloedd dan sylw	Wrecsam
Disgrifiad			
Dywedodd ymchwil leol wrthym fod angen cydlynu gwasanaethau'n well yn Wrecsam a chynhaliwyd dadansoddiad o anghenion ym mis Ionawr 2010 o ganlyniad. Cynhaliwyd y dadansoddiad o anghenion i fesur y ddarpariaeth bresennol yn Wrecsam i gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASA) a'r prif fylchau o ran darparu'r gwasanaeth. Un rhan o'r dadansoddiad hwn oedd archwiliad o'r cysylltiadau cyfathrebu rhwng sefydliadau a rhieni. Mae canfyddiadau'r archwiliad wedi'u coladu i'r meysydd canlynol: y dulliau presennol o gyfathrebu y mae sefydliadau'n eu defnyddio, awgrymiadau gan sefydliadau ynghylch sut y gallent wella cysylltiadau cyfathrebu, gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a maint y			

wybodaeth ymhlith sefydliadau gwasanaethau eraill yn Wrecsam sy'n cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion ag ASA a'u teuluoedd. Mae'r prif gyfrwng cyfathrebu gyda rhieni dros y ffôn, drwy e-bost, llinellau cymorth a'r wefan, gydag apwyntiadau, ymweliadau teulu, cyfarfodydd, adolygiadau a nosweithiau i rieni i ddilyn. Dilynodd cyswllt rheolaidd anffurfiol ac arolygon a gwerthusiadau fel y dulliau cyfathrebu mwyaf cyffredin nesaf. Y ffurfiau lleiaf cyfffredin o gyfathrebu yw allgymorth, canolfannau galw heibio a hyfforddiant.	
Nod/deilliannau	Bydd y dadansoddiad o anghenion a bylchau hefyd yn ein galluogi i ddod o hyd i'r gwasanaethau yn Wrecsam sy'n cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion ag ASA a'u teuluoedd a bydd hefyd yn ein galluogi i bennu'r diffygion o ran lefelau presennol darparu gwasanaethau ac i argymell ffyrdd posibl o fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Cronfa ddata ASA			
Cynhaliwr	Merthyr Tudful	Ardaloedd dan sylw	Merthyr Tydfil
Disgrifiad			
Mae cronfa ddata ASA wedi'i datblygu dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae trefniadau wedi'u gwneud gyda Phanel Diagnostig y Sbectrwm Awtistig fel y caiff pob unigolyn ifanc sy'n cael diagnosis ASA yn yr ardal eu hychwanegu at y gofrestr. Mae hyn wedi golygu bod y gofrestr yn cael ei diwedddaru'n barhaus. Nodwyd bod categori i ASA hefyd ar y system rheoli perfformiad SWIFT y mae'r awdurdod lleol yn ei defnyddio. Mae hyn yn caniatáu i ASA gael ei gofnodi fel diagnosis sylfaenol neu eilaidd.			

Trosolwg o Wasanaethau i Oedolion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, gyda Chynigion Datblygu o dan Gynllun Gweithredu Strategol Cymru gyfan.			
Cynhaliwr	Pen-y-bont ar Ogwr	Ardaloedd dan sylw	Pen-y-bont ar Ogwr
Disgrifiad o'r Prosiect			
Mewn gwasanaethau i oedolion, mae'r darn hwn o ymchwil wedi'i gwblhau i asesu lefel bresennol y ddarpariaeth a chanfod bylchau. Mae'r adroddiad sy'n deillio ohono'n edrych ar amlder ASA ym Mhen-y-bont ar Ogwr, safbwyntiau timau a darparwyr gwahanol a'r gwasanaethau a'r adnoddau presennol. Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i amlinellu rhestr gynhwysfawr o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw ac yn gwneud rhai argymhellion ar sut y gellid gwneud hyn. Mae'r gwaith yn gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Strategol ASA LICC, Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Oedolion LICC ac yn defnyddio profiadau oedolion ag ASA ac ymchwil gyfredol arall.			
Nod/deilliannau	Mae'r ymchwil yn cael ei defnyddio i lywio cynllunio		

	gwasanaethau a datblygiadau mewn perthynas â hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth ac adolygu gwasanaeth dydd arbenigol.

Strategaeth Hyfforddiant ar y Cyd ASA			
Cynhaliwr	Sir y Fflint/Wrecsam	Ardaloedd dan sylw	Sir y Fflint/Wrecsam
Disgrifiad			
Cynnal archwiliad o hyfforddiant ASA i weld a yw rhaglenni asiantaethau unigol yn diwallu anghenion ymarferwyr a pha un a oes bylchau'n bodoli sydd angen camau gweithredu pellach ai peidio. Defnyddio canfyddiadau'r archwiliad hyfforddiant ASA hwn, cynllunio Strategaeth Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth amlddisgyblaeth i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ag ASA a lledaenu negeseuon allweddol i gynulleidfaoedd lleol penodol o ran ASA.			
Nod/deilliannau	a) Rhaglen hyfforddiant amlasiantaeth gydlynol, sy'n diwallu'r angen a enwir. b) Bydd cymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn gwybod mwy am ASA.		

Arolwg o Foddhad Rhieni			
Cynhaliwr	Wrecsam	Ardaloedd dan sylw	Wrecsam
Disgrifiad o'r Prosiect			
Fel rhan o Fframwaith Strategol Wrecsam a'r cynllun gweithredu tair blynedd, roeddem yn awyddus i gael mwy o wybodaeth o ymgynghori â rhieni/gofalwyr ar y gwasanaethau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd yn Wrecsam a'r gwasanaeth arfaethedig a fydd eu hangen. Dyfeisiwyd holiadur i rieni/gofalwyr a chafodd ei ddefnyddio yn y Digwyddiad Codi Ymwybyddiaeth am ASA ar 1 Hydref 2009 i ymgynghori â rhieni lleol sydd â phlant ag ASA er mwyn dysgu am eu boddhad ar y gwasanaethau presennol a'u sylwadau ar ddatblygiadau arfaethedig. Defnyddiwyd yr holiadur hefyd gyda rhieni/gofalwyr drwy grwpiau rhieni yn Wrecsam ac fe'i cynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2009 a mis Chwefror 2010. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r prif ganfyddiadau ac atebion a ddaeth i law drwy'r holiaduron ac y cânt eu defnyddio gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ASA i lywio datblygiadau arfaethedig o ran y ddarpariaeth ASA yn Wrecsam.			
Nod/deilliant	Cafodd yr holl wybodaeth a gasglwyd o'r holiaduron yn ystod cyfnod yr arolwg ei choladu ar daenlen a'i rhannu yn brif gwestiynau. Yna cafodd data ei ddadansoddi a chafod prif themâu a sylwadau eu hamlygu yn y data ansoddol a chrëwyd siartiau cylch i ddangos y wybodaeth ansoddol. Dangosodd dadansoddi'r ymatebion y prif themâu y bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ASA yn eu defnyddio i lywio unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.		

Mapio nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ASA			
Cynhaliwr	Pen-y-bont ar Ogwr	Ardaloedd dan sylw	Pen-y-bont ar Ogwr
Disgrifiad o'r Prosiect			
Cafodd cyfran o gyllid grant ASA LICC ei defnyddio i benodi unigolyn i weithio ar ddiweddaru'r gofrestr anabledd i gynnwys pawb sydd wedi cael diagnosis o ASA. Mae data i blant hyd at 19 oed yn gadarn bellach ac mae deiliaid y swydd yn mynd ati i weithio gyda thimau a sefydliadau eraill i fapio oedolion ag ASA a'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio. Un o ganlyniadau hyn yw map gweledol taclus iawn. Mae'r unigolyn wedi gweithio gyda TG i ddatblygu hyn a bellach gallant echdynnu data amrywiol o'u cofnodion. Er enghraifft, mae bosibl gweld bod lledaeniad ASA ar draws yr ardal yn unol ag ystadegau poblogaeth; nid oes unrhyw glystyrau annisgwyl. Mae hefyd yn bosibl echdynnu gwybodaeth ymarferol, megis nifer y milltiroedd y mae'n rhaid i bobl eu teithio i fanteisio ar wasanaethau cymorth.			
Nod/deilliannau	Data mapio dibynadwy, cadarn a chyfredol y gellir ei ddefnyddio i lywio cynllunio a datblygu gwasanaethau.		

Datblygu Llawlyfr ASA			
Cynhaliwr	Abertawe	Ardaloedd dan sylw	Abertawe
Disgrifiad o'r prosiect			
Mae'r llawlyfr ASA yn cynnwys yr holl fanylion am gynllun gweithredu ASA Abertawe, gan gynnwys cylch gorchwyl ac aelodaeth, agendâu a chofnodion grwpiau rhanddeiliaid a grwpiau llywio a gwybodaeth ar gynnwys rhanddeiliaid. Mae hwn ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein gyda'r nod o fod yn ddiddwyll, tryloyw ac yn glir am y broses gynllunio gweithredu ar gyfer ASA. Ffordd ddefnyddiol o rymuso proffesiynolion, rhieni a gofalwyr, pobl ag ASA a phartïon eraill â diddordeb gan roi mynediad hawdd iddynt i wybodaeth ar lefel genedlaethol a lleol mewn perthynas ag ASA.			
Nod/deilliannau	Bod yn'siop-un-stop' i bawb sy'n ymwneud â'r broses cynllunio gweithredu ASA ac sy'n gysylltiedig â hi yn Abertawe.		

Ymgynghori – Oedolion ag ASD			
Cynhaliwr	Sir Benfro	Ardaloedd dan sylw	Sir Benfro
Disgrifiad			
Gwnaeth y broses ymgynghori hon ein helpu i ddysgu'r hyn y dylem ei wneud i wella darpariaeth i oedolion ag awtistiaeth yn Sir Benfro. Roedd angen dod o hyd i fylchau penodol yn y gwasanaethau presennol a'r canlyniadau y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y dyfodol (Pwynt gweithredu 18 o Strategaeth Awtistiaeth Sir Benfro). Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar bum thema:			

1. Cynhwysiant cymdeithasol
2. Iechyd
3. Dewis a rheoli
4. Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant
5. Mynediad i hyfforddiant a chyflogaeth.

Gwnaethom ddewis y themâu hyn gan eu bod yn ymdrin â'r prif bryderon y mae oedolion ag awtistiaeth wedi rhoi gwybod i ni amdanynt.
Yn yr hydref 2009, cyflwynwyd holiadur i'r grŵp rhanddeiliaid benderfynu a oedd y cwestiynau a ddewiswyd ar gyfer yr ymholiad lleol yn briodol a pha un a oedd angen eraill. Yna cafodd y prif holiadur ei roi ar brawf gyda phroffesiynolion sy'n gweithio gydag oedolion ag ASA a darparwyr gwasanaethau (Cyfnod 1).

Yng ngwanwyn 2010, cynhaliwyd cyfweliadau unigol gydag oedolion ag ASA a chynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori i oedolion ag ASA, eu teuluoedd a darparwyr gofal. Roedd y digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar y prif bryderon a godwyd yn ystod y cyfnodau cychwynnol. (Cyfnod 2).

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cafodd adroddiad manwl ei lunio gyda chrynodeb o'r materion a restrwyd ac argymhellion ar gyfer cynllunio gweithredu ASA a datblygiadau arfaethedig yn Sir Benfro.

Nod/deilliannau	Archwilio gwasanaethau i oedolion ag ASA er mwyn gyrru gweithrediadau arfaethedig yn eu blaen.

Astudiaeth gwmpasu ar wasanaethau i blant a phobl ifanc ag awstistiaeth a syndrom Asperger yng Ngwynedd.			
Cynhaliwr	Gwynedd	Ardaloedd dan sylw	Gwynedd
Disgrifiad			
Diweddariad i'r astudiaeth gwmpasu a gomisiynwyd yn 2007 gan Grŵp Cymorth Awtistiaeth a Syndrom Asperger Gwynedd ac Ynys Môn yw'r astudiaeth hon. Roeddent am wybod mwy am y ddarpariaeth bresennol a'r ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc ag awstistiaeth neu syndrom Asperger a'u teuluoedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Comisiynwyd y diweddariad gan Gwynedd ac nid yw wedi diweddaru gwybodaeth yn benodol am Ynys Môn. Mae'r themâu pwysig a'r materion penodol a godwyd gan Grŵp Cymorth Asperger Gwynedd ac Ynys Môn wedi'u cadw ac mae rhywfaint o wybodaeth gyfyngedig am oedolion ag anhwylder ar y sbectwm awtistig (ASA) wedi'i hychwanegu. Mae'r darlun y mae'r astudiaeth yn ei gyflwyno yn cynnig cipolwg yn hytrach na bod yn adolygiad systematig. Fodd bynnag, mae'n adlewyrchu llawer o arfer presennol ac yn cyfrannu at sail dystiolaeth Gwynedd i helpu i roi'r Strategaeth Awtistiaeth ddiweddar ar waith ar ran y teuluoedd hynny yng Ngwynedd sydd ag aelod o'r teulu ag anhwylder ar y sbectwm awtistig (ASA).			
Nod/deilliannau	Hysbysu a chynorthwyo gyda datblygu Cynllun Gweithredu ASA ar gyfer Gwynedd.		

Diwrnod Ymgynghori ASA			
Cynhaliwr	Abertawe	Ardaloedd dan	Abertawe

		sylw	
Disgrifiad			
Trefnodd gweithgor traws-asiantaeth ddiwrnod ymgynghori yn 2010. Daeth 42 o rieni i bobl ag ASA i hyn, ynghyd â 32 o blant, pobl ifanc ac oedolion ag ASA a 21 o frodyr a chwiorydd. Bu 10 sefydliad gwahanol yn bresennol i roi gwybodaeth a chyngor. Darparwyd gweithgareddau amrywiol, gyda gweithdai grŵp a holiaduron wedi'u cynllunio i helpu rhieni, teuluoedd a phobl ag ASA i ddweud eu dweud am y broses cynllunio gweithredu, y systemau cymorth maent yn eu defnyddio, bylchau mewn gwasanaethau a'r hyn y gellid ei ddatblygu i wella pethau. Cafodd gwybodaeth ac adborth o'r diwrnod ymgynghori ei adrodd yn ôl i'r grŵp llywio ASA er mwyn llywio'r broses cynllunio gweithredu.			
Nod/deilliannau	Galluogi plant, pobl ifanc ac oedolion ag awstistiaeth, rhieni, gofalwyr ac aelodau teulu i fynd ati i gymryd rhan yn y broses cynllunio gweithredu ASA yn Abertawe.		

Cyfeirlyfr Gwasanaethau ASA			
Cynhaliwr	Sir y Fflint	Ardaloedd dan sylw	Sir y Fflint
Disgrifiad			
Creu cyfeirlyfr o wasanaethau lleol i alluogi'r rhai hynny y mae ASA yn effeithio arnynt i fanteisio ar wybodaeth a chyngor allweddol. Disgwylir i hwn gael ei gwblhau ym mis Chwefror 2011 a bydd modd ei weld ar ffurf llyfryn ac ar-lein. Caiff ei ddiweddaru'n rheolaidd.			
Nod/deilliannau	Gwybodaeth a chyngor am wasanaethau ASA ar gael i'r rhai hynny sydd eu hangen.		

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid			
Cynhaliwr	Sir Fynwy	Ardaloedd dan sylw	Sir Fynwy
Disgrifiad			
Mae swyddogion y Cyngor wedi bod yn awyddus i weithio gyda'r rhwydweithiau awtistiaeth presennol ac, o'r cychwyn, gwnaethant enwi tri grŵp cymorth i rieni a gofalwyr lleol sy'n gallu helpu i lywio cynllun gweithredu awtistiaeth lleol Sir Fynwy. Ar ôl clywed pryderon a disgwyliadau pobl a chasglu enghreifftiau o'r hyn a oedd yn gweithio'n dda yn yr ardal hefyd, gwnaeth y Cyngor baratoi ei ddrafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a'i ddosbarthu i'r unigolion hynny a oedd wedi cymryd rhan. Ochr yn ochr â'r cysylltiad hwn â grwpiau i rieni a gofalwyr lleol, gwnaeth y staff drefnu diwrnod cynllunio hefyd i fesur barn pobl eraill ymhellach. Roedd hyn yn caniatáu i bobl y mae awtistiaeth yn effeithio arnynt ac na allant fanteisio ar grwpiau cymorth i gyfrannu at yr ymgynghoriad.			

Cynhaliwyd Diwrnod Gwybodaeth am Awtistiaeth yn y sir a rhoddwyd anerchiadau gan brif siaradwyr megis yr aelod arweiniol lleol dros ASA, cynrychiolwyr hamdden a staff 'Tîm rhithwir' awtistiaeth leol – sef grŵp o broffesiynolion o adrannau Gwasnaethau Cymdeithasol gwahanol sy'n gweithio gyda phobl ag awtistiaeth yn yr ardal. Roedd y digwyddiad hwn yn hybu tryloywder hefyd, yn rhoi'r cyfle i bobl ddeall nodau'r awdurdod yn well a chael cyfle i gyfarfod â llawer o'r staff allweddol. Mae pobl y mae awtistiaeth wedi effeithio arnynt wedi bod â rôl ganolog o ran gwneud penderfyniadau allweddol, gan gynnwys caffael a phenodiadau. Er enghraifft, roedd rhiant rhywun ag awtistiaeth yn aelod o banel a ddewisodd cwmni o grŵp o dendrau i roi hyfforddiant awtistiaeth i broffesiynolion gan gynnwys unigolion, eu rhieni a gofalwyr yn yr ardal.	
Nod/deilliannau	Rhoi pobl y mae awtistiaeth yn effeithio arnynt, gan gynnwys unigolion, eu rhieni a'u gofalwyr wrth wraidd datblygu awtistiaeth a gwneud penderfyniadau.

Datblygu Gwefan Grŵp Cymorth Syndrom Asperger/Awtistiaeth Gwynedd ac Ynys Môn			
Cynhaliwr	Gwynedd ac Ynys Môn	Ardaloedd dan sylw	Cymru Gyfan
Disgrifiad			
Sefydlwyd Grŵp Cymorth Syndrom Asperger/Awtistiaeth Gwynedd ac Ynys Môn ym mis Mai 2002 gan rieni plant sy'n cael diagnosis syndrom Asperger ac awtistiaeth; cyfeirir at anhwylderau o'r fath fel Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) weithiau. Wedi'i sefydlu i roi fforwm i rieni a gofalwyr drafod materion sy'n peri pryder mewn lleoliad cyfrinachol a rhoi cymorth i'r ddwy ochr.			
Nod/deilliannau	Rhoi cymorth a gwybodaeth i rieni, gofalwyr a phobl ag ASA.		

Tîm Asesu ASA Amlddisgyblaeth			
Cynhaliwr	Sir y Fflint	Ardaloedd dan sylw	Sir y Fflint
Disgrifiad			
Sefydlu Tîm Asesu ASA amlddisgyblaeth. Caiff y tîm ei rannu yn ddau grŵp oedran : blynyddoedd cynnar (hyd at 5 oed) ac oedran ysgol ac mae'n cynnwys seicolegydd clinigol, ymarferwyr ASA (hyfforddiant nyrs anableddau dysgu), therapyddion lleferydd ac iaith, seiciatrydd ymgynghorol, seiciatryddion addysgol a nyrsys anawsterau dysgu.			
Nod/deilliannau	Defnyddio asesiadau ASA amlddisgyblaeth, er mwyn rhoi diagnosis clir i blant a phobl ifanc.		

Pennod 5

Hyfforddi a Chodi Ymwybyddiaeth

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ASA fel gweithrediadau yn eu cynllun gweithredu lleol ar gyfer ASA. Mae rhanddeiliaid o lawer o gefndiroedd yn gweld ymwybyddiaeth am ASA fel y cam cyntaf yn y broses o ddatblygu gwasanaethau a chynyddu mynediad i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli i unigolion ag ASA.

Mae'r hyfforddiant a'r codi ymwybyddiaeth sydd wedi'u rhoi ar waith yn amrywio o ardal i ardal, ond mae enghreifftiau i'w gweld yn y crynodeb hwn.

4edd Cynhadledd Ryngwladol Awtistiaeth Cymru			
Cynhaliwr	Autism Cymru	Ardaloedd dan sylw	Cenedlaethol
Disgrifiad			
Profwyd yn gyson bod y gynhadledd ryngwladol, sydd yn ei phedwaredd blwyddyn bellach, yn gyfle dysgu a rhwydweithio gwerthfawr i bawb. Unwaith eto bydd yn dod ag ymchwilwyr blaenllaw rhyngwladol, ymarferwyr ac unigolion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth at ei gilydd i rannu eu cipolygon a'u profiadau er mwyn gwella dealltwriaeth ac arfer.			
Nod/deilliannau	Thema gynhadledd 2011 fydd EFFAITH, yn edrych ar effaith codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant, strategaethau'r Llywodraeth, ymchwil a phartneriaethau.		

Ymgysylltu â meddygon teulu			
Cynhaliwr	Rhondda Cynon Taf	Ardaloedd dan sylw	Rhondda Cynon Taf
Disgrifiad			
Mae meddygon teulu yn aml mewn cyswllt â phobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd. Fodd bynnag, dangosodd adborth lleol yn Rhondda Cynon Taf y gall eu hymwybyddiaeth am y cyflwr fod yn gyfyngedig weithiau ac, er eu bod yn awyddus i wybod mwy, gall fod yn anodd i feddygon teulu fynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol. Caiff y digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) eu cynnal yn chwarterol ac maent yn gyfle delfrydol i gyrraedd nifer fawr o feddygon teulu yn yr ardal leol. Darparwyd sesiwn hyfforddiant sylfaenol i godi ymwybyddiaeth gan y pediatregydd ymgynghorol lleol (sydd â diddordeb arbennig mewn ASA) a gafodd groeso gwresog gan y rhai a fu'n bresennol gan fod yn gyfle hefyd i ofyn ac ateb cwestiynau. Cytunwyd bod hwn yn ddull defnyddiol o ddarparu hyfforddiant ac y dylid rhoi sesiynau hyfforddiant ychwanegol fel hyn i adeiladu ymhellach ar y wybodaeth a roddwyd eisoes ac mae cynlluniau eisoes ar y gweill i drefnu			

hyn.	
Nod/deilliannau	Er mwyn codi ymwybyddiaeth am awtistiaeth a syndrom Asperger ymhlith meddygon teulu ar draws Rhondda Cynon Taf, trefnwyd bod hyfforddiant ymwybyddiaeth yn cael ei roi fel rhan o raglen DPP meddygon teulu.

Strategaeth Hyfforddiant			
Cynhaliwr	Sir Fynwy	Ardaloedd dan sylw	Sir Fynwy
Disgrifiad			
Mae pecyn hyfforddiant tair haen wedi'i roi i staff ac mae'n darparu lefelau gwahanol o hyfforddiant gan ddibynnu ar ofynion. Ar y lefel sylfaenol, caiff awtistiaeth ei chyflwyno i staff, yn ogystal ag awgrymiadau ar sut y gallant wella arferion gwaith. Mae'r ail haen hyfforddiant yn helpu i ddatblygu sgiliau mewn ymyriadau awtistiaeth penodol, ac mae'r drydedd lefel yn rhoi hyfforddiant ar gyflwyno asesiadau a rhoi diagnosis, ac edrych ar gyflyrau ac anawsterau cysylltiedig. Yn ogystal, mae deunaw o staff o adran y Gwasanaethau Cymdeithasol yn astudio cwrs y Brifysgol Agored ar ddeall y sbectrwm awtistiaeth, gyda'r nod o wella gwybodaeth a sgiliau ymhellach.			
Nod/deilliannau	Mae Sir Fynwy wedi amlygu bod gwybodaeth broffesiynol a dealltwriaeth am awtistiaeth yn ganolog i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau a chymorth eu darparu ac mae wedi cyflwyno pecyn hyfforddiant cynhwysfawr i lawer o'i staff.		

Hyfforddiant Awtistiaeth			
Cynhaliwr	Powys	Ardaloedd dan sylw	Powys
Disgrifiad			
Mae cyllid sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Strategol ASA wedi galluogi Awdurdod Lleol Powys i sicrhau y caiff hyfforddiant proffesiynolion, rhieni/gofalwyr ac unigolion ag awtistiaeth ei gydlynu a'i gyflawni. Yn ystod 2010, trefnwyd asesu a hyfforddiant diagnostig gan Bowys ar gyfer rhanbarth gorllewin a chanolbarth Cymru a chafodd ei gyflwyno i 40 o broffesiynolion o amrywiaeth o ddisgyblaethau. Mae amrywiaeth o hyfforddiant ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig wedi'i gynnig ar y cyd â Chyngor Sir Powys, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys, NAS Cymru ac Autism Cymru i roi'r cyfle i broffesiynolion ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am awtistiaeth. Roedd hyn yn cynnwys ymagwedd TEACCH (Triniaeth ac Addysg i Blant Awtistig a Phlant sydd â Nam Cyfathrebu) sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ag awstistiaeth a datblygu rhaglen o amgylch sgiliau, diddordebau ac anghenion yr unigolyn hwnnw. Mae hyfforddiant i rieni wedi'i gynnig, gan			

gynnwys cyrsiau Cymorth NAS Cymru. Bydd Socialeyes NAS ar gael i unigolion sydd wedi cael gwybod yn ddiweddar bod ganddynt awtistiaeth i hwyluso datblygu eu sgiliau cymdeithasol a'u dealltwriaeth gymdeithasol.

Digwyddiad Codi Ymwybyddiaeth am ASA			
Cynhaliwr	Wrecsam	Ardaloedd dan sylw	Wrecsam
Disgrifiad			
Er mwyn codi ymwybyddiaeth am ASA ar lefel leol, cynhaliwyd digwyddiad codi ymwybyddiaeth llwyddiannus ar 1 Hydref 2009 yng nghanol tref Wrecsam. Cynhaliwyd y digwyddiad ar Sgwâr y Frenhines yn Wrecsam o 11am tan 3pm i godi ymwybyddiaeth am ASA a'r gwasanaethau sydd ar gael yn Wrecsam i gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion ag ASA a'u teuluoedd. Codwyd pabell fawr a gwahoddwyd proffesiynolion a chydweithwyr i gael stondinau a rhannu a hybu eu gwasanaethau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion ag ASA a'u teuluoedd. Cafwyd ymateb da ac roedd gan y sefydliadau canlynol stondinau yn y digwyddiad: Grŵp Gorchwyl a Gorffen Amlasiantaeth ASA Wrecsam, Autism Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth a changen Wrecsam o'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, Partneriaeth y Rhieni a Talk for Talk, Tîm o Amgylch y Cleient/Plentyn, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a Portage, y Gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith, Dynamic, Gwasanaeth Integredig Anableddau Plant, Datblygu Chwarae, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Ysgol Darland, Prifysgol Glyndŵr (Canolfan Astudiaethau Anableddau), Coleg Iâl, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cymorth i Denantiaid, Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith a Mwy a Croesffyrdd (grŵp sgiliau cymdeithasol i oedolion).			

Rhaglen Datblygu ASA Ysgolion			
Cynhaliwr	Merthyr Tudful	Ardaloedd dan Sylw	Merthyr Tudful
Disgrifiad			
Mae cydlynydd y prosiect ASA, Carol Baker, wedi ymgymryd â rhaglen datblygu a hyfforddi ASA, wedi'i hanelu at ddarpariaethau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn yr ardal. O blith y 36 o ysgolion ym Merthyr, mae 30 o ysgolion wedi cael hyfforddiant min nos ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Mae llawer o'r rhai hynny wedi cael sesiwn cyngor ddilynol ar ymddygiad gan y cydlynydd. Mae rhaglen dreigl o gymorth ymddygiad cadarnhaol gydag ymgynghorydd arbenigol, John Hill, yn rhoi system cynlluniau cefnogi ymddygiad, ffurflenni digwyddiadau ac asesiadau risg ar waith. Mae hyfforddiant straeon cymdeithasol wedi'i roi, yn targedu staff canolfannau adnoddau dysgu. Mae hyfforddiant ar ymwybyddiaeth am ASA wedi'i roi ar gyfer staff Dechrau'n Deg a Cychwyn Cadarn. Mae staff yn Ysgol Greenfield wedi cael hyfforddiant EarlyBird y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth. Mae staff yn Ysgol Greenfield hefyd yn darparu gwasanaeth allgymorth i			

ysgolion eraill yn yr ardal, yn ogystal â rhoi cyngor i rieni a gofalwyr.

Y Fforymau Ysgol			
Cynhaliwr	Autism Cymru	Ardaloedd dan Sylw	Cenedlaethol
Disgrifiad			
Y Fforymau Ysgol Mae Autism Cymru wedi sefydlu tri fforwm ysgol yng Nghymru: y Fforwm Ysgolion Uwchradd (a sefydlwyd yn 2003), y Fforwm Ysgolion Arbennig (a sefydlwyd yn 2004) a'r Fforwm Ysgolion Cynradd (a sefydlwyd yn 2005). Mae pob fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yng nghanolbarth Cymru ac mae ysgolion cynrychiadol o bob cwr o'r wlad yn eu mynychu. Hyd yma, ymdriniwyd ag ystod o bynciau perthnasol fel triniaeth ac addysg i bobl â nam cyfathrebu (TEACCH), adnabod ac asesu, profiad gwaith, partneriaeth â rhieni, sgiliau swyddogaethol ar gyfer bywyd, rhywioldeb, llunio cynlluniau addysg unigol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol llawn, cylchoedd cyfeillion, datganiadau o angen addysgol arbennig a defnydd cymdeithasol o'r rhaglen iaith.			

Yr Ysgol Gynhwysol ac ASA: Prosiect Hyfforddiant ac Ymchwil Ysgol Gyfan			
Cynhaliwr	Autism Cymru	Ardaloedd dan Sylw	Cenedlaethol
Disgrifiad			
Mae Autism Cymru'n gweithio'n agos gyda nifer o awdurdodau addysg lleol yng Nghymru i sicrhau bod gan bob aelod o staff wybodaeth a dealltwriaeth am arfer cynhwysol ac anghenion plant a phobl ifanc ag ASA. Mae'r prosiect yn cynnwys dau ddiwrnod hyfforddiant, tymor ar gyfer y gwaith ymchwil a hyfforddiant ac un diwrnod ar gyfer adborth/datblygiad yn y dyfodol.			
Nod/deilliannau	Erbyn diwedd y prosiect, bydd staff yr ysgol: • yn meddu ar wybodaeth am ddogfennaeth a deddfwriaeth berthnasol ar arfer cynhwysol • meddu ar ddealltwriaeth glir am ASA a materion sy'n ymwneud â gordewdra • meddu ar ymwybyddiaeth am ystod o ymyriadau poblogaidd a goblygiadau addysgol ASA • yn gallu rhaeadru gwybodaeth i gydweithwyr eraill yn yr ysgol er mwyn datblygu ymagwedd ysgol gyfan at gynhwysiant ac ASA • yn cael y cyfle i fyfyrio ar eu harfer gorau eu hunain		

Prosiect Deis Cyfle

Cynhaliwr	Autism Cymru	Ardaloedd dan Sylw	Gwynedd, Ynys Môn, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Wrecsam, Sir y Fflint
Disgrifiad o'r prosiect			
Mae'r Prosiect Deis-Cyfle! yn brosiect ar y cyd ag Autism Cymru a Chymdeithas Awtistiaeth Iwerddon sydd â'r nod o wella cyflogadwyedd a darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer y rhai hynny sy'n gadael yr ysgol ag ASA drwy ddarparu mwy o wybodaeth a dealltwriaeth am Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig. Caiff hyn ei gyflawni gan y ddwy elusen a fydd yn cydweithio, drwy ddatblygu pecyn hyfforddiant tri diwrnod ac offeryn hunanasesu. Caiff deunyddiau hyfforddi eu teilwra ar gyfer athrawon uwchradd, darparwyr hyfforddiant ac addysg uwch/bellach, asiantaethau cyflogaeth a chyflogwyr pobl ag ASA.			
Nod/deilliannau	Nod y prosiect yw galluogi unigolion ag ASA i gyflawni eu potensial ym myd swyddi, hamdden ac addysg.		

Arolwg o Anghenion Hyfforddiant/Cynllun Hyfforddiant			
Cynhaliwr	Rhondda Cynon Taf	Ardaloedd dan sylw	Rhondda Cynon Taf
Disgrifiad			
Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth am ASA eisoes yn cael ei roi i ysgolion a gyrwyr tacsis sy'n cludo plant a phobl ifanc ag ASA a rhoddwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth i feddygon teulu fel rhan o'u rhaglen DPP. I rieni a gofalwyr, roedd y prif bynciau a amlygwyd fel blaenoriaeth yn cynnwys ymddygiad a sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a throi'n oedolyn. Cafodd rhai sesiynau a gweithdai hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion hyn eu darparu fel rhan o'r gynhadledd ASA a gynhaliwyd yn lleol yn gynharach eleni, ac mae sesiynau hyfforddiant pellach i gynnwys pob un o'r blaenoriaethau hyn wedi'u cynllunio i gael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r nod o ddatblygu rhaglen dreigl o hyfforddiant i rieni a gofalwyr ac ymarferwyr ar gyfer y flwyddyn ganlynol.			
Nod/deilliannau	Er mwyn penderfynu ar yr anghenion hyfforddiant lleol yn Rhondda Cynon Taf, cynhaliwyd arolwg o feddygon teulu, a rhieni a gofalwyr. Roedd y prif bynciau a amlygwyd fel blaenoriaeth i feddygon teulu yn cynnwys deall a rheoli ymddygiad, sgiliau cymdeithasol a datblygu chwarae ac iaith.		

Cynhadledd ASA Flynyddol

Cynhaliwr	Rhondda Cynon Taf	Ardaloedd dan sylw	Rhondda Cynon Taf
Disgrifiad			
Er mwyn annog y gymuned awtistiaeth ehangach i ymgysylltu â datblygu'r cynllun gweithredu lleol, mae awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf wedi cynnal dwy gynhadledd ASA flynyddol. Trefnwyd y cynadleddau hyn gan y Grŵp Rhanddeiliaid ASA amlasiantaeth lleol. Denodd y ddwy gynhadledd dros 120 o bobl o bob rhan o'r awdurdod lleol, gan gynnwys pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr a phroffesiynolion. Roedd y cynadleddau'n cynnwys gweithdai a sesiynau o gyflwyniadau rhyngweithiol ar amrywiaeth o bynciau i gasglu barn a syniadau pobl leol i helpu i ddatblygu'r cynllun gweithredu lleol yn unol ag anghenion lleol. Nod y ddwy gynhadledd oedd sicrhau bod pobl ag awtistiaeth yn gallu chwarae rolau arweiniol. Gwahoddwyd sefydliadau awtistiaeth ac anabledd lleol a chenedlaethol i gynnal stondinau gwybodaeth lle y gallai pobl y mae awtistiaeth yn effeithio arnynt, eu teuluoedd a'u gofalwyr a phroffesiynolion weld y wybodaeth ddiweddaraf a chanfod pa wasanaethau a chymorth y gallai'r sector gwirfoddol eu cynnig.			
Nod/deilliannau	Mae'r ddwy gynhadledd wedi ceisio rhoi gwybod i bobl leol y mae awtistiaeth yn effeithio arnynt sut mae Cynllun Gweithredu Strategol ASA Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei roi ar waith ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, ac yn hollbwysig, mae'r ddwy gynhadledd wedi'u defnyddio i lywio datblygu a blaenoriaethu'r cynllun gweithredu lleol yn y dyfodol.		

Matiau Diod Dwyieithog			
Cynhaliwr	Wrecsam	Ardaloedd dan sylw	Wrecsam
Disgrifiad			
Nod/deilliannau	Mae Wrecsam wedi cynhyrchu matiau diod dwyieithog i hybu a hysbysebu eu gwefan ASA. Mae'r matiau diod wedi'u dosbarthu i godi ymwybyddiaeth ymhlith holl gyflogwyr y Cyngor, staff o asiantaethau eraill a'r cyhoedd.		

Strategaeth Hyfforddiant ASA			
Cynhaliwr	Wrecsam	Ardaloedd dan sylw	Wrecsam
Disgrifiad			
Cynhaliwyd ymchwil gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithgor Awtistiaeth rhwng mis Mawrth 2007 a mis Gorffennaf 2008, mewn cydweithrediad â rhieni a phroffesiynolion â phrofiad a gwybodaeth am ASA. Un o'r prif faterion a ddaeth o'r ymchwill oedd nad yw gwybodaeth ar gael i rieni a bod hyfforddiant yn bwysig iawn i bawb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion ag ASA, yn benodol, gweithwyr cymorth. Dywedodd rhieni eu bod wedi gweld diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth am ASA yn gyffredinol a'u bod yn teimlo'n gryf bod angen codi ymwybyddiaeth yn y gymuned ehangach a gwasanaethau y mae unigolion yn dod i gysylltiad â nhw'n rheolaidd. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu astudiaethau cenedlaethol, sydd hefyd yn awgrymu mai dim ond os bydd gan y gymdeithas ddealltwriaeth well am eu cyflwr y bydd bywydau plant ac oedolion ag ASA yn gwella. Canfu arolwg gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth fod 83% o unigolion â syndrom Asperger yn teimlo'n gryf neu'n gryf iawn bod llawer o'r problemau roeddent yn eu hwynebu'n deillio'n uniongyrchol o bobl eraill nad ydynt yn eu deall. Mae codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth am ASA yn un o'r prif elfennau o ran sicrhau y caiff anghenion pob unigolyn eu canfod a'u hasesu'n llawn. Felly thema sydd i'w chael yn y strategaeth hon trwyddi draw yw mai diffyg ymwybyddiaeth am ASA ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol a gwybodaeth			

anghyson am ASA ymhlith proffesiynolion a staff sy'n dod i gysylltiad â phobl ag ASA yw un o'r rhwystrau sylfaenol sy'n cadw pobl ag ASA rhag manteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'n annhebygol y bydd cyrsiau byr, un tro yn cyflawni pob un o'r amcanion hyn eu hunain, felly rydym wedi strwythuro ein strategaeth hyfforddiant yn seiliedig ar gyfleoedd hyfforddiant cronnus i adlewyrchu'r ymagwedd flaengar at ymwybyddiaeth sylfaenol i hyfforddiant lefel 1, lefel 2 a lefel 3. Yn ogystal, gan y gall hyfforddiant golli ei gyfredolrwydd wrth i ddealltwriaeth newydd gael ei hennill drwy ymchwil ac arfer, caiff personél eu hannog i fanteisio ar hyfforddiant gloywi.	
Nod/deilliannau	Mae'r strategaeth yn cydnabod y gall hyfforddiant gyflawni nifer o swyddogaethau ac er y bydd canlyniadau penodol mewn rhai o'r cyrsiau hyfforddiant ASA a ddarperir, mae'r strategaeth hon hefyd yn cynnig canlyniadau generig penodol sy'n berthnasol i'r holl hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth a ddarperir. Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Bydd hyfforddiant yn ymateb i anghenion pobl ag ASA ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ag ASA o ganlyniad. ▪ Bydd hyfforddiant yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth am ASA ymhlith unigolion dan hyfforddiant ac yn cyflwyno ymagweddau newydd at rwydweithio â phobl ag ASA a'u haddysgu. ▪ Bydd hyfffforddiant yn helpu o ran datblygu gwasanaethau gwell i bob ag ASA a'u teuluoedd, yn amlycaf o ran: o Ymyrraeth gynnar; o Pontio o'r ysgol i'r cyfnod ôl-ysgol; o Addysg bellach, hyfforddiant galwedigaethol a chyflogaeth; o Diddordebau cymdeithasol a hamdden; o Byw'n annibynnol a byw â chymorth.

Cynhadledd ASA			
Cynhaliwr	Sir Benfro	Ardaloedd dan sylw	Sir Benfro
Disgrifiad			
Cynhaliwyd y gynhadledd ASA ym mis Mehefin 2009, gyda phresenoldeb ardderchog gan rieni ac athrawon yn y ddwy sesiwn ddydd. Bu llai o bobl yn bresennol yn y sesiwn i rieni/llywodraethwyr gyda'r nos. Daeth 157 o bobl i'r holl sesiynau gan gynnwys cynrychiolwyr o feysydd iechyd a gofal cymdeithasol. O'r 104 o ymatebion gwerthuso a ddaeth i law o'r cyrsiau dydd lle y bu 130 o bobl yn bresennol, roedd 77 (74%) o'r rhain yn dda iawn ym mhob agwedd ar y cwrs, roedd 26 (25%) yn yr ystod da i dda iawn a dywedodd 1 (1%) fod y cwrs yn foddhaol. Roedd nifer o awgrymiadau cadarnhaol iawn a gaiff eu coladu a'u trafod mewn perthynas â Strategaeth Awtistiaeth Sir Benfro.			

Nod/deilliannau	Daeth yr holl ysgolion, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr at ei gilydd yn y gynhadledd, a ddarparodd hyfforddiant a datblygiad ym mhob agwedd ar gynhwysiant, gan gynnwys profiadau a chanfyddiadau o fywyd yn yr ysgol, a strategaethau llwyddiannus sy'n gallu helpu disgyblion ag ASA i gael eu cynnwys a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys.

Hyfforddiant mewn perthynas ag ASA ym meysydd addysg, gwasanaethau i blant a theuluoedd a gwasanaethau i oedolion			
Cynhaliwr	Abertawe	Ardaloedd dan sylw	Abertawe
Disgrifiad			
Mae hyfforddiant penodol ac arwyddocaol ar gyfer awtistiaeth wedi'i roi i broffesiynolion ym meysydd addysg, gwasanaethau i blant a theuluoedd a gwasanaethau i oedolion, gan gynnwys ADOS, 3Di, a hyfforddiant system cyfathrebu a chyfnewid lluniau (PECS). Yma rydym yn amlygu'r ymagwedd at hyfforddiant mewn gwasanaethau i oedolion. Mae datblygiad gwasanaethau a staff wedi bod yn rhoi hyfforddiant awtistiaeth am nifer o flynyddoedd i staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau anableddau dysgu drwy sesiynau ymsefydlu ar gyfer anableddau dysgu a chyrsiau cyflwyno awtistiaeth i unigolion niwronodweddiadol. Fodd bynnag, ers 2008 mae hyn wedi'i ymestyn i staff y tu allan i'r Gwasanaethau Anableddau Dysgu gan fod ymwybyddiaeth gynyddol y gall fod angen cymorth ar bobl ag ASA o amrywiaeth o wasanaethau drwy gydol eu bywydau. Ers mis Ebrill 2008, rydym wedi hyfforddi dros 300 o staff ac mae'r rhain wedi cynnwys pobl sy'n gweithio ym meysydd iechyd meddwl, plant a theuluoedd, y tîm ar ddyletswydd mewn argyfwng, cymorth tenantiaeth, gweinyddiaeth, cwynion a llyfrgelloedd yn ogystal â staff o asiantaethau partner megis iechyd a'r sector annibynnol. Rydym hefyd wedi gallu rhoi hyfforddiant mwy arbenigol i staff o ran gwasanaethau darparu anableddau dysgu, megis PECS, fel y gallant gefnogi'r bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ac sy'n manteisio ar wasanaethau i oedolion.			
Nod/deilliannau	Ein nod yw parhau i ymestyn yr hyfforddiant hwn a'i gynnig i bobl sy'n gweithio mewn ystod eang o wasanaethau yn Abertawe gan fod pobl ag ASA yn defnyddio ystod eang o wasanaethau, nid rhai arbenigol yn unig. Rydym wedi gweld y gall hyd yn oed ychydig o wybodaeth arwain at gynnydd mawr o ran dealltwriaeth a gall mân newidiadau o ran yr aelod o staff wella profiad pobl ag ASA yn fawr.		

Cwrs TEACCH			
Cynhaliwr	Sir y Fflint.	Ardaloedd dan sylw	Ysgolion arbennig ledled Gogledd Cymru
Disgrifiad			
Cwrs deuddydd, y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, Cwrs TEACCH i staff o ddarpariaeth arbenigol ledled Gogledd Cymru. <u>Cynnydd hyd yma.</u> Mae'r cwrs deuddydd wedi'i gynnal. Gwnaeth pob aelod o staff ysgolion fwynhau'r cwrs a dywedasant ar eu ffurflenni gwerthuso eu bod wedi elwa'n fawr ohono. Roedd pob un ohonynt yn awyddus i droi theori'n arfer yn eu hysgolion. <u>Y rhai sydd wedi elwa o'r prosiect:</u> Staff ysgolion arbennig a staff adnoddau arbenigol.			

ASA a Hyfforddiant Perthynas i Broffesiynolion, Rhieni a Gofalwyr			
Cynhaliwr	Ceredigion	Ardaloedd dan sylw	Ceredigion
Disgrifiad			
Mewn hyfforddiant blaenorol gyda Fiona Speirs, cyflwynwyd ei hadnodd sef "Rhaglen ABCh i ddysgwyr ag ASA" i broffesiynolion. Gofynnwyd yn benodol am hyfforddiant ar gyflwyno'r rhaglen, mynediad i wybodaeth arbenigol ac adnoddau cymorth priodol. Canfu ysgolion nad oedd y cwricwlwm prif ffrwd ar gyfer ABCh yn diwallu anghenion dysgu penodol pobl ifanc ar y sbectrwm awtistiaeth. Roedd y diwrnod cyntaf i athrawon, nyrsys ysgol a staff addysgol eraill sy'n gysylltiedig â chyflwyno a chefnogi rhaglenni ar ddatblygiad rhywiol a pherthynas fel rhan o'r cwricwlwm ysgol. Roedd yr ail ddiwrnod yn agored i rieni a gofalwyr disgyblion sy'n mynd i ysgolion uwchradd. Roedd y ddau ddiwrnod yn gyfle i ddysgu am raglen ABCh ysgolion, i drafod unrhyw faterion penodol a oedd yn peri pryder a rhannu syniadau da. Bu 23 o broffesiynolion yn bresennol ar y diwrnod cyntaf, a 12 o rieni a gofalwyr yn bresennol yn yr ail ddiwrnod.			
Nod/deilliannau	"Dylai disgyblion gael addysg sy'n rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth berthnasol y bydd eu hangen arnynt i ddod yn ddinasyddion gweithgar pan fyddant yn gadael yr ysgol". (Yr Awdurdod Cymwysterau a'r Cwricwlwm) Mae defnydd parhaus o'r adnodd mewn rhai o'r ysgolion sy'n cymryd rhan ac, yn ddiweddar, mae'r aelod arweiniol dros ASA wedi dechrau grŵp perthynas i bobl ifanc sy'n defnyddio rhai rhannau o'r rhaglen.		

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am ASA i Swyddogion Heddlu Dyfed Powys			
Cynhaliwr	Ceredigion	Ardaloedd dan sylw	Ceredigion
Disgrifiad			

Yn dilyn lansio cerdyn rhoi gwybod am ASA Autism Cymru ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru, ymunodd Heddlu Dyfed Powys â'r cynllun hefyd. Bryd hyn, gwnaeth y swyddog heddlu sy'n gyfrifol am hyfforddi swyddogion newydd a swyddog datblygu ASA Ceredigion gydweithio i ddatblygu sesiwn ymwybyddiaeth sydd bellach yn rhan reolaidd o hyfforddiant swyddogion yr heddlu. Mae'r sesiwn wedi'i hysgrifennu gyda chymorth oedolion ag ASA a chaiff ei chyflwyno ar y cyd â staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a phobl ar y sbectrwm awtistiaeth. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth am y sbectrwm awtistiaeth, golwg ar rai o'r rhesymau mwy cyffredin pam y gallai swyddogion yr heddlu ddod ar draws pobl ar y sbectrwm, ac arweiniad ar sut i gyfathrebu, cymorth a chadw'r unigolyn yn ddiogel os bydd hyn yn digwydd.	
Nod/deilliannau	Mae swyddogion lleol yr heddlu'n ymwybodol o'r cerdyn rhoi gwybod am awtistiaeth ac mae ganddynt ymwybyddiaeth o anghenion pobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth.

Hyfforddiant ASA ELKLAN			
Cynhaliwr	Sir Ddinbych	Ardaloedd dan sylw	Ysgol Plas Brondyffryn Gogledd Cymru
Disgrifiad			
Hyfforddiant achrededig mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu i staff ysgolion. Mae ELKLAN wedi'i sefydlu gan ddau therapydd lleferydd ac iaith profiadol sef Liz Elks a Henrietta McLachlan i roi hyfforddiant ac adnoddau i'r rhai hynny sy'n awyddus i gael cymorth a deall plant o bob oedran ag ystod eang o anawsterau cyfathrebu. **Cymorth lleferydd ac iaith yn yr ystafell ddosbarth.** Mae gennym 125 o bobl wedi'u hyfforddi i weithio gyda phlant sy'n cael anawsterau cyfathrebu ac rydym yn trefnu hyfforddiant pellach i ddatblygu'r gallu i gynnig y cymorth arbenigol hwn i nifer gynyddol o blant. Mae'n fenter gydweithredol yn wir ystyr y gair sy'n cynnwys staff ysgolion, therapydd lleferydd ac iaith a'r tîm datblygu dysgu. Mae'n cefnogi'r gwaith y mae Ysgol Plas Brondyffryn yn ei wneud yn defnyddio'r Grant Datgloi Dawn.			
Nod/deilliannau	Helpu plant i oresgyn eu hanawsterau cyfathrebu.		

Hyfforddiant i Hwyluswyr Socialeyes Conwy a Sir Ddinbych.			
Cynhaliwr	Conwy	Ardaloedd dan sylw	Conwy Si Ddinbych
Disgrifiad			
Datblygwyd rhaglen Socialeyes y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (www.autism.org.uk/socialeyes) yng Nghymru, gyda phobl ag awtistiaeth ac ar eu cyfer. Mae wedi ennill gwobr am arloesedd mewn cyfathrebu gan Rwydwaith Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae Socialeyes yn wahanol i adnoddau sgiliau cymdeithasol eraill gan nad			

yw'n gofyn i bobl ag awtistiaeth geisio newid pwy ydynt, nac efelychu ymddygiad nodweddiadol pobl eraill. Caiff ei arwain gan ddysgwyr ac mae'n cynnig dewis rhwng dysgu sgiliau integreiddio cymdeithasol neu strategaethau cymdeithasol eraill. Ymhlith y sgiliau allweddol yr ymdrinir â nhw yw dechrau sgwrs, cyswllt llygad, a siarad am bynciau sensitif.

Cyflwynodd Awdurdodau Lleol Conwy a Sir Ddinbych gynnig llwyddiannus ar y cyd o dan arian rhanbarthol Cynllun Gweithredu Strategol ASA i hyfforddi 12 o bobl fel hwyluswyr Socialeyes. Bydd yr hwyluswyr hyn nawr yn gweithio i gyflwyno'r rhaglen Socialeyes i bobl ag awtistiaeth ar draws y ddau awdurdod lleol.

I gael rhagor o wybodaeth am Socialeyes, ewch i www.autism.org.uk/socialeyes

- Hyfforddiant 3Di (Cyfweld Datblygiadol, Dimensiynol a Diagnostig)

Cwrs deuddydd 3Di i 15 o gyfranogwyr, wedi'i gyflwyno gan yr Athro Richard Warrington o Ysbyty Great Ormond Street i Blant, Ymddiriedolaeth y GIG, Llundain.

Mae 3Di yn system gyfweld gyfrifiadurol ar gyfer rhoi diagnosis o awtistiaeth ac anhwylderau cysylltiedig. Mae Skuse et al 2004 yn disgrifio hynny fel "offeryn diagnostig sy'n defnyddio dadansoddi cyfrifiadurol o atebion i gwestiynau cyfweld."

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- trosolwg o faterion cyfredol o ran awtistiaeth
- addysgu cam wrth gam mewn defnyddio meddalwedd cyfweld
- efelychu defnydd clinigol o 3Di drwy chwarae rôl a graddio cyfweliadau fideo
- trafod allbynnau 3Di
- cyflwyno a thrafod asesiadau ac arsylwadau drwy fideo o blant ag awtistiaeth

- Hyfforddiant ADOS (Amserlen Arsylwi Diagnostig Awtistiaeth

Cwrs ADOS clinigol deuddydd i 10 o gyfranogwyr, wedi'i gyflwyno gan feddyg niwroseiciatreg ddatblygol, Partneriaeth Iechyd Meddwl Caergrawnt a Peterborough.

Gellir defnyddio ADOS i werthuso pob ystod oedran sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau ac sy'n caniatáu i chi arsylwi cyfathrebu ac ymddygiad cymdeithasol i roi diagnosis ar gyfer anhwylderau datblygol treiddiol.

Nod/deilliannau	Gwella arbenigedd a gallu diagnostig i gynnal asesiadau.

Datblygu cymorth i blant ac oedolion ag anghenion canfod a phrosesu synhwyraidd			
Cynhaliwr	Sir Benfro	Ardaloedd dan	Canolbarth a

		sylw	Gorllewin Cymru
Disgrifiad			
Adnabod therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol neu ffisiotherapyddion, staff gofal cymdeithasol a phroffesiynolion addysg a fydd yn cael hyfforddiant mewn therapi integreiddio synhwyraidd ac ariannu'r hyfforddiant, gyda'r nod o wella dealltwriaeth am anghenion synhwyraidd pobl ag ASA a datblygu swydd arbenigol bwrpasol yn y dyfodol. Dilynodd 33 o bobl gwrs tridiau sef Cyflwyniad i Integreiddio Synhwyraidd. Roedd yr holl sylwadau o'r ffurflenni gwerthuso a ddaeth i law yn ffafriol gyda'r rhan fwyaf yn ei ddisgrifio yn gwrs ardderchog.			
Nod/deilliannau	Hybu datblygiadau o ran deall a diwallu anghenion synhwyraidd pobl ag ASA.		

Sefydlu/Rhoi hyfforddiant ar ddefnyddio hyfforddiant yr atodlen arsylwi diagnostig awtistiaeth ar draws saith sir.			
Cynhaliwr	BIPBC	Ardaloedd dan sylw	Gogledd Cymru a Gogledd Powys
Disgrifiad			
Sefydlu sgiliau ADOS drwy hyfforddiant arbenigol mewn rhoi diagnosis/cod i blant ac oedolion ag Awtistiaeth ag anableddau dysgu neu hebddynt. Mae gan arweinydd y prosiect, Dr Dawn Wimpory, Seicolegydd Ymgynghorol Clinigol (BIPBC) a Darlithydd mewn Awtistiaeth ym Mhrifysgol Bangor, rôl benodol fel ymgynghorydd awtistiaeth ledled y rhanbarth. Mae Gogledd Powys yn rhan o BIPBC bellach ac felly bu'n rhan o'r hyfforddiant hwn. Cafodd diagnostegwyr a phroffesiynolion cysylltiedig o ddisgyblaethau amrywiol yn BIPBC ac awdurdodau addysg lleol fudd o'r cwrs. **<u>Cynnydd hyd yma</u>** Mae pobl a ddilynodd y cwrs wedi gallu rhoi ar waith sut y gwnaeth y cwrs ddwysau eu gwybodaeth fel y gallant ddatblygu a defnyddio'r sgiliau hyn yn eu gweithleoedd eu hunain.			
Nod/deilliannau	Amcan y prosiect yw hyfforddi tua 50 o broffesiynolion traws-asiantaeth i roi diagnosis ASA yn defnyddio offeryn safon aur ar draws saith ardal awdurdod lleol drwy gyrsiau arbenigol a phenodol i oedolion a phlant. Mae pob un o'r rhain yn gyrsiau llawn amser wythnos o hyd yn ogystal â gwaith cwrs ac asesu cyn ac ar ôl y cwrs.		

Datblygu Ysgolion Uwchradd Awtistiaeth-gyfeillgar (Prosiect ymchwil a hyfforddiant ysgol gyfan Ysgolion Cynhwysol ac ASAau.			
Cynhaliwr	Ymgynghorydd ADY/AAA ALN/SEN	Ardaloedd dan sylw	Gwynedd a Môn
Disgrifiad			

Deuddydd o hyfforddiant i holl gydlynwyr anghenion addysgol arbenigol ysgolion uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn wedi'i gynnal. Dogfennaeth archwilio a gwerthuso wedi'i rhannu gydag ysgolion.

- Targedu holl ysgolion uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn a hefyd gwahodd ysgolion Cymraeg o ardaloedd eraill i ymuno â'r hyfforddiant gan ei fod yn cynnig y cyfle i rannu adnoddau Cymraeg.
- Deuddydd o hyfforddiant ar gyfer y cydlynydd anghenion addysgol arbennig/y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol o bob ysgol
- Gweithdy dilynol a hanner diwrnod i Wynedd ac Ynys Môn i werthuso effaith a rhannu arfer da, dan oruchwyliaeth Autism Cymru a Gwasanaeth Ymgynghorwyr ac Athrawon Arbenigol Cynnal (AELI) AAA JC Gwynedd ac Ynys Môn.

Diwrnod gwerthuso a rhannu arfer da dilynol wedi'i gynllunio ar gyfer 30 Mawrth 2011.

- Monitro a gwerthuso gweithgareddau ysgol ar gyfer mis Mai/Mehefin 2011 i'w cynnal gan Ymgynghorydd ADY CYNNAL/Athro Arbenigol AAA JC Gwynedd a Môn,

Nod/deilliannau	Ymestyn gallu ysgolion i fodloni anghenion disgyblion ag ASA ac ennill statws Ysgolion Awtistiaeth-gyfeillgar.

Hyfforddiant (TEACCH) Addysgu Strwythuredig Gwent			
Cynhaliwr	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Ardaloedd dan sylw	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Disgrifiad o'r prosiect			
Mae proffesiynolion sy'n gweithio yn ardal Gwent gyfan wedi bod yn gysylltiedig â darparu hyfforddiant TEACCH bum niwrnod a dau neu dri diwrnod drwy gysylltu ag is-adran TEACCH, Prifysgol Gogledd Carolina, UDA. Hyd yma maent wedi cynnal 5x5 sesiwn hyfforddiant llwyddiannus i broffesiynolion a rhieni plant ag ASA ledled Cymru. Mae hyfforddiant wedi'i ymestyn hefyd i broffesiynolion sy'n gweithio gydag oedolion drwy hyfforddiant cyflogaeth â chymorth. O ganlyniad, mae pedwar unigolyn yng Ngwent wedi gallu cael hyfforddiant pellach i ddod yn hyfforddwyr annibynnol o dan oruchwyliaeth yr is-adran TEACCH. Y gobaith yn y pen draw yw y bydd tîm o hyfforddwyr yng Nghymru sy'n gallu parhau i roi hyfforddiant pum niwrnod o dan oruchwyliaeth Cyfarwyddwr yr Is-adran TEACCH. Bydd hyn yn lleihau costau yn sylweddol o ran hyfforddiant pum diwrnod i broffesiynolion ledled Cymru. Gan fod yr ymagwedd hon yn canolbwyntio ar unigolion, nod y tîm yw ei hybu i'r holl rieni a gofalwyr wrth ymdrin ag unigolyn ag ASA.			

Pennod 6

Asesu, Diagnosis a Chymorth wedi Diagnosis

Clinig ASA trydyddol i blant a phobl ifanc			
Cynhaliwr	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Ardaloedd dan sylw	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Disgrifiad o'r prosiect			
Mae'r clinig amlddisgyblaeth hwn yn cynnwys cyfraniad gan y meysydd seiciatreg, seicoleg a therapi lleferydd ac iaith arbenigol a chafodd ei sefydlu ym 1994. Mae tîm y clinig wedi bod yn gysylltiedig ag asesu plant â symptomau cymhleth, cyd-forbidrwydd cysylltiedig, yn enwedig mewn plant ag ASA ac anableddau dysgu, asesu awtistiaeth o ran anableddau dysgu difrifol a cheisiadau am ail farn. Derbynnir atgyfeiriadau gan naill ai'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed neu bediatregwyr. Caiff y clinigau eu cynnal ar y dydd Gwener cyntaf a'r ail ddydd Gwener o bob mis. Os bydd angen gwaith parhaus gyda phlentyn ag anabledd dysgu ac ASA, yna bydd y tîm plant a'r glasoed ag anableddau dysgu yn ymyrryd. Hyd yma, mae'r clinig trydyddol wedi dileu'r angen am atgyfeiriadau drud y tu allan i'r sir i blant ag ASA. Mae wedi'i leoli o fewn gwasanaethau arbenigol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yng Ngwent.			

Gwasanaeth Asesu Asperger			
Cynhaliwr	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Ardaloedd dan sylw	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Disgrifiad o'r prosiect			
Mae'r Gwasanaeth Asesu Asperger yn wasanaeth diddordeb arbennig a gynigir o fewn Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ardal Gwent gyfan. Caiff clinigau eu cynnal unwaith y mis ac ar gyfartaledd maent yn gallu cynnig asesu a diagnosis ar gyfer hyd at 20 o gleifion y flwyddyn. Caiff gwybodaeth amlddisgyblaeth ei chasglu wrth asesu.			

Cynllun peilot – datblygu pecyn ar ôl diagnosis i Bowys			
Cynhaliwr	Powys	Ardaloedd dan sylw	Rhanbarth canolbarth a gorllewin Cymru
Disgrifiad o'r prosiect			
Pecyn ar ôl diagnosis i'w ddatblygu'n lleol ym Mhowys ar gyfer y timau cyfathrebu cymdeithasol ac asesu (SCAT) y gellir eu gwerthuso i gefnogi ardaloedd eraill yn rhanbarth canolbarth a gorllewin Cymru. Pecyn ar ôl diagnosis i Bowys i gynnwys: Rhagarweiniad Rhestr o daflenni SCAT cymeradwy, y cyfan yn ddwyieithog:			

- Popeth am ASA – llyfryn i rieni a gofalwyr – a argymhellir fel taflen '*beth yw gwybodaeth am ASA'* sy'n cael ei dosbarthu wrth roi diagnosis
- Dysgu i Chwarae, Chwarae i Ddysgu – taflen wybodaeth i'r rhai hynny sy'n byw ac yn gweithio gyda phlant bach sydd ag ASA.
- Cyfathrebu, Cyfathrebu – taflen wybodaeth i'r rhai hynny sy'n byw ac yn gweithio gyda phlant bach sydd ag ASA.
- O na! Ddim yr Ysgol Fawr – gwybodaeth a syniadau i bawb wrth gynllunio pontio i blant iau ag ASA sy'n symud i'r ysgol uwchradd
- Gwern – llyfr yn gyfres 'Byw ag Awtistiaeth' i frodyr a chwiorydd y rhai hynny ag ASA.
- NAS Cymru
- Make School, Make Sense
- DVD wedi'i anelu at bobl ifanc yn eu harddegau ag ASA – 2 i bob tîm at ddibenion benthyca'n unig.
- Cymorth Cynnar – gwybodaeth i rieni am ASA a chyflyrau cysylltiedig
- Rhestr o elusennau cenedlaethol a chysylltiadau eraill.
- Rhestr o gysylltiadau a grwpiau cymorth lleol ym Mhowys.

Creu pecyn cymorth ar ôl diagnosis – De Cymru			
Cynhaliwr	Rhondda Cynon Taf	ardaloedd dan sylw	De-ddwyrain Cymru
Disgrifiad o'r prosiect			
Deilliodd y prosiect hwn a ariannwyd yn rhanbarthol o sylwadau gan rieni a gofalwyr y byddai rhagor o wybodaeth yn dilyn diagnosis yn ddefnyddiol. Hysbyswyd datblygiad cychwynnol y pecyn gan rieni lleol a sylwadau gofalwyr am ba wybodaeth roedd angen ei rhoi yn dilyn diagnosis. Roedd rhai themâu allweddol i hyn, gan gynnwys darparu cyngor a gwybodaeth briodol i oedran a fyddai'n ddefnyddiol wrth i'r plentyn symud drwy gyfnodau datblygiadol amrywiol. Mae fersiwn ddrafft o'r pecyn wedi'i dosbarthu'n eang i rieni, gofalwyr a phroffesiynolion iddynt roi sylwadau arni. Mae'r sylwadau hyn wedi'u hystyried ac mae'r pecyn wedi'i ail-ddrafftio yn unol â hynny. Mae dau ddiwrnod ymgynghori wedi'u cynllunio ar gyfer yr wythnosau sydd i ddod, er mwyn cymeradwyo'r pecyn terfynol. Yna caiff y pecyn ei argraffu a bydd ar gael i rieni a gofalwyr yn ne-ddwyrain Cymru wrth iddynt gael diagnosis.			

Timau Cyfathrebu Cymdeithasol ac Asesu (SCAT)			
Cynhaliwr	Powys	Ardaloedd dan sylw	Powys
Disgrifiad			
Sefydlwyd timau cyfathrebu cymdeithasol ac asesu Powys yn 2005 ac maent yn gyfrifol am asesu a rhoi diagnosis i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed o ran anawsterau cymdeithasol a/neu anawsterau cyfathrebu. Mae timau amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth yng ngogledd a de Powys sy'n cyfarfod			

bob mis. Gall proffesiynolyn meddygol neu seicolegydd addysgol wneud cais am asesiad SCAT. Os caiff ei dderbyn, caiff lleiafswm o ddau broffesiynolyn eu dyrannu yn y tîm i arwain yr asesiad ac ymgymryd ag arsylwadau yn yr ysgol a/neu gartref. Yn ogystal â'r adroddiadau arsylwi, bydd y timau yn defnyddio dau offeryn asesu safonol ar gyfer anhwylder ar y sbectrwm awtistig fel a ganlyn:
3Di – (Cyfweliad Datblygiadol, Dimensiynol a Diagnostig) yn cynnwys cyfweliad ar gyfrifiadur â'r rhieni ynghyd â chanlyniad yr holiadur.

- ADOS – (Amserlen Arsylwi Diagnostig Awtistiaeth). Asesiad a gynhelir drwy chwarae yn gweld sut mae'r unigolyn yn ymateb i weithgareddau gwahanol.

Ar ddiwedd y broses asesu, caiff adborth ei roi i'r unigolyn sy'n cael ei asesu a/neu ei deulu, mewn cyfarfod ffurfiol fel y bo'n briodol. Gallai hyn gynnwys cynrychioliaeth o'r ysgol neu gynrychiolaeth broffesiynol arall os caiff ei chymeradwyo ac os yw'n berthnasol. Yna gwneir atgyfeiriadau at wasanaethau eraill fel y bo'n briodol.

Prosiect Gwerthuso'r Gwasanaeth ASA			
Cynhaliwr	BIPBC	Ardaloedd	Conwy Sir Ddinbych
Disgrifiad			
Caiff y prosiect ei gydariannu gan grwpiau rhanddeiliaid ASA Siroedd Conwy a Dinbych. Nod y prosiect yw gwerthuso profiad defnyddwyr gwasanaethau o wasanaethau asesu ASA ledled Siroedd Conwy a Dinbych, yn archwilio asesiadau drwy lwybrau gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed yn ogystal â thrwy lwybrau anableddau dysgu plant/iechyd plant. Mae archwiliad wedi'i gwblhau i gael darlun o wasanaethau asesu ASA yn ystod 2009. Yr ail agwedd ar y prosiect, sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd, yw y caiff defnyddwyr y gwasanaeth eu cyfweld am eu profiadau o wasanaethau ASA. Bydd hyn yn arwain at wybodaeth gyfoethog a manwl am wasanaethau asesu ASA yn nhyb defnyddwyr y gwasanaeth.			
Nod/deilliannau	Disgwylir mynd i'r afael â bylchau o ran y gwasanaeth yn ystod y broses archwilio. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd angen amlygu bylchau o ran y gwasanaeth ar lefel genedlaethol.		

Swyddog Cymorth Awtistiaeth			
Cynhaliwr	Torfaen	Ardaloedd dan sylw	Torfaen
Disgrifiad			
Nod y swydd cymorth ASA yw cefnogi plant a theuluoedd trwy ystyried eu sefyllfa bresennol mewn ffordd resymegol. Gwneir hyn trwy wrando, darparu gwybodaeth berthnasol, a chyfeirio at broffesiynolion eraill a allai gynnig cymorth. Gall cysylltu â rhieni, staff iechyd ac addysg helpu i uchafu dysgu a rhyngweithio cymdeithasol mewn ysgolion a chymunedau lleol. Mae'r gwasanaeth yn anelu at gefnogi plant ag ASA a theuluoedd mewn dwy ffordd arbennig:			

Cymorth ar ôl diagnosis:
Gall proffesiynolion iechyd sy'n rhoi diagnosis gyfeirio teuluoedd, â'u caniatâd, at y gwasanaeth hwn. Gall ymyrraeth gynnar, ar ôl diagnosis, gefnogi plant a theuluoedd mewn ffordd gadarnhaol, gan sicrhau eu bod yn bartneriaid o ran addysg eu plentyn.

Gall y Gwasanaeth Cymorth ASA fod yn bont rhwng y teulu a'r ysgol, a sicrhau bod anghenion y plentyn ag ASA yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf priodol.

Pontio:
Gall dechrau yn yr ysgol gynradd neu'r ysgol uwchradd fod yn her os yw eich plentyn wedi cael diagnosis o ASA.

Gall cymorth ASA helpu drwy sicrhau bod gwybodaeth hollbwysig, ac sy'n cael ei diystyru weithiau, am eich plentyn yn cael ei throsglwyddo rhwng y cartref, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

Gall cymorth ASA gynnig pecyn penodol o gymorth yn seiliedig ar anghenion, gallu a diddordeb unigol.

Nod/deilliannau	• Cefnogi teuluoedd yn syth ar ôl diagnosis drwy roi cyngor a chymorth ymarferol • Helpu rhieni i ddysgu i ddeall ymddygiad eu plentyn • Cyfeirio rhieni at asiantaethau allanol sy'n cynnig hyfforddiant a chymorth i rieni • Darparu gwybodaeth am grwpiau cefnogaeth leol a'u gweithgareddau • Ymgysylltu â phroffesiynolion sy'n ymwneud â'r plentyn a'i deulu • Gweithio gyda'r teulu gartref a'r ysgol i gynllunio camau pontio y mae'r plentyn ar fin eu cymryd

Llyfryn "Symud i Fyny … Symud Ymlaen"			
Cynhaliwr	Torfaen	Ardaloedd dan sylw	Torfaen
Disgrifiad			
Mae "Symud i Fyny... Symud Ymlaen!" yn llyfryn a ysgrifennwyd i gefnogi disgyblion ag ASA sy'n symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Ysgrifennwyd y llyfryn dwyieithog hwn gan y swyddog cymorth ASA, Cheryl Deneen, yn defnyddio ei harbenigedd yn y maes hwn.			

Lansiwyd y llyfryn yn Ffair Awtistiaeth Torfaen 2010, ac mae wedi'i ddosbarthu ledled Torfaen. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd o ran ei ddosbarthu'n ehangach.	
Nod/deilliannau	Cefnogi pobl ifanc ag ASA wrth iddynt symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd

Rhwydwaith Cynllunio CAMHS Arbenigol Rhanbarthol – Ffrwd Waith ASA			
Cynhaliwr	BIPBC	Ardaloedd dan sylw	Gogledd Cymru
Disgrifiad			
Pwrpas penodol y grŵp hwn yw edrych ar brosesau asesu ASA BIPBC i blant a phobl ifanc ledled rhanbarth Gogledd Cymru a datblygu safonau asesu i ASA a hefyd canfod unrhyw adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'r math hwn o asesiad. Bydd y ffrwd waith hon yn ystyried yr holl wasanaethau ASA sy'n perthyn i gylch gwaith y Grŵp Rhaglen Glinigol Plant a Phobl Ifanc. Bydd gwaith y grŵp hwn yn cael ei adrodd i'r Rhwydwaith Cynllunio CAMHS Arbenigol Rhanbarthol ac i'r grwpiau cynllunio gweithredu awtistiaeth lleol a sefydlwyd yn wreiddiol ar ôl lansio Cynllun Gweithredu Strategol ASA i Gymru Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ebrill 2008) gan adeiladu ar y ffrydiau gwaith presennol.			

Llwybr gofal integredig i blant ag anghenion cymhleth ac sy'n agored i niwed			
Cynhaliwr	Powys	Ardaloedd dan sylw	Powys
Disgrifiad			
Datblygwyd llwybr yn defnyddio peth o arian y grant ASA ac fe'i cymeradwywyd gan Grŵp Gweithredol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Dechreuwyd cynllun peilot a chaiff plant rhwng 0 a 5 oed sy'n cael eu hasesu am ASA ac sydd ag anghenion cymhleth yn unol â'r llwybr eu cyfeirio at banel datrys adnoddau lleol.			
Nod/deilliannau	Mae'r nodau'n cynnwys: Mae'r broses yn canolbwyntio ar anghenion plant a theuluoedd mewn ymagwedd gyfannol, yn hytrach nag ar gymhwyster penodol am wasanaethau. Mae'r broses fusnes yn hwyluso ac yn integreiddio cyfraniadau ar draws disgyblaethau ac asiantaethau.		

Canllawiau i adnabod ac asesu plant a phobl ifanc ag achos tybiedig o anhwylder ar y sbectrwm awtistig.			
Cynhaliwr	Abertawe	Ardaloedd dan sylw	Abertawe
Disgrifiad			
Mae grŵp amlddisgyblaethol o broffesiynolion, a gafodd y dasg gan y grŵp llywio ASA, wedi llunio'r canllawiau. Y nod yw:			

• Hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin am anhwylderau'r sbectrwm awtistig • Cynnig fframwaith ar gyfer adnabod ac asesu plant a phobl ifanc sy'n dangos ystod o symptomau ac ymddygiad a allai awgrymu anhwylder ar y sbectrwm awtistig • Galluogi proffesiynolion o ddisgyblaethau gwahanol ac asiantaethau gwahanol sy'n ymwneud â gofalu am blant a phobl ifanc i weithio'n effeithiol er budd plant a theuluoedd Mae'r ddogfen yn esbonio asesu diagnostig ASA ac yn amlinellu ymateb graddol i blant ag anawsterau cymdeithasu, cyfathrebu ac ymddygiad. Mae'n esbonio rolau a chyfrifoldebau proffesiynolion sy'n gysylltiedig, yn rhoi arweiniad ar gamau gwahanol addysg ac yn rhoi syniadau a strategaethau i ysgolion a rhieni. Mae'r arweiniad ar gael ar-lein gyda'r Llawlyfr ASA, cronfa gynhwysfawr o wybodaeth am gynllunio gweithredu a datblygu gwasanaethau ar gyfer ASA. Mae'r llawlyfr ar gael ar-lein ac mae copi caled ar gael yn lleol.	
Nod/deilliannau	Mae'r canllawiau'n rhoi llwybr a fframwaith rhagweladwy ar gyfer asesu a chymorth cyn, yn ystod ac ar ôl diagnosis.

Pecyn cymorth ar ôl diagnosis			
Cynhaliwr	Sir Gaerfyrddin	Ardaloedd dan sylw	Sir Gaerfyrddin
Disgrifiad			
Amlygwyd yr angen am becyn gwybodaeth yn yr ymatebion i holiadur a ddosbarthwyd i rieni y llynedd am eu profiad o'r broses asesu a rhoi diagnosis. Defnyddiwyd gweithdy diweddar gan randdeiliaid ASA i amlygu'r wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol yn y pecynnau, yn nhyb y rhieni. Y nod yw rhoi'r pecyn ar wefan cymorth a gwybodaeth i rieni a gofalwyr (HAIPAC) yn hytrach na dosbarthu copïau caled.			
Nod/deilliannau	Bydd y pecyn cymorth ar ôl diagnosis ar gael ar wefan HAIPAC		

Pennod 7

Ymyriadau a Hyfforddiant i Unigolion ag ASA, Rhieni a Gofalwyr

Gwasanaeth Sbectrwm Awtistig Caerffili (CASS)			
Cynhaliwr	ALl Caerffili	Ardaloedd dan sylw	Caerffili
Disgrifiad			
Mae CASS yn darparu “gwasanaeth cofleidiol” sy’n cyfuno rôl draddodiadol athro neu athrawes allgymorth ynghyd â gweithiwr cymorth cyfathrebu, gweithiwr cymorth ysgol a gweithiwr cymorth cartref. Mae CASS yn cydnabod bod ar blant a phobl ifanc sy’n cael diagnosis ASA angen i bawb sy’n gysylltiedig â’u cefnogi ddeall eu hanghenion a chynnig cysondeb a sefydlogrwydd ym mhob agwedd ar eu bywydau. I wneud hyn, mae CASS yn rhoi cyngor ac arweiniad i leoliadau prif ffrwd, yn grymuso staff ysgol i deimlo’n fwy cadarnhaol am weithio gyda phlant ag ASA. Mae CASS hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad i deuluoedd ar ôl iddynt gael diagnosis. Yng Nghaerffili, mae CASS yn cydlynu’r cymorth a’r ddarpariaeth amlasiantaeth i blant ag ASA. Mae CASS wedi datblygu cydberthynas waith agos â’r gwasanaethau cymdeithasol, seicolegwyr addysgol, athrawon ymgynghorol, pediatregwyr cymunedol, therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd ac iaith, deietegwyr a llawer eraill. Blaenoriaeth arall i CASS yw sicrhau trefniadau pontio gwell rhwng darpariaeth gynradd ac uwchradd. Mae’r tîm yn cydweithio â ‘Hybu Annibyniaeth’ i wella pontio ar gyfer darpariaeth 16/19.			
Nod/deilliannau	• Darparu un gwasanaeth cydlynol i gefnogi plant phobl ifanc (2-19 oed) ag awtistiaeth neu anhwylder cyfathrebu/ymdygiad tebyg, eu teuluoedd a’r proffesiynolion sy’n gweithio gyda nhw. • Gweithio gyda’r gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau iechyd a sefydliadau gwirfoddol i ddatblygu ymagweddau agos rhwng asiantaethau. • Hybu cynnwys plant a phobl ifanc mewn addysg brif ffrwd ac yn eu cymunedau. • Datblygu gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynolion ym mhob asiantaeth sy’n ymwneud ag anghenion plant ag awtistiaeth a hybu ysgolion awtistiaeth-gyfeillgar.		

Therapi Cerddoriaeth			
Cynhaliwr	Adrannau Addysg Ynys Môn a	Ardaloedd dan sylw	Ynys Môn Gwynedd

	Gwynedd		
Disgrifiad			
Prosiect Therapi Cerddoriaeth Galluogodd Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd i'r awdurdodau addysg priodol ariannu darpariaeth therapi cerddoriaeth drwy ddau therapydd cerddoriaeth llawrydd sy'n gweithio'n unigol gyda staff addysg a rhieni i wella cyfathrebu plant. Mae sesiynau'n parhau i gael eu rhoi i blant mewn ysgolion lleol/ unedau cyn ysgol yn ogystal â darpariaeth gartref ac mewn lleoliadau eraill. Cynhyrchu Ffilm Hyfforddi ar Therapi Cerddoriaeth Mae ffilmio diffiniad uchel yn mynd rhagddo i gynhyrchu DVD yn dangos sut i ddefnyddio therapi cerddoriaeth gyda phlant ag awtistiaeth. Mae'r DVD hwn yn fersiwn sydd wedi'i diweddaru o fideo cynharach a gynhyrchwyd gan Dr Dawn Wimpory dros 25 mlynedd yn ôl a gafodd ei ddosbarthu'n rhyngwladol. Ein DVD ni fydd y cyntaf o'i fath i fod ar gael yn Gymraeg neu Saesneg a rhagwelir y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y plant a'r boblogaeth ASA ehangach i allu manteisio ar therapi cerddoriaeth drwy'r DVD.			
Nod/deilliannau	Mae therapi cerddoriaeth yn fath penodol o therapi awtisiaeth sy'n mynd i'r afael â'r anawsterau y mae pobl ar y sbectrwm yn eu cael o ran amseru cymdeithasol. Mae'n darparu'r sylfeini sydd i fathau naturiol o gyfathrebu; goslef, naturioldeb, aros eich tro, canolbwyntio ar anghenion eraill ac ymateb iddynt.		

Rhaglen EarlyBird Plus			
Cynhaliwr	Casnewydd	Ardaloedd dan sylw	Casnewydd
Mae EarlyBird Plus yn rhaglen dri mis gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, sydd ar gael i dimau o dri oedolyn: rhieni neu ofalwyr ynghyd â phroffesiynolyn megis cydlynydd anghenion addysgol arbennig neu gynorthwy-ydd cymorth. Mae cynnwys y rhaglen yn dechrau gydag addysgu'r 'tîm' am awtistiaeth cyn troi at ddatblygu cyfathrebu, rhyngweithio cymdeithasol a rheoli ymddygiad. Mae'n helpu rhieni a phroffesiynolion i fagu hyder drwy annog y 'timau' i ddatrys problemau gyda'i gilydd. Erbyn diwedd y cwrs, mae rhieni'n gallu ymdrin yn well â'r problemau sy'n ymwneud ag awtistiaeth. Mae pum cwrs wedi'u cynnal hyd yma yng Nghasnewydd, yn hyfforddi rhieni, gofalwyr a phroffesiynolion. Caiff y cyrsiau eu cynnal gan ddau unigolyn sydd wedi cael hyfforddiant EarlyBird.			

***help!* – Rhaglen gymorth ar ôl diagnosis**			
Cynhaliwr	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth	Ardaloedd dan sylw	Cymru gyfan
Disgrifiad			

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth wedi datblygu rhaglen o'r enw *help!* sy'n cynnig hyfforddiant i rieni a gofalwyr plant o oed ysgol, pobl ifanc ac oedolion sydd wedi cael diagnosis eu bod ar y sbectrwm awtistiaeth.

Ar ôl i blentyn gael diagnosis o awtistiaeth, mae llawer o rieni a gofalwyr yn ansicr ynghylch yr hyn i'w wneud nesaf. Mae'r rhaglen *help!* yn rhoi gwybodaeth am awtistiaeth, cyfathrebu ac addysg yn ogystal â chyngor ar sut i fanteisio ar wasanaethau a chymhwyster.

Gall rhieni a gofalwyr fynychu dau seminar *help!* mwy arbenigol, sy'n cynnig gwybodaeth fanylach ar bynciau megis cefnogi brodyr a chwiorydd, rheoli dicter, diwallu anghenion synhwyraidd eich plentyn a bywyd fel oedolyn.

Yn ddiweddar, Gwasanaeth Cymorth Awstistiaeth Caerffili fu darparwr allanol cyntaf y DU rhaglen *help!* Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth. Mae gan awdurdodau lleol Sir Fynwy a Phen-y-bont ar Ogwr ymarferwyr trwyddedig erbyn hyn. Mae Sir Fynwy newydd ddechrau cyflwyno'r rhaglen ac mae Pen-y-bont ar Ogwr yn bwriadu gwneud hynny maes o law.

Ymddiriedolaeth Cyffwrdd			
Cynhaliwr	Conwy	Ardaloedd dan sylw	Conwy
Disgrifiad			
Ymddiriedolaeth Cyffwrdd (i bobl ifanc ac oedolion) - mae'n darparu rhaglenni celfyddyd symud a dawns creadigol yn seiliedig ar gyffwrdd i unigolion y mae anhwylderau'r sbectrwm awtistig, ymddygiad heriol ac anableddau difrifol a lluosog yn effeithio arnynt.			
Nod/deilliannau	Byddai unigolion ag awtistiaeth ac anabledd dysgu'n elwa o sesiynau synhwyraidd ac felly'n gofidio llai ac yn cymryd rhan yn fwy aml. • Nodau'r cynllun yw i staff y cynllun gael eu hyfforddi mewn rhoi Ymddiriedolaeth Cyffwrdd ar waith ac felly datblygu sesiynau unigol a/neu sesiynau grŵp i'w hymgorffori yn amserlen strwythuredig unigolyn. • Gallu cynnig sesiynau unigol a/neu sesiynau grŵp i oedolion ag awtistiaeth neu anabledd dysgu i annog cyfranogiad, gwella cydberthynas, annog ymlacio a thawelu pryderon, gan arwain, gobeithio, at ddatblygu ymhellach rhaglen gweithgareddau unigol ond hefyd gallu unigolion i gyfranogi ac integreiddio mewn gweithgareddau grŵp eraill. • Galluogi staff i ennill gwybodaeth benodol, ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a sgiliau er mwyn iddynt arwain, trefnu a chyflwyno sesiynau mewn ffordd ragweithiol yng Nghanolfan Rivieres. • Meithin cysylltiadau ag Ysgol Gogarth sydd eisoes yn cynnig hyn i blant yr ysgol, gan arwain at y cyfle am fentrau a datblygiadau yn y dyfodol. • Creu gweithgarwch mewn gwasanaethau i oedolion		

	sy'n cael ei ddefnyddio gan blant yn Ysgol Gogarth ac yr ystytir ei fod yn llwyddiannus ac felly'n dyblygu ei lwyddiant i oedolion ag awtistiaeth ac anableddau dysgu.

Gweithdai eiriolaeth i bobl ar y sbectrwm awtistiaeth			
Cynhaliwr	Ceredigion	Ardaloedd dan sylw	Ceredigion
Disgrifiad			
Amlygwyd hyfforddiant ar eiriolaeth i rieni, gofalwyr a phobl ag ASA fel angen yn y cynllun gweithredu ar gyfer ASA. O ganlyniad, defnyddiwyd peth o arian grant ASA LICC i amlygu a chomisiynu gweithdai eiriolaeth wedi'u cyflwyno gan hyfforddwr â gwybodaeth arbenigol am y sbectrwm awtistig ac eiriolaeth, ac unigolyn ar y sbectrwm awtistiaeth. Roedd sesiynau ar wahân i bobl ifanc ac oedolion ond roeddent oll yn agored i rieni, gofalwyr, staff cymorth a ffrindiau. Agenda'r gweithdy oedd: • Canfod beth yw'r pethau pwysig yn ein bywydau i ni • Deall yr hyn y mae eiriolaeth yn ei olygu • Canfod beth yw hunaneiriolaeth dda'n ymarferol • Ystyried sut mae angen i eiriolaeth newid yng Ngheredigion • Datblygu gweledigaeth o sut bydd eiriolaeth yn edrych yn y dyfodol • Datblygu cynllun gweithredu i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth • Canfod â phwy y gallwn gysylltu i'n helpu			
Nod/deilliannau	Mae mwy o bobl ifanc ac oedolion ar y sbectrwm awtistiaeth yn ymwybodol o ystyr eiriolaeth a sut i gael cymorth er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed.		

Pennod 8

Systemau Cymorth

Cynllun Cardiau Argyfwng ASA			
Cynhaliwr	Autism Cymru Powys	Ardaloedd dan sylw	Heddlu Dyfed Powys
Disgrifiad			
Cynllun Cardiau Argyfwng ASA – Powys yw'r sir ddiweddaraf i ymuno â'r cynllun cardiau ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Mae Heddlu Dyfed Powys, ar y cyd ag Autism Cymru, wedi lansio cerdyn i unigolion ag awtistiaeth, gan gynnwys syndrom Asperger, yn yr ardal. Gallai unigolion ar y sbectwm awtistig ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol o ganlyniad i'w cyflwr neu oherwydd eu hanawsterau cymdeithasol ac anawsterau cyfathrebu. Os bydd rhywun ag awtistiaeth yn dod i gysylltiad ag unrhyw wasanaeth brys, gallant ddangos cerdyn o faint cerdyn credyd i dynnu sylw at yr ASA a fydd, nid y unig, yn rhoi gwybod i'r proffesiynolyn bod ganddynt awtistiaeth ond bydd hefyd yn cynnig cyngor ar sut i gyfathrebu gyda nhw'n effeithiol: 1. Mae ASA yn anabledd 2. Gallai fod angen i mi weld cyfryngwr 3. Gofynnwch gwestiynau un ar y tro 4. Dywedwch wrthyf gam wrth gam yr hyn fydd yn digwydd. Mae'r cerdyn hefyd yn rhoi rhifau ffôn personél y gwasanaethau brys i'w ffonio am ragor o gyngor, cymorth a gwybodaeth am awtistiaeth. I gefnogi'r cynllun hwn, mae cysylltiadau wedi'u meithrin ymhellach ac erbyn hyn mae Heddlu Dyfed Powys wedi'u cynrychioli ar Grŵp Rhanddeiliaid ASA Powys. O ganlyniad, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth am awtistiaeth yn ffurfio rhan o hyfforddiant BEST Powys (Hyfforddiant Sgiliau Hanfodol Sylfaenol) yn yr heddlu.			

Swyddi Gwaith Cymdeithasol ASA Arbenigol			
Cynhaliwr	Ceredigion	Ardaloedd dan sylw	Ceredigion
Disgrifiad			
Yn y gwasanaethau i blant erbyn hyn, mae swydd benodol i weithiwr cymdeithasol/gweithiwr allweddol ym maes ASA. Mae gweithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol a rhannu gwybodaeth wedi golygu bod llawer o wasanaethau wedi bod yn fwy hyblyg o ran eu darpariaeth. Mae cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau yn werthfawr ac mae strategaethau gwahanol wedi'u defnyddio yn unol â lefel weithredu'r unigolyn. Yn y gwasanaethau i oedolion, ariannwyd ymchwil i asesu a chynllunio gofal i oedolion â syndrom Asperger, sydd ag anghenion cymorth cymwys ond nad			

ydynt yn bodloni meini prawf mynediad ar gyfer timau anableddau dysgu neu iechyd meddwl cymunedol erbyn flwyddyn gyntaf arian grant ASA gan LICC. Arweiniodd hyn at greu swydd gwaith cymdeithasol benodol ar gyfer Asperger, yn canolbwyntio ar asesu gofal cymdeithasol craidd, cynllunio a monitro manwl. Mae deiliad y swydd yn cydweithio'n agos â gweithwyr presennol prosiect cymunedol ASA a chyda thimau a gwasanaethau cefnogi pobl.	
Nod/deilliannau	Caiff asesu a chynllunio gofal eu llywio gan wybodaeth arbenigol am y sbectrwm awtistiaeth.

Gwasanaeth Anableddau Integredig i Blant			
Cynhaliwr	Sir y Fflint	Ardaloedd dan sylw	Sir y Fflint
Disgrifiad			
Mae arfer da presennol wedi'i gryfhau gan waith amlddisgyblaeth drwy CIDS (y Gwasanaeth Anableddau Integredig i Blant) a'r Panel Gofal Plant i reoli plant a phobl ifanc cymhleth ag ASA. Mae CIDS yn gweithio gyda phlant mwy heriol ag ASA sydd ag anabledd dysgu hefyd. Maent yn darparu gwasanaeth di-dor o ran asesu, dod o hyd i leoliadau addas, rheoli'r ceisiadau am arian a monitro ac adolygu cynnydd.			
Nod/deilliannau	Gweithio amlasiantaeth cryf, effeithiol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc gyda gwasanaeth gweithwyr allweddol penodol ar gyfer anawsterau ASA ac anableddau dysgu.		

Canolfan Marion, Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf			
Cynhaliwr	ALl Caerdydd	Ardaloedd dan sylw	Caerdydd
Disgrifiad			
Mae Canolfan Marion yn lle pwrpasol ar gyfer dysgu i bobl ifanc rhwng 11 a 19 oed sydd ag awtistiaeth. Mae disgyblion yng Nghanolfan Marion yn mwynhau'r manteision o gael eu cynnwys mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd, a chael y cymorth addysgol arbenigol ac arbenigedd sydd eu hangen arnynt ar yr un pryd. Mae'r ysgol yn cynnig cynllun pontio cynhwysfawr i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cyn iddynt ymuno â'r ysgol sy'n nodedig am ei hethos cryf o gynhwysiant. Mae disgyblion yng Nghanolfan Marion yn cael cymorth ychwanegol i drafod eu hanawsterau cyfathrebu a'u hanawsterau cymdeithasol ac mae staff addysgu Canolfan Marion yn rhannu eu harbenigedd awtistiaeth gyda'r staff addysgu prif ffrwd. Derbyniodd Canolfan Marion ei disgyblion cyntaf yn 2009 ac mae'n bwriadu derbyn carfan newydd o chwe disgybl bob blwyddyn academaidd. Mae'n derbyn plant o Gaerdydd ond gellir ystyried disgyblion o awdurdodau cyfagos eraill hefyd. Er bod yr uned wedi'i lleoli mewn adeiladau dros dro ar dir Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf ar hyn o bryd, mae			

cynlluniau ar y gweill i godi adeilad newydd ar y safle, wedi'i adeiladu i weddu anghenion amgylcheddol a synhwyraidd disgyblion ag awtistiaeth.

Tîm Allgymorth ASA/Cyfathrebu Cymdeithasol			
Cynhaliwr	Conwy	Ardaloedd dan sylw	Ysgolion prif ffrwd, unedau cyfeirio disgyblion, addysg amgen Conwy
Disgrifiad			
Mae'r tîm allgymorth yn cynnwys dau gynorthwy-ydd addysgu lefel uwch sydd wedi'u hyfforddi'n dda iawn, y mae arweinydd y tîm yn un o'r rhain. Ei rôl yw cefnogi staff yr ysgol i ganiatáu cynnwys disgyblion ag ASA ac anawsterau cyfathrebu cymdeithasol sylweddol yn gadarnhaol ym mhob lleoliad prif ffrwd. Maent yn arsylwi, yn asesu ac yn cynnig cyngor, adnoddau, arweiniad a strategaethau a ddilynir gan ymweliadau rheolaidd cyn belled ag y bydd eu hangen. Cynigir cymorth ychwanegol drwy gydol unrhyw gyfnod pontio. Yn y cyfnod uwchradd, caiff gwaith un wrth un ei wneud gyda'r disgybl. Caiff rhieni eu cefnogi ar y cyd ag ysgolion ac ymwelir â chartrefi yn aml i sicrhau ymagwedd gyson.			
Nod/deilliannau	Cynnwys disgyblion ag ASA ac anawsterau cyfathrebu cymdeithasol yn llwyddiannus ac yn briodol mewn ysgolion prif ffrwd. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ysgolion am ASA.		

Tîm Rhithwir ASA			
Cynhaliwr	Sir Fynwy	Ardaloedd dan sylw	Sir Fynwy
Disgrifiad			
Mae'r tîm rhithwir ASA yn cynnwys dau weithiwr enwebedig o bob un o'r timau gwaith cymdeithasol i oedolion. Mae'r tîm yn cyfarfod unwaith y mis ac yn rhoi cymorth i grwpiau drwy gyfnewid arfer. Mae'r tîm yn datblygu llwybr cyfeirio ar gyfer oedolion gan gynnwys y rhai hynny sy'n dod drwy'r broses bontio 14 i 25. Mae atgyfeiriadau'n seiliedig ar angen, nid diagnosis. Bydd oedolion ag ASA yn cael asesiad o'u hangenion a, lle eu bod yn gymwys, caiff pobl eu dyrannu i'r tîm mwyaf priodol. Mae'r tîm rhithwir yn ategu'r Grŵp Rhanddeiliaid ASA ac i'r gwrthwyneb. Mae aelodau'r tîm rhithwir yn astudio cwrs "Deall Awtistiaeth" y Brifysgol Agored ar hyn o bryd.			

Grwpiau Cymdeithasol i Bobl Ifanc			
Cynhaliwr	C-SAW	Ardaloedd dan sylw	Sir y Fflint Sir Ddinbych
Disgrifiad			
Mae'r grwpiau cymdeithasol i bobl ifanc yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint ar gyfer pobl awtistig rhwng 16 a 25 oed a'u nod yw rhoi cyfle i aelodau gael cyfeillgarwch parhaus a phrofiad o ystod eang o weithgareddau cymdeithasol ac addysgol. Mae'r grwpiau hyn wedi bod yn boblogaidd iawn, gyda 6/8 oedolyn ifanc yn dod i'r sesiynau.			
Nod/deilliannau	Mae'r grwpiau cymdeithasol yn helpu i wella ansawdd		

	bywyd i gyfranogwyr y grŵp, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'r grŵp yn gyfle i'w aelodau gymryd rhan mewn bywyd cymdeithasol 'arferol'. Mae aelodau'r grŵp yn cael y cyfle i wneud ffrindiau yn ogystal ag elwa o wneud rhywbeth gwahanol am ychydig oriau. Mae'n bosibl y bydd ansawdd bywyd teulu y rhai hynny ag awtistiaeth yn gwella gan y byddant yn elwa o ychydig oriau o seibiant. Mae'r prosiect hwn yn gwella gallu pobl ag ASA i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd nad ydynt wedi'u darparu eto yn y gymuned. Gall hyn helpu pobl ag ASA i integreiddio â'r gymuned ehangach.

Prosiect Tai AD ac ASA			
Cynhaliwr	Sir Fynwy	Ardaloedd dan sylw	Sir Fynwy
Disgrifiad			
Yn Sir Fynwy, mae dros 270 o oedolion ag anableddau dysgu ac ASA yn cael cymorth a gwasanaethau cymorth tai gan y Gwasanaethau i Oedolion a Cefnogi Pobl. Mae'r gwasanaethau unigol yn adlewyrchu ystod eang o anghenion, o barhau i fyw'n annibynnol i ofal preswyl, a llety sy'n adlewyrchu sbectrwm llawn o ddewisiadau deiliadaeth. Caiff gofynion llety oedolion yn Sir Fynwy ag anableddau dysgu eu hasesu fel bod modd datblygu strategaeth a fydd yn llywio comisiynu a datblygu llety a gwasanaethau cymorth tai yn y dyfodol sy'n sicrhau: • Ystod briodol o ddewisiadau ac opsiynau i gleientiaid • Gwerth am arian o ran datblygiadau • Darparu gwasanaeth sy'n adlewyrchu fforddiadwyedd o safbwynt y cleient			
Nod/deilliannau	Diwallu anghenion yr unigolyn a chynnig ystod o ddewisiadau ac opsiynau.		

Prosiect yn darparu llety ASA dros dro/symud ymlaen, gan gynnwys cymorth ASA penodol.			
Cynhaliwr	Cefnogi Pobl a Hafal	Ardaloedd dan sylw	Ceredigion
Disgrifiad			
Mae mapio lleol a gynhaliwyd cyn ac yn ystod blwyddyn gyntaf arian grant ASA LICC wedi dangos bod pobl ag ASA yn manteisio ar y timau a gwasanaethau cefnogi pobl presennol yng Ngheredigion. Dangosodd ymgynhori â rhieni, gofalwyr a phobl â syndrom Asperger angen am fwy o gymorth i symud o'r cartref teuluol tuag at fwy o annibyniaeth. O ganlyniad, sefydlwyd prosiect yn rhoi llety ASA dros dro/symud ymlaen, gan gynnwys cymorth ASA gan Cefnogi Pobl gyda Hafal. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn darparu tair uned hunangynhwysol dros dro i bobl ag ASA, gyda chymorth symudol Cefnogi Pobl a'r gwasanaethau cymdeithasol. Bwredir iddo fod yn ddewis arall i lety dros dro cyffredinol i bobl ddigartref ac			

mae'n fesur dros dro i bobl y mae eu llety'n ansefydlog a lle y gallai symud cynlluniedig atal digartrefedd neu argyfwng.	
Nod/deilliannau	Nod y prosiect fydd datblygu sgiliau, medr a gallu unigolyn i fyw'n annibynnol. Nod allweddol arall fydd hwyluso o ran llety, gwybodaeth, cyngor a chymorth.

WASSP (Grŵp Sgiliau Cymdeithasol Awtistiaeth Wrecsam)			
Cynhaliwr	Wrecsam	Ardaloedd dan sylw	Wrecsam
Disgrifiad			
Mae Grŵp Sgiliau Cymdeithasol Awtistiaeth Wrecsam (WASSP) yn rhaglen therapi i bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed sydd ag Awtistiaeth, gan gynnwys y rhai hynny â syndrom Asperger. Mae'r prosiect yn cynnwys meysydd cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol i oedolion ifanc ag ASA. Mae dwy sesiwn therapi awr o hyd yn defnyddio ystod o weithgareddau clywedol, gweledol a chinesthetig sy'n cynnwys trafodaeth, gemau, chwarae rôl, mapiau meddwl a chyflwyniadau. Cyn pob sesiwn bydd yr holl ddefnyddwyr yn llenwi holiadur byr yn rhestru eu hyder tybiedig ar bwnc sesiwn. Caiff hwn ei lenwi unwaith eto ar ddiwedd y grŵp i benderfynu a yw canlyniadau dysgu wedi'u cyflawni ac a yw hyder y defnyddwyr wedi gwella. Ar gyfartaledd gwnaeth hyder y grŵp gynyddu 33% ym mhob sesiwn.			
Nod/deilliannau	Rhoddodd y prosiect gyfle i bobl ifanc ymgysylltu â grŵp therapiwtig i helpu i wella a datblygu sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol yr holl ddefnyddwyr.		

Prosiect Gofal Seibiant			
Cynhaliwr	Ynys Môn	Ardaloedd dan sylw	Ynys Môn
Disgrifiad			
Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu uned breswyl ar gyfer gofal seibiant i blant ag anableddau yn Llangefni. Mae Uned Brynhwfa'n darparu hyd at bedwar gwely ar gyfer seibiant dros nos neu dros y penwythnos i roi seibiant a chymorth i rieni sy'n ofalwyr. Yn ogystal â darparu seibiant dros nos, rydym wedi datblygu clwb ar ôl yr ysgol i ddarparu gweithgareddau dydd ystyrlon ar gyfer plant ag anableddau, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ag ASA, a chymorth i rieni sy'n ofalwyr. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol hon wedi'i hariannu drwy gyllidebau prif ffrwd adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac arian Cymorth. Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn darparu rhaglen gweithgareddau haf a chlybiau dydd Sadwrn sy'n darparu gweithgareddau ystyrlon i blant/pobl ifanc a seibiant i rieni sy'n ofalwyr.			

Datblygu Llwybr Gofal Integredig i Blant			
Cynhaliwr	BIPBC	Ardaloedd dan sylw	Gwynedd ac Ynys Môn
Disgrifiad			
Mae Gwynedd ac Ynys Môn wedi helpu datblygu llwybr gofal ASA i blant sydd eisoes wedi gwella arfer yng ngorllewin BIPBC (GIG). Bu cynorthwy-ydd seicoleg yn gyfrifol am y llwybr gofal a sicrhau bod llwybr gofal plant ag ASA ar gyfer ardal gorllewin BIPBC yn gydnaws ag anghenion/dymuniadau darpariaeth Awdurdodau Lleol Ynys Môn. Mae eisoes wedi'i rannu gyda phenaethiaid addysg arbennig a'i drafod gyda Seicoleg Addysgol.			
Nod/deilliannau	Mae angen amlwg am lwybr gofal i oedolion yn ardal Gogledd Cymru i wella darpariaeth.		

Sefydlu Prosiect Peilot ar gyfer Gweithwyr Allweddol Pontio			
Cynhaliwr	Ynys Môn	Ardaloedd dan sylw	Ynys Môn
Disgrifiad			
Bydd y prosiect yn sefydlu ac yn cyflwyno grwpiau paratoi pontio i bobl ifanc a grwpiau rhieni a'u helpu i weithio'n greadigol. Mae 12 o bobl ifanc wedi'u dewis ar gyfer y prosiect drwy system atgyfeirio a phanel dethol. Yn ystod y broses ddethol, rydym wedi ceisio ymdrin ag ystod mor eang â phosibl o anableddau er mwyn dangos sut mae'r system gweithwyr allweddol yn fuddiol i bob unigolyn. Mae gan bob unigolyn ifanc weithiwr allweddol penodol. Mae'r gweithwyr allweddol wedi cael hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan yr hwylusydd o Leonard Cheshire Disability. Mae Leonard Cheshire Disability yn rhoi cymorth a mentora parhaus i weithwyr allanol drwy gydol y prosiect hwn.			

Grŵp cymdeithasol i oedolion â syndrom Asperger			
Cynhaliwr	Rhondda Cynon Taf	Ardaloedd dan sylw	Rhondda Cynon Taf
Disgrifiad			
Amlygodd gwaith i ddatblygu'r cynllun gweithredu lleol yr angen am grŵp cymdeithasol i oedolion â syndrom Asperger. Dechreuwyd grŵp cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) ym mis Medi 2010 ac yn raddol mae mwy o bobl yn mynd iddo. Mae'r grŵp ar gyfer oedolion o bob oedran a gallu ac mae'n cyfarfod bob pythefnos fel arfer gydag un cyfarfod anffurfiol ac un gweithgaredd bob mis. Mae'r ddau beth yn caniatáu rhwydweithio a chymdeithasu i unigolion â syndrom Asperger a'u rhieni/gofalwyr/teulu, sydd hefyd yn gallu dod. Mae cyfarfodydd anffurfiol yn gyfle i wahodd siaradwyr allanol i roi gwybodaeth a chyngor yn ymwneud â phynciau y mae'r grŵp yn eu henwi. Gwneir trefniadau hefyd ar gyfer gweithgareddau gyda'r nos, megis bowlio a mynd			

allan i gael bwyd.	
Nod/deilliannau	Rhoi mwy o gyfleoedd i'r oedolion hynny â syndrom Asperger.

Partneriaeth Cymorth Teuluol ASA			
Cynhaliwr	Gweithredu dros Blant CBS Torfaen	Ardaloedd dan sylw	Torfaen
Disgrifiad			
• Mae'r tîm yn gweithio ochr yn ochr â'r unigolyn ifanc, ei deulu a phroffesiynolion i sicrhau bod anghenion cyfannol yr unigolyn ifanc ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASA) yn cael eu hystyried. • Mae'r gwasanaeth yn cynnig: • Cyfle i drafod meddyliau, teimladau neu bryderon. • Gwybodaeth ar agweddau ar ASA neu wasanaethau priodol eraill. • Strategaethau ymarferol i gyflwyno trefn yn y cartref. • Atebion a strategaethau cyffredinol. • Strategaethau ymarferol i gefnogi'r unigolyn ifanc a'i deulu. • Strategaethau ymarferol i gefnogi rheoli ymddygiad.			
Nod/deilliannau	• Rhoi cyngor i rieni plant neu bobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig yn ddiweddar ac ystyr hwn, a'r hyn y gallant ei wneud i gefnogi eu plentyn. • Cytuno ar strategaethau ymarferol i gefnogi'r rheiny y mae anhwylder ar y sbectrwm awtistig yn effeithio arnynt • Gwella sgiliau annibyniaeth a sgiliau cymdeithasol y plentyn/unigolyn ifanc. • Cefnogi plant a phobl ifanc ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig wrth iddynt symud rhwng lleoliadau i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y plentyn neu'r unigolyn ifanc, ei deulu a phroffesiynolion perthnasol.		

Gwasanaethau integredig i blant ag anableddau			
Cynhaliwr	Sir Ddinbych	Ardaloedd dan sylw	Sir Ddinbych
Disgrifiad			
Bydd y prosiect hwn yn cydleoli staff iechyd a gwaith cymdeithasol mewn un uned i gyflwyno gwasanaethau i blant anabl a fydd yn cynnwys plant ag ASA. Bydd model gwasanaeth amlasiantaeth yn cynnwys cydweithwyr addysg ar gael yn yr uned. Bydd y sector gwirfoddol yn chwarae rôl hefyd.			

Llinell Gymorth Awtistiaeth			
Cynhaliwr	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth	Ardaloedd dan sylw	Ledled y DU
Disgrifiad			
Mae llinell gymorth awtistiaeth DU gyfan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn rhoi gwybodaeth gyfrinachol amhleidiol, cyngor a chymorth i bobl ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistiaeth, eu teuluoedd, proffesiynolion, ymchwilwyr a myfyrwyr. Gall ymgynghorwyr y llinell gymorth roi gwybodaeth gyffredinol i bobl ag ymholiadau am awtistiaeth, gwybodaeth am wasanaethau a chymorth lleol, pecynnau gwybodaeth am awtistiaeth a syndrom Asperger ac am amrywiaeth o faterion cysylltiedig, megis ymddygiad, diagnosis, ac addysg. Mae ymgynghorwyr arbenigol ar gael ym meysydd hawliau lles, hawliau addysg a gofal cymunedol. Mae tîm y Ganolfan Wybodaeth yn arbenigo mewn darparu gwasanaeth i broffesiynolion, myfyrwyr ac ymchwilwyr, gan gynnwys gwasanaeth ymholiadau dros y ffôn ac e-bost, bwletinau e-bost am ymchwil ac arfer awtistiaeth, ac Autism Data (www.autism.org.uk/autismdata) – sef offeryn ymchwil ar-lein sy'n rhestru dros 24,000 o bapurau ymchwil wedi'u cyhoeddi, llyfrau, erthyglau, fideos a deunyddiau eraill am awtistiaeth a materion cysylltiedig. Mae'r llinell gymorth awtistiaeth yn cynnig gwasanaeth dehongli dros y ffôn i alwyr o'r DU nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu y byddai'n well ganddynt ddefnyddio Cymraeg.			

Gwasanaeth cymorth teuluol Sir Fynwy a Chasnewydd			
Cynhaliwr	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth	Ardaloedd dan sylw	Sir Fynwy Casnewydd
Disgrifiad			
Caiff Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru ei hariannu gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Fynwy a Chasnewydd i ddarparu gwasanaeth cymorth teuluol penodol ar gyfer awtistiaeth. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod ar waith yn llwyddiannus am 13 mlynedd ac mae ganddo tua 400 o deuluoedd cofrestredig. Y gweithiwr cymorth teuluol yw'r pwynt cyswllt cyntaf i unigolion a theuluoedd ar ôl diagnosis, yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel, gyfredol a dibynadwy am awtistiaeth, a phynciau penodol fel cyfathrebu, ymddygiad, deiet, cysgu a manylion am wasanaethau lleol eraill. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda theuluoedd drwy ymweliadau yn y cartref, grwpiau cymorth i rieni, deunyddiau wedi'u hargraffu, cyswllt dros y ffôn a chyfryngau eraill. Mae hefyd yn rhoi cymorth i broffesiynolion sydd angen gwybodaeth benodol am awtistiaeth.			

Mae gan y gwasanaeth system atgyfeirio agored ac ymatebol, yn seiliedig ar anghenion unigol ac mae'n mabwysiadu ymagwedd 'o'r crud i'r bedd' sydd, dros amser, wedi'i droi'n wasanaeth lleol y mae defnyddwyr yn ymddiried ynddo ac yn dibynnu arno. Dyma enghraifft o arfer da y dylid ei ddyblygu ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, dylai fod yn wasanaeth comisiynedig sy'n rhan o lwybr wedi'i gynllunio, yn hytrach na gwasanaeth sydd wedi'i arwain gan fuddiannau ac sy'n dibynnu ar ymrwymiad unigolion.

Gwasanaeth allgymorth i rieni, gofalwyr a phobl ag awtistiaeth a phroblemau sy'n gysylltiedig ag ASA			
Cynhaliwr	C-SAW	Ardaloedd dan sylw	Gogledd Cymru
Disgrifiad			
Mae'r gwasanaeth yn cynnig: • Ymweliadau allgymorth i deuluoedd yn eu cartrefi neu leoliad o'u dewis ar adeg sy'n gyfleus iddynt (gan gynnwys gyda'r nos). Nid oes cyfyngiadau amser ar ymweliadau. • Pwynt cyswllt unigol, yn rhoi cymorth, gwybodaeth a chyngor gan gynnwys cymorth eiriolaeth, gan ymgysylltu â thimau awdurdod lleol er mwyn cefnogi anghenion teuluoedd. • Gwasanaeth cymorth a chyngor dros y ffôn. • Tawelwch meddwl i rieni/gofalwyr, gan wybod bod y swyddog allgymorth C-SAW wrth law i roi cymorth pa ffordd bynnag sy'n bosibl, nawr ac yn y dyfodol.			
Nod/deilliannau	• Rhoi cyngor a gwybodaeth i rymuso rhieni/gofalwyr o ran cymhwyster a hawl i gael gwasanaethau a chymorth. • Hysbysu rhieni/gofalwyr ynghylch y gwasanaethau mae C-SAW yn eu darparu, gan gynnwys grwpiau cymdeithasol i blant ac oedolion ag ASA, clwb gwyliau, sesiynau trampolîn, boreau coffi, cwnsela, cynllun cyfeillachu rhieni, grwpiau i frodyr a chwiorydd, ac anerchiadau gwybodaeth i rieni ar bynciau perthnasol sy'n ymwneud ag awtistiaeth. At hynny, y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau, digwyddiadau a gweithdai sy'n cael eu trefnu gan grwpiau yn y sector gwirfoddol eraill a allai fod yn fuddiol. • Coladu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ar draws pob gwlad er mwyn cyfeirio rhieni/gofalwyr at y gwasanaethau priodol hyn. • Codi ymwybyddiaeth am wasanaethau cymdeithasol, timau addysg ac iechyd, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd a sefydliadau gwirfoddol eraill ac am C-SAW. Cefnogi rhieni/gofalwyr a allai fod wedi cael diagnosis yn ddiweddar a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth pellach.		

Prosiect EarlyBird ac EarlyBird Plus			
Cynhaliwr	Castell-nedd a Phort Talbot	Ardaloedd dan sylw	Castell-nedd a Phort Talbot
Disgrifiad			
Yn 2009 cafodd dau aelod o staff eu hyfforddi o dan y prosiect *early bird* ac aethant yn eu blaen i gynnal ein cwrs EarlyBird cyntaf. Bu hyn yn llwyddiannus gyda rhieni'n rhoi adborth cadarnhaol. Defnyddiwyd arian grant ASA i hyfforddi nifer o bobl eraill o asiantaethau amrywiol ym maes iechyd, addysg a'r sector gwirfoddol o ran cyflwyno EarlyBird. Yn dilyn yr hyfforddiant llwyddiannus hwn a chyda pheth arian o'r grant ASA, mae tîm EarlyBird Castell-nedd Port Talbot yn gallu cynnig rhaglen EarlyBird ar gyfer 2010/11. Rydym yn gallu cynnig dau gwrs EarlyBird ac un cwrs EarlyBird Plus. Ar gyfer EarlyBird, caiff rhestr o deuluoedd posibl ei chadw yng Nghanolfan y Plant. Darparwyd yr enwau gan y pediatregydd yn dilyn y broses ddiagnostig. Gofynnir i rieni ddod i gyfarfod lle y caiff y cwrs ei esbonio ac y cânt eu gwahodd i wneud cais am le. Mae cael eich derbyn ar y cwrs ar sail y cyntaf i'r felin. Defnyddiwyd arian grant ASA ar gyfer 2010-2011 i recriwtio gweithiwr cymorth ASA i deuluoedd a chynorthwy-ydd lleferydd ac iaith i roi cymorth yn y tymor hirach i deuluoedd yn dilyn hyfforddiant early bird a diagnosis.			
Nod/deilliannau	Rhoi cymorth, cyngor a gwybodaeth i deuluoedd pobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o ASA.		

Pont at lwyddiant ASA			
Cynhaliwr	Byrddau Iechyd PABH a Chwm Taf a staff Ysgol Heronsbridge, Pen-y-bont ar Ogwr	Ardaloedd dan sylw	Pen-y-bont ar Ogwr
Disgrifiad			
Dyfeisiwyd y cwrs ASA Pont at Lwyddiant gan bedwar aelod o dîm EarlyBird Plus Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar raglen Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth EarlyBird Plus, sy'n agored i deuluoedd plant o dan 9 oed sydd wedi cael diagnosis o ASA. Mae'r Bont yn rhaglen undydd a chafodd ei dyfeisio'n benodol i ddiwallu anghenion y grwpiau canlynol: • Rhieni plant dros 9 oed ag ASA • Rhieni na allant ymrwymo i'r rhaglen EarlyBird lawn • Teuluoedd estynedig a rhwydweithiau • Professiynolion sy'n dod i gysylltiad â phlant ag ASA yn yr ysgol, seibiant, therapi, darpariaeth chwarae a gofal meddygol.			

Gwerthuswyd y rhaglen Bont dros gyfnod o ddeuddydd, gydag un diwrnod i broffesiynolion ac un diwrnod i rieni a gofalwyr; o'r 40 o bobl a oedd yn bresennol, gwnaeth 37 ohonynt gwblhau gwerthusiad o'r rhaglen. Mae'r adborth cadarnhaol ac adeiladol sylweddol wedi helpu i lywio datblygu rhaglen bellach o hyfforddiant EarlyBird.

Diwrnod i frodyr a chwiorydd			
Cynhaliwr	Pen-y-bont ar Ogwr	Ardaloedd dan sylw	Pen-y-bont ar Ogwr
Disgrifiad			
Roedd proffesiynolion amlasiantaeth a oedd yn cyflwyno EarlyBird ac EarlyBird Plus wedi amlygu mai'r sesiwn ar anghenion brodyr a chwiorydd nad oes ganddynt awtistiaeth oedd y rhan fwyaf emosiynol i rieni ar y rhaglen. O ganlyniad, sefydlwyd diwrnod i frodyr a chwiorydd a fyddai'n hwyliog, yn gyfle i rannu profiadau a dysgu am ASA. Oherwydd llwyddiant y diwrnod, mae dau ddiwrnod arall a gwaith grŵp parhaus yn cael eu cynllunio.			
Nod/deilliannau	Rhoi cymorth a gwybodaeth i frodyr a chwiorydd plant ag ASA.		

Rhwydwaith Cyfathrebu – Cyngor Ysgol ar gyfer Disgyblion ag ASA			
Cynhaliwr	Pen-y-bont ar Ogwr	Ardaloedd dan sylw	Pen-y-bont ar Ogwr
Disgrifiad			
Sefydlwyd cyngor ysgol i alluogi plant ag ASA sy'n mynd i ysgolion prif ffrwd i gael llais. Rhoddwyd hyfforddiant gan 'Investors In Children' o Durham, a gynhaliodd gyfres o ddiwrnodau agenda ac a hyfforddodd bobl ifanc fel hwyluswyr a mentoriaid. Roedd adroddiad hefyd ar eu canfyddiadau o'r diwrnodau hynny. Y prif fater a amlygwyd oedd bwlio, felly mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ac mae cysylltiadau wedi'u creu gyda'r grŵp gwrthfwlio. Mae'r grŵp yn cyfarfod yng nghyfleuster y Gwasanaethau Ieuenctid.			
Nod/deilliannau	Cymorth ac ymwybyddiaeth gynyddol o anghenion brodyr a chwiorydd plant ag ASA.		

Prosiect peilot gweithwyr cymorth i deuluoedd			
Cynhaliwr	Castell-nedd a Phort Talbot	Ardaloedd dan sylw	Castell-nedd a Phort Talbot
Disgrifiad			
Sefydlwyd y prosiect peilot hwn, sy'n flwyddyn o hyd, yng nghanolfan plant Castell-nedd a Phort Talbot yn defnyddio peth o arian grant ASA LICC. Mae'r gweithiwr cymorth i deuluoedd yn darparu gwybodaeth a chymorth ar ôl diagnosis i deuluoedd â phlentyn rhwng 0 a 5 oed sydd ag anhwylder ar y			

sbectrwm awtistig. Mae gan y gweithiwr cymorth i deuluoedd rôl hefyd o ran cyfeirio at wasanaethau a'u cydlynu, a rhoi cyngor os bydd pryderon ynghylch ymddygiad. Ers i'r gweithiwr cymorth i deuluoedd ddechrau'r gwasanaeth ym mis Medi 2010, mae'r tîm diagnostig wedi derbyn 19 o atgyfeiriadau newydd; mae 19 o deuluoedd yn manteisio ar y gwasanaeth, ac mae 13 o gynlluniau gweithredu ymhlith y rhain sy'n gwbl weithredol. Mae 10 teulu wedi cymryd rhan mewn monitro canlyniadau ac mae 9 teulu'n gweithio'n barhau gyda'r gweithiwr cymorth i deuluoedd ar hyn o bryd. Cafodd pob un o'r 19 o deuluoedd sydd wedi cymryd rhan hyd yma gyngor a chyfeirio ac, o blith y rhain, cafodd 9 teulu eu hatgyfeirio at hawliau lles a/neu'r Gronfa i Deuluoedd. Sefydlwyd grŵp cymorth prynhawn coffi i hwyluso cymorth parhaus. O'r 10 teulu sydd wedi helpu i fonitro canlyniadau hyd yma, mae 100% yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well ac mae 100% yn teimlo eu bod yn gwybod mwy nag yr oeddent yn ei wybod o'r blaen.

Nod/deilliannau	Rhoi gwybodaeth a chymorth ar ôl diagnosis i deuluoedd â phlentyn rhwng 0 a 5 oed sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Datblygu system atgyfeirio ar gyfer y blynyddoedd cynnar			
Cynhaliwr	Sir Benfro	Ardaloedd dan sylw	Sir Benfro
Disgrifiad			
Rhoi system atgyfeirio newydd ar waith ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn lleihau amseroedd aros i wasanaethau cymorth ddod yn gysylltiedig â phlant y tybir bod ganddynt ASA. Gallai'r panel Cymorth Cynnar gynnwys: Pediatregydd Seicolegydd plant Ffisiotherapydd pediatrig Therapydd lleferydd ac iaith Ymwelydd iechyd Athro cyn ysgol Bydd y panel yn cyfarfod bob mis (cyn y cyfarfod CDT) i drafod atgyfeiriadau, cytuno ar ymyriadau fesul achos ac atgyfeirio at wasanaethau priodol. Mae system atgyfeirio'r blynyddoedd cynnar wedi'i chysylltu â strategaeth ymyrraeth gynnar. Mae staff proffesiynol wedi cael hyfforddiant er mwyn gallu rhoi cymorth a helpu o ran ymyriadau gyda rhieni yn eu cartrefi eu hunain. Mae grŵp llywio ymyriadau cynnar a sefydlwyd i fonitro cynnydd y strategaeth ymyrraeth gynnar. Mae'n ymddangos ei fod yn gweithio'n effeithiol.			

Nod/deilliannau	Rhoi system atgyfeirio newydd ar waith ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn lleihau amseroedd aros i wasanaethau cymorth ddod yn gysylltiedig â phlant y tybir bod ganddynt ASA.

Tîm Conwy i blant ag anhwylderau cymdeithasol a chyfathrebu			
Cynhaliwr	Conwy	Ardaloedd dan sylw	Conwy
Disgrifiad			

Mae tîm Conwy i blant ag anhwylderau cymdeithasol a chyfathrebu'n dîm amlasiantaeth sy'n darparu gwasanaeth asesu diagnostig cynhwysfawr i blant y tybir bod ganddynt anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth. Mae'r tîm yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd pediatreg, seiciatreg, therapi lleferydd ac iaith, seicoleg glinigol a seicoleg addysgol. Darperir y gwasanaeth i'r holl blant rhwng 0 a 5 oed a phlant sydd ag anabledd dysgu rhwng 0 – 18 oed. Nod y tîm, sy'n cynnwys ond nifer gyfyng o staff, yw rhoi asesiad sydd yn unol â safonau cenedlaethol ac sy'n pwysleisio adborth amserol, sensitif a chynhwysfawr i deuluoedd ar bob cam o'r asesiad.

Mae cryn waith wedi'i wneud i ddatblygu proses asesu'r tîm hwn. Mae hyn yn cynnwys:

- Canfod faint o amser sydd ar gael i bob aelod o'r tîm i'w hasesu'n ddiagnostig ac o hyn sicrhau bod tasgau asesu'n cael eu cyflawni mewn ffordd amserol a chydlynol.
- Mae'r tîm amlasiantaeth yn cyfarfod bob mis i brosesu atgyfeiriadau a chytuno ar ddiagnosis.
- Esbonio meini prawf atgyfeirio i leihau'r amser sy'n cael ei dreulio ar reoli atgyfeiriadau amhriodol.
- Safoni gwaith papur ar draws yr holl atgyfeiriadau i uchafu effeithlonrwydd wrth adolygu achosion.
- Datblygu ffurflen atgyfeirio meddygol i sicrhau bod yr holl faterion meddygol perthnasol wedi'u hamlygu cyn atgyfeirio.
- Cyflwyno cynllun 'gweithiwr allweddol' fel bod pob plentyn sy'n cael ei asesu gan y tîm yn cael rhywun penodol yn y tîm, sydd â'r rôl o fod yn bwynt cyswllt i'r teulu os bydd angen unrhyw wybodaeth neu gymorth ychwanegol arnynt yn ystod y broses asesu.

Mae'r nodau presennol yn cynnwys:

- Llunio dogfen asesu llwybrau.
- Diwygio safonau presennol y timau i ymgorffori argymhellion cenedlaethol.
- Ystyried canfyddiadau archwiliad asesu ASA Siroedd Conwy a Dinbych ac ymgorffori unrhyw argymhellion fel y bo'n briodol.
- Wedi i'r safonau gael eu diwygio, paratoi a chynnal archwiliad o berfformiad presennol y tîm yn erbyn y safonau hyn wedi'u diwygio.

Prosiect peilot egwyliau byr			
Cynhaliwr	Sir Gaerfyrddin	Ardaloedd dan sylw	Sir Gaerfyrddin
Disgrifiad			

Defnyddiodd grŵp rhanddeiliaid ASA Sir Gaerfyrddin beth arian grant LICC i ddechrau cymryd camau i gynyddu ystod y ddarpariaeth ar gyfer egwyliau byr. Roedd y cynllun peilot ar gyfer egwyliau byr yn canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed ac mae'n cynnwys dau fath gwahanol o egwyliau byr. Mae gan un leoliad sefydlog sy'n cyfuno rhaglen o weithgareddau i'r bobl ifanc fel grŵp yn y lleoliad gyda gweithgareddau yn y gymuned. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio gan bobl ifanc ag awtistiaeth y mae eu hanghenion a'u hanawsterau'n eithaf cymhleth. Rhan arall y prosiect egwyliau byr yw cyfres o grwpiau bach o bobl ifanc yn cwblhau ystod o weithgareddau megis pysgota a byw yn y gwyllt.	
Nod/deilliannau	Y canlyniadau rydym yn chwilio amdanynt ar gyfer y ddau fath o egwyliau byr yw: gwella hunanhyder/hunanbarch; y gallu i fod yn rhan o grŵp, ymestyn ystod profiadau unigolyn ifanc; annibyniaeth; datblygu llwybr at wasanaethau a gweithgareddau eraill yn y gymuned neu wasanaethau i oedolion. Mae'r ffurf sydd ar y canlyniadau hyn yn dibynnu ar yr unigolyn ifanc.

Rhwydwaith cymorth ar-lein i rieni			
Cynhaliwr	Sir Gaerfyrddin	Ardaloedd dan sylw	Sir Gaerfyrddin gyda'r bwriad o ymestyn i ardaloedd eraill yng nghanolbarth a gorllewin Cymru
Disgrifiad			
Sicrhawyd arian rhanbarthol ASA i ddatblygu system cymorth ar y we i rieni a gofalwyr dan arweiniad rhieni a gofalwyr. Mae cynrychiolwyr sy'n rhieni wedi datblygu Cymorth a Gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr (HAIPAC). Mae'r wefan hon sy'n hawdd ei defnyddio yn darparu gwybodaeth, rhwydweithio â rhieni a gofalwyr eraill ac mae'n cysylltu ag amrywiaeth o ffynonellau cyngor a chymorth.			
Nod/deilliannau	Mae rhagor o gyfleoedd am gefnogaeth gan gymheiriaid, rhannu cyngor a gwybodaeth ar gael o www.haipac.org.uk		

Datblygu panel cynllunio pontio amlddisgyblaeth			
Cynhaliwr	Castell-nedd a Phort Talbot	Ardaloedd dan sylw	Castell-nedd a Phort Talbot
Disgrifiad			
Cynhaliodd y grŵp rhanddeiliaid ASA ymarfer mapio o bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed, a ganfu nifer fawr o bobl ifanc ag ASA. Cafodd y wybodaeth ei choladu i ddangos y galw presennol a'r galw arfaethedig a chostau cysylltiedig. Bydd y panel cynllunio pontio'n gysylltiedig â datblygu'r cynllun a'r cyfrifoldebau o ran rhoi cynllun y llwybr ar waith a sicrhau taith ddi-dor			

tuag at droi'n oedolyn. Ar lefel strategol a lefel gynllunio, amlygwyd yr angen am gydlynydd pontio amlddisgyblaeth a chyflwynwyd ymgais llwyddianus i LICC. Bydd gan ddeiliad y swydd gysylltiadau cryf â'r grŵp rhanddeiliaid ASA ac yn creu cysylltiadau ar draws pob un o'r gwasanaethau.	
Nod/deilliannau	Cefnogi pontio o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion.

Cymorth i deuluoedd – Offer synhwyraidd yn Ysbyty Alltwen			
Cynhaliwr	Gwynedd	Ardaloedd dan sylw	Gwynedd
Disgrifiad			
Darparodd arian grant Gwynedd offer ar gyfer ystafell synhwyraidd newydd ar gyfer y tîm cymunedol amlasiantaeth lleol yn Ysbyty Alltwen, Porthmadog.			

Cymorth cyflogaeth ar gyfer pobl ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig			
Cynhaliwr	ASDES	Ardaloedd dan sylw	
Disgrifiad			
Nod ASDES yw rhoi asesiadau arbenigol, hyfforddiant a gwasanaethau lleoli mewn un lle i ddiwallu anghenion cleientiaid ag awtistiaeth sy'n gallu gwneud rhywfaint o waith a thâl. Mae ASDES yn dîm o broffesiynolion sy'n cynnwys seicolegydd, cynghorydd, aseswr, hyfforddwr ac ymgynghorydd cyflogaeth sydd â blynyddoedd lawer o brofiad o ran helpu pobl ag anableddau i gael gwaith. Eu blaenoriaeth yw rhoi cleientiaid wrth wraidd eu holl ymdrechion a'r brif rôl gyntaf fydd asesu eu hangenion a'u dyheadau'n drwyadl mewn perthynas â chyflogaeth.			
Nod/deilliannau	Rhoi gwaith â thâl i bobl ag awtistiaeth a'u hannog i gadw i weithio cyn belled ag y maent yn dymuno hynny.		

Rhaglen EarlyBird			
Cynhaliwr	Sir y Fflint a Wrecsam	Ardaloedd dan sylw	Sir y Fflint a Wrecsam
Disgrifiad			
Rhaglen EarlyBird: 0 - 5 oed a Rhaglen EarlyBird Plus: 4 - 8 oed. Darperir y rhaglenni hyn gan ddwy nyrs sydd wedi'u hyfforddi ym maes anableddau dysgu ar draws Sir y Fflint a Wrecsam ac maent yn fuddiol i blant bach ag ASA cymhleth, a'u teuluoedd.			
Nod/deilliannau	Cynorthwyo teuluoedd i ofalu am blant bach ag ASA, drwy ddarparu strategaethau effeithiol, cymorth a chyngor.		

Pennod 9

Hamdden

Sesiynau Trampolinio			
Cynhaliwr	C-SAW	Ardaloedd dan sylw	Gogledd Cymru
Disgrifiad			
Caiff y sesiynau hyn eu cynnal bob dydd Sadwrn drwy gydol y flwyddyn i blant rhwng 8 a 16 oed ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Mae meddu ar gydlynydd trampolîn cymwysedig i hyfforddi a chefnogi yn ystod pob sesiwn yn rhoi'r cyfle i'r plant iau fwynhau gweithgaredd diogel a hwyliog.			

Dangos ffilmiau am ddim i blant ag anableddau			
Cynhaliwr	Cyswllt Teulu	Ardaloedd dan sylw	Dangos ffilmiau ar hyd a lled Cymru
Disgrifiad			
Mae arian gan Plant mewn Angen yn galluogi Cyswllt Teulu i ddangos ffilmiau i blant ag anableddau, a'u teuluoedd. Trefnodd Cyswllt Teulu i ddangos ei ffilmiau am y tro cyntaf yng Nghanolfan Menter Greadigol a Theatr Galeri yng Nghaerdydd yn 2004. Mae Cyswllt Teulu yn dangos ffilmiau ar hyd a lled Cymru erbyn hyn. Mae nodweddion anabledd-gyfeillgar y perfformiad yn cynnwys goleuo uwch a llai o bobl na fyddai mewn sinemâu confensiynol Fodd bynnag, i lawer o deuluoedd, y fantais fwyaf yw bod eu plentyn yn gallu bod yn driw i'w hun. Dim ond Cyswllt Teulu fydd yn defnyddio'r sinema at ddiben dangos y ffilm, felly gall deuluoedd fod yn sicr y bydd pobl eraill sy'n gwylio'r ffilm yn deall os bydd eu plentyn yn gwneud sŵn neu os bydd angen iddo godi a cherdded o gwmpas, er enghraifft. Mae brodyr a chwiorydd hefyd yn gweld bod dangos y ffilmiau o fudd i'r teulu cyfan wylio ffilmiau heb straen ac maent yn gyfle da i gwrdd â brodyr a chwiorydd eraill plant ag anableddau. Caiff gweithdai eu cynnal ar yr un pryd â'r ffilmiau ac mae croeso i deuluoedd adael y ffilm ac ymuno â'r gweithdai, os byddant am wneud hynny. Mae cerddoriaeth, crefftau a sgiliau syrcas wedi'u cynnig mewn gweithdai yn y gorffennol. Ni chodir tâl am wylio'r ffilmiau. Mae'r ffilmiau yn addas i'r teulu cyfan.			

Clwb Gwyliau Ysgol			
Cynhaliwr	C-SAW	Ardaloedd dan sylw	Gogledd Cymru
Disgrifiad			
Mae C-SAW yn cynnal gofal plant o ansawdd uchel yn ystod gwyliau'r ysgol			

sy'n agored i blant rhwng 8 a 16 oed sydd wedi cael diagnosis o ASA ac sy'n byw yng ngogledd Cymru. Mae'r plant sy'n dod yn mwynhau ystod eang o weithgareddau strwythuredig, hwyliog drwy gydol y dydd.

Caffi gwe			
Cynhaliwr	Conwy	Ardaloedd dan sylw	Ardaloedd Conwy
Disgrifiad			
Mae'r caffi gwe at ddefnydd plant hŷn a phobl ifanc sy'n ymddangos ar y sbectrwm ASA. Bydd yn targedu'r rhai hynny rhwng 11 a 18 oed i ddechrau a bydd yn caniatáu i'r rhai hynny sydd heb ddarpariaeth ac sydd wedi'u heithrio gan natur eu ASA i ymgysylltu a chyfranogi. Bydd yn fan bwrpasol a bydd yn caniatáu gweithgareddau perthnasol eraill a phwynt trafod a chefnogaeth i rieni, gofalwyr a phroffesiynolion. Mae'r cynllun wedi'i greu oherwydd angen lleol yng Nghonwy. Cafodd hyn ei atgyfnerthu gan ganlyniadau holiadur lleol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ag ASA yng Nghonwy. Y teimlad amlwg oedd bod diffyg sylweddol o ran darpariaeth i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed. Dywedodd pobl ifanc yn yr holiadur ac mewn adborth un wrth un y byddent yn dymuno cael y cyfle i ddefnyddio cyfrifiadur, chwarae gemau, pori'r we a gwylio DVDs. Câi'r rhaglen ei monitro gan holiaduron rheolaidd ac yn bwysicach, sgyrsiau un wrth un gyda'r bobl ifanc a'u teuluoedd. Caiff y cynllun ei ddatblygu gan ganolbwyntio ar anghenion a dymuniadau pobl ifanc. Gall pobl ifanc ddod â'u gliniaduron eu hunain. Fodd bynnag, ni chaiff y teuluoedd hynny na allant eu fforddio eu heithrio gan fod pum peiriant wedi'u darparu'n arbennig ar gyfer y cynllun. Bydd technoleg ddiwifr ar gael yn y lleoliad. Cynllun tair blynedd fydd hwn i ddechrau.			
Nod/deilliannau	• Bydd y cynllun yn cynyddu hyder a sgiliau cymdeithasol plant a phobl ifanc ag ASA sy'n dod drwy ganiatáu rhwydweithio ag eraill • Bydd y cynllun yn caniatáu gweithgareddau teuluol ystyrlon i'r rhai hynny sydd â phlentyn ag ASA • Bydd hyn yn fframwaith ar gyfer grŵp cymorth rhieni • Bydd hyn yn caniatáu'r posibilrwydd o ddarparu lleoliad a chartref i'r grŵp Asperger lleol		

TAPE – "Sounds Like Fun"			
Cynhaliwr	Conwy	Ardaloedd dan sylw	Ardaloedd Conwy
Disgrifiad			
Mae "Sounds Like Fun" yn brosiect cerddoriaeth a ffilm hirsefydlog i blant a phobl ifanc ag anableddau. Ei nod yw darparu amgylchedd diogel i'r bobl ifanc hyn er mwyn iddynt allu archwilio eu creadigrwydd. Mae'n eu galluogi i ddarganfod yr hyn y gallant ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud.			

Caiff y cynllun newydd hwn sef, “Sounds Like Fun”, ei gynnal am un awr yr wythnos. Bydd yn galluogi plant ag ASA, a fyddai’n ei chael hi’n anodd ymdopi ag amgylchedd swnllyd, i elwa o fod yn rhan o’r profiad “Sounds Like Fun”. Mae plant a phobl ifanc sydd wedi dod i’r sesiynau hyn wedi dangos eu bod wedi elwa ohono.	
Nod/deilliannau	Themâu awtistiaeth perthnasol – blaenoriaethau lleol wedi’u nodi yn yr ymgynghoriad • Sgiliau bywyd • Gweithgareddau cymdeithasol Y prif nodau • Rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgaredd creadigol. • Gwella eu delwedd eu hunain a’u hunanhyder. Bydd hyn yn effeithio ar rannau eraill o’u bywydau. • Eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgarwch cydweithredol gyda phobl eraill. • Rhoi cyfle iddynt wneud cerddoriaeth a chael hwyl. • Rhoi cyfle i rieni/gofalwyr ymlacio am awr.

Cynllun gweithgareddau gwyliau haf i blant a phobl ifanc ag ASA			
Cynhaliwr	Abertawe	Ardaloedd dan sylw	Abertawe
Disgrifiad			
O ganlyniad i adborth a dderbyniwyd yn ystod grwpiau i rieni a gofalwyr, a chan ddefnyddio ychydig o arian grant ASA gan LICC, trefnwyd ystod o weithgareddau teuluol ddiwrnod yr wythnos yn ystod gwyliau ysgol yr haf. Roedd y rhain yn cynnwys ymweld â fferm gymunedol, dringo creigiau, saethyddiaeth, celf a chrefftau a Bikeability. Roedd y niferoedd yn amrywio o wythnos i wythnos ond, ar gyfartaledd, gwnaeth 13 o deuluoedd, gan gynnwys 22 o blant gymryd rhan bob wythnos. Roedd y diwrnodau gweithgareddau hyn yn llwyddiannus iawn a soniwyd yn yr adborth a gafwyd fod teuluoedd yn gallu ymlacio a bod ‘yn driw i’w hunain’. Gwnaeth y syniadau ar gyfer y grwpiau hyn dyfu a thyfu ac, o ganlyniad i gydweithio â Dinas a Sir Abertawe, cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y gwasanaeth ieuenctid, chwaraeon anableddau a Mentro Allan (menter i helpu gofalwyr), sefydlwyd grŵp pori’r we i deuluoedd. Mae hyn yn parhau bob wythnos ac mae wedi’i arwain gan rieni erbyn hyn. Mae gwerthusiad o’r cynllun wedi dangos bod ychydig o’r arian hwn wedi cael cryn effaith ar fywydau plant a theuluoedd, gyda 100% y cyfranogwyr yn rhoi sgôr 10 allan o 10 pan ofynnwyd iddynt pa mor werthfawr fu’r diwrnodau gweithgareddau i’r teulu.			
nod/deilliannau	Galluogi teuluoedd plan ag ASA i roi cynnig ar weithgareddau hamdden gwahanol mewn amgylchedd cefnogol.		

Smiles			
Cynhaliwr	Conwy	Ardaloedd dan sylw	Siroedd Conwy a Dinbych
Disgrifiad			
Mae Smiles yn grŵp gweithgareddau i blant ag ASA a'u teuluoedd sydd wedi'i leoli yn un o ganolfannau hamdden Conwy ar hyn o bryd. Mae'n caniatáu i deuluoedd gael hwyl ac angofio am eu hanabledd a'u problemau. Drwy ein cynllun mae'r plant/pobl ifanc sy'n mynd yno yn gwneud ffrindiau ac yn cyfathrebu â chyfoedion ac aelodau o'r teulu. Mae'r cynllun yn helpu i ddileu rhwystrau gyda brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu, myfyrwyr a rhieni yn ôl yr angen.			
Nod/deilliannau	Bydd Smiles yn dilyn yr un strwythur ymhob sesiwn ond bydd yn cyflwyno gweithgareddau i sicrhau bod agweddau yn cael eu bodloni i helpu i wella sgiliau bywyd a chyfathrebu. Mae'n caniatáu i deuluoedd gael hwyl ac anghofio am eu hanabledd a'u problemau. Mae'r cynllun yn helpu i ddileu rhwystrau gyda brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu.		

Pennod 10

Materion amrywiol

Rhaglen defnydd cymdeithasol o iaith			
Cynhaliwr	Ceredigion	Ardaloedd dan sylw	Ceredigion gyda defnydd cenedlaethol posibl
Disgrifiad o'r prosiect			
Cyfieithu deunyddiau'r Rhaglen Defnydd Cymdeithasol o Iaith (SULP) Gellir defnyddio'r rhaglen defnydd cymdeithasol o iaith yn yr ysgol trwyddi draw i helpu plant a phobl ifanc i ddeall a datblygu cyfathrebu cymdeithasol. Dangosodd adborth gan athrawon sy'n cymryd rhan ym Mhrosiect Ysgolion Cynhwysol Autism Cymru angen am ddeunyddiau SULP Cymraeg, ac arweiniodd hyn at gais am arian ASA rhanbarthol. Yn dilyn trafodaethau gyda Wendy Rinaldi, awdur a pherchennog SULP, mae copïau o ddeunyddiau lefel ysgol gynradd wedi'u harchebu, yn ogystal â'r llyfrynnau asesu sy'n galluogi therapyddion lleferydd ac iaith i fesur cynnydd. Ionawr 2011. Mae set 1 a 2 i blant iau wedi'u cyfieithu erbyn hyn ac yn cael eu prawfddarllen gan therapydd lleferydd ac iaith. Mae'r broses o ystyried y ffordd orau o rannu'r deunyddiau ledled y rhanbarth yn mynd rhagddi ar hyn o bryd.			
Nod/deilliannau	Cynyddu faint o adnoddau Cymraeg sydd ar gael i ddisgyblion ag ASA.		

Prosiect cynlluniau cardiau argyfwng			
Cynhaliwr	Autism Cymru	Ardaloedd dan sylw	Rhanbarth de-ddwyrain Cymru
Disgrifiad			
Nod y prosiect hwn a ariannwyd yn rhanbarthol fydd datblygu cynllun cardiau argyfwng Autism Cymru ymhellach ledled rhanbarth de-ddwyrain Cymru, drwy godi ymwybyddiaeth am ASA ymhlith personél gwasanaethau'r heddlu, ambiwlans a thân. Mae nifer o gyfarfodydd ymgynghori wedi'u cynnal gyda'r gwasanaethau brys ac, ar ôl ystyried eu hadborth, mae'r rhaglen a awgrymwyd yn wreiddiol wedi'i hailddatblygu i ystyried swyddi gwahanol, oriau gwaith a nodau ac amcanion pob un o'r gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau y caiff hyfforddiant ei deilwra i bob un o'r gwasanaethau a bydd y cyflwyniad yn adlewyrchu swyddi proffesiynolion gwasanaethau'r heddlu, ambiwlans a thân o ddydd i ddydd. Mae nifer o gyfarfodydd gyda rheolwyr gwasanaethau'r heddlu, tân ac ambiwlans wedi'u cynnal. Mae gwybodaeth am rolau swyddi o ddydd i ddydd ac adborth arall wedi'u hymgorffori yn y cyflwyniadau.			

Caiff y rhaglen hyfforddiant ei chymeradwyo maes o law a bydd yn barod i'w rhoi ar waith yn yr wythnosau sydd i ddod.

Gweithdai newidiadau cadarnhaol			
Cynhaliwr	Sir Fynwy	Ardaloedd dan sylw	Rhanbarth de-ddwyrain Cymru

Disgrifiad

Mae cyfres o bedwar gweithdy i rieni, aelodau teulu a gofalwyr unigolion ag ASA wedi'u rhoi ar waith ym mhob awdurdod lleol ledled de Cymru. Roedd y gweithdai'n rhoi cyngor ymarferol ar reoli anawsterau cyffredin megis gofid, bwyta, cysgu a phroblemau dal dŵr.

Cafodd y gweithdai eu cynnal ar amseroedd a oedd yn galluogi plant i fod yn bresennol a gwnaethant bara am ddwy awr. Cafodd y gweithdai eu hwyluso gan broffesiynolion ag arbenigedd yn nhestun y pwnc. Roedd pob gweithdy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am y pwnc dan sylw, ond roedd hefyd yn caniatáu i'r rhai hynny a fu'n bresennol 'ddweud eu dweud' o ran problemau unigol gyda'r hwylusydd.

Rhoddwyd ffurflenni gwerthuso i'r rhai a fu'n bresennol ar ddiwedd pob gweithdy. Roedd yr adborth a ddaeth o'r rhain yn hynod gadarnhaol, gyda phawb a fu'n bresennol yn dweud bod y gweithdai'n ddefnyddiol.

Prosiect Triple A' (increased **A**ccess to leisure **A**ctivities for individuals with **A**SD)			
Cynhaliwr	Teresa James Cydlynydd ASA Cyngor Sir Fynwy	Ardaloedd dan sylw	Rhanbarth de-ddwyrain Cymru

Disgrifiad

Nod y prosiect hwn fydd sicrhau bod gweithgareddau hamdden ar gael yn haws i unigolion ag ASA drwy godi ymwybyddiaeth a dwysau dealltwriaeth am y cyflwr ymhlith staff. I ddechrau bydd y prosiect yn cynnwys diwrnod cynhadledd ranbarthol i unigolion â chryn ddylanwad ar wasanaethau hamdden megis ymgynghorwyr ym maes chwaraeon anabl a'r nod fydd pwysleisio'r anawsterau y mae pobl ag ASA yn eu cael o ran manteisio ar ddarpariaeth hamdden a'r angen i sefydliadau fynd i'r afael â'r rhain. Bydd darpariaeth leol ar gyfer codi ymwybyddiaeth i bob aelod o staff yn dilyn hyn. Caiff taflenni gwybodaeth a chyngor ar y materion hyn eu dosbarthu hefyd.

Cynnydd ers mis Ionawr 2011
Cynhaliwyd cynhadledd hamdden ar 8 Medi 2010 lle y darparwyd taflenni gwybodaeth a chyngor ar gyfer rheolwyr hamdden. Amlygodd holiaduron gwerthuso rai canlyniadau cadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rheolwyr hamdden yn ymuno â grwpiau rhanddeiliaid ASA.
- Aelodau arweiniol ASA yn manteisio ar ragor o wybodaeth am ba gyfleusterau hamdden sydd ar gael yn eu hardaloedd; sy'n helpu i adnabod gwasanaethau.

- Mae cyfleoedd cynllunio a datblygu cychwynnol wedi'u creu.
- Amlygwyd ASA a chwarae fel angen pwysig.

Mae ail ran y prosiect, sy'n datblygu hyfforddiant lleol ar gyfer codi ymwybyddiaeth am ASA a hamdden, wedi'i threfnu mewn wyth o'r naw awdurdod lleol. Mae dyddiadau a lleoliadau wedi'u pennu ac mae'r hyfforddwr wedi'i gadarnhau.

Darparu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau i rieni			
Cynhaliwr	BI Aneurin Bevan Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf	Ardaloedd dan sylw	Rhanbarth de-ddwyrain Cymru
Disgrifiad			
Nod y prosiect rhanbarthol hwn oedd gwella gallu gwasanaethau i gyflwyno rhaglenni Earlybird ac Earlybird Plus ledled rhanbarth de Cymru. Ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bum aelod o staff yn gweithio yn rhanbarth Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a phum aelod o staff yn gweithio yng ngwasanaeth CAMHS, Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf i ymgymryd â hyfforddiant EarlyBird neu EarlyBird Plus. O ganlyniad i'r arian hwn, mae nifer o staff newydd eisoes yn cynnal rhaglenni Earlybird yn ne-ddwyrain Cymru a disgwylir i raglen arall ddechrau maes o law.			
Nod/deilliannau	Hyfforddi cyfanswm o 10 aelod o staff sy'n gweithio ym maes iechyd i allu darparu rhaglenni rhianta EarlyBird neu EarlyBird Plus ledled de-ddwyrain Cymru.		

Gwasanaeth allgymorth Ysgol Plas Brondyffryn (wedi'i ariannu'n rhannol â chyllid grant)			
Cynhaliwr	Sir Ddinbych		Gogledd Cymru
Disgrifiad			
Gwasanaeth allgymorth Ysgol Plas Brondyffryn. Mae hyn wedi bod yr un mor llwyddiannus ac yn hynod werthfawr yn nhyb ein cydweithwyr mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r gwasanaeth wedi'i anelu at ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych. Mae'n cynnig cyngor ar sut i gefnogi, rheoli ac addysgu disgyblion sy'n cael diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASA). Nod y gwasanaeth yw rhoi cyngor a chymorth i alluogi staff i ddiwallu anghenion a gwella cyflawniad disgyblion ag ASA yn eu lleoliad presennol, i godi ymwybyddiaeth am ASA mewn lleoliadau addysgol prif ffrwd a chynnig hyfforddiant perthnasol i staff sy'n gweithio gyda disgyblion ag ASA. Mae'r gwasanaeth yn cynnig arsylwadau disgyblion, trafodaethau gyda staff cysylltiedig, ymgynghori ar strategaethau ymarferol rheoli ac addysgu'r disgybl, adroddiadau ysgrifenedig yn crynhoi trafodaethau ac argymhellion, ymgynghoriadau anffurfiol dros y ffôn, a hyfforddiant ASA awdurdod lleol.			

Cydweithio o blaid awtistiaeth – Ysgol y Gogarth			
Cynhaliwr	Conwy		Conwy
Disgrifiad			
Nod y cynllun yw datblygu strategaethau ac ymagweddau at reoli plant ag awtistiaeth sydd â'r anawsterau mwyaf heriol. Mae'r grŵp hwn o blant wedi'u lleoli yn Ysgol y Gogarth, Llandudno ar hyn o bryd. Mae'r ymagwedd yn canolbwyntio ar blant ac wedi'i seilio ar asesiad cynhwysfawr o anghenion pob plentyn. Byddwn yn defnyddio dysgu'n seiliedig ar dystiolaeth, yn addysgu sgiliau newydd i bob plentyn ac yn cefnogi rhieni ac athrawon o ran rheoli ymddygiad heriol. Mae'r cynllun yn cynnwys staff addysgu a sgiliau rhieni a fydd yn eu galluogi i hwyluso datblygiad pob plentyn. Bydd y dull cyflwyno'n amrywio, yn dibynnu ar anghenion y plentyn. Caiff rhai sgiliau eu haddysgu'n fwyaf priodol mewn lleoliad grŵp, caiff eraill eu haddysgu ar sail unigol. Bydd staff a rhieni'n dysgu sut i reoli ymddygiad plant mewn ystod o gyd-destunau. Anghenion plant â'r anawsterau mwyaf cymhleth yw'r rhai mwyaf anodd i'w bodloni yn aml. Mae eu hanghenion yn hynod debygol o fod yn ddyrys, para gydol eu hoes a chwmpasu nifer o leoliadau a gwasanaethau. Dangoswyd yn gyson bod grymuso eu gofalwyr yn ymyriad effeithiol ac effeithlon i'r plant hyn. Dangoswyd mai ymagwedd addysgu sgiliau, yn canolbwyntio ar blant, a than oruchwyliaeth gofalwyr yw'r ymyriad mwyaf effeithiol ar hyn o bryd i alluogi plant ag awtistiaeth i barhau i gymryd rhan yn eu cymunedau.			

Pennod 11

Ymchwil bellach yng Nghymru

Anghenion iechyd meddwl oedolion â syndrom Asperger			
Cynhaliwr	BIPBC	Ardaloedd dan sylw	Gogledd Cymru
Disgrifiad			
Nod y prosiect ymchwil glinigol hwn yn y lle cyntaf yw cynnal arolwg i ragamcangyfrif amlder oedolion â syndrom Asperger sy'n manteisio ar wasanaethau iechyd meddwl i oedolion yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd. Bydd yn rhestru anghenion yr unigolion hyn mewn perthynas â gwasanaethau er mwyn deall eu llwybr drwy wasanaethau ac anghenion unigol yn well. Yn ail, bydd y prosiect yn edrych ar brofiadau oedolion â syndrom Asperger, eu rhieni/gofalwyr a gweithwyr iechyd meddwl mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion. Drwy gyfweld â'r unigolion hyn, y gobaith yw y bydd yn amlygu meysydd sy'n peri anhawster o fewn gwasanaethau iechyd meddwl ac yn amlygu gwasanaethau sydd wedi bod yn fuddiol. <u>Cynnydd hyd yma</u> Mae'r tîm ymchwil wedi cynnal arolwg cynhwysfawr o ddau dîm iechyd meddwl cymunedol (CHMT), tair uned adsefydlu a gweithiwr y tu allan i'r sir i ogledd Cymru. Mae cyfweliadau â nifer o weithwyr iechyd meddwl, oedolion â syndrom Asperger a'u rhieni wedi'u cynnal hefyd. Caiff camau olaf y broses casglu data ei chwblhau yn ystod mis Ionawr. Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, bydd y tîm yn dadansoddi ac yn dehongli'r holl ddata a gesglir, er mwyn deall profiadau'r tri grŵp. Caiff data'r arolwg ei archwilio hefyd i amcangyfrif nifer yr oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion ar hyn o bryd yng ngogledd Cymru. Caiff adroddiad terfynol ei lunio i grynhoi'r canfyddiadau erbyn diwedd mis Mawrth.			
Nod/deilliannau	Bydd y prosiect hefyd yn amlygu anghenion yr unigolion hyn mewn perthynas â gwasanaethau er mwyn deall yn well eu llwybr drwy wasanaethau ac anghenion unigol.		

Astudiaeth ddilynol o unigolion ag awtistiaeth; o blentyndod cynnar hyd at dyfu'n oedolyn			
Cynhaliwr	Dr Dawn Wimpory`	Ardaloedd dan sylw	Gwynedd a Môn
Disgrifiad			
Ychydig iawn rydym yn ei wybod am oblygiadau hirdymor lefelau cychwynnol gwahanol o awtistiaeth, deallusrwydd ac iaith ac ati. Yn y prosiect hwn, caiff paramedrau unigolion a gafodd ddiagnosis awtistiaeth er 1988 o fod yn blentyn ifanc ac oedolyn ifanc eu cymharu, yn defnyddio cofnodion ysgrifenedig a data wedi'i recordio ar fideo.			
Nod/deilliannau	Bydd y prosiect hefyd yn dadansoddi rhyngweithio rhwng y ffactorau hyn a dangosyddion pwrpas bob dydd ac ansawdd bywyd. Amlygwyd yr angen am yr astudiaeth gan ymarfer mapio ar gyfer awtistiaeth yn ddiweddar a ganfu nad oedd rhai unigolion yn cael gwasanaethau mwyach er gwaethaf effeithiau difrifol pan oeddent yn blant.		

Profiadau pobl ifanc â syndrom Asperger neu awtistiaeth ddwys o wasanaethau yng Ngwynedd.			
Cynhaliwr	Grŵp Cymorth Awtistiaeth/Asperger Gwynedd ac Ynys Môn a Chyngor Gwynedd	Ardaloedd dan sylw	Gwynedd ac Ynys Môn yn bennaf, yn ymestyn i ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru.
Disgrifiad			
Caiff yr ymchwil hon ei chynnal gan Brifysgol Cymru, Bangor a chaiff ei chynnal fel rhan o Grŵp Cymorth Awtistiaeth/Asperger Gwynedd ac Ynys Môn a chydweithio â llywodraeth leol Gwynedd. Bydd y prosiect yn helpu'r awdurdod lleol i amlygu blaenoriaethau ar gyfer targedu adnoddau cyfyngedig ac, yn y pen draw, mae'n bosibl y bydd yn gwella posibiliadau pobl ag ASA. Gall pobl ifanc ag ASA gynnig sgiliau gwerthfawr ac arbennig i'r gweithlu lleol yn aml, ond bydd angen i'r rhain gael eu hwyluso. Caiff y bobl ifanc hyn eu cynnal yn ariannol gan awdurdodau lleol yn aml lle y gallai dealltwriaeth well am eu hanghenion olygu bod angen llai o adnoddau arnynt neu gyfrannu at y gymuned a'r economi leol. Astudiaeth o amgylchiadau bywyd oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n cael diagnosis o syndrom Asperger neu awtistiaeth ddwys yw hon. Mae hyn yn cynnwys gwaith (cyflogaeth ac addysg), hamdden, llety, perthynas a'r teulu, iechyd cyffredinol a phrofiadau o gludiant cyhoeddus. Rydym yn awyddus i glywed gan bobl am eu bywydau bob dydd, sut maent yn ymdopi â gweithgareddau, a'r cymorth maent yn ei gael neu y gallai fod arnynt ei angen yn y dyfodol. Mae gennym ddiddordeb ym mhrofiadau'r unigolyn o unrhyw wasanaethau a chymorth maent wedi'u cael yn y meysydd hyn. Rydym hefyd yn edrych ar y pontio a'r newidiadau mawr sydd wedi digwydd yn y meysydd hyn. Rydym yn gobeithio gwneud hyn drwy gynnal cyfweliad penagored fel y gallwn gael ymdeimlad o sut brofiad i unigolyn yw cael diagnosis o ASA.			
Nod/deilliannau	Mae dau brif nod: (a) disgrifio bywydau ac anghenion oedolion ifanc ag ASA (b) rhoi gwybod i Grŵp Cymorth Awtistiaeth / Asperger Gwynedd ac Ynys Môn am yr anghenion hyn a'r math o wasanaethau y gallai fod eu hangen at y dyfodol.		

Dadansoddi osgo mewn awtistiaeth fel offeryn diagnostig

posibl.			
Cynhaliwr	Dr Dawn Wimpory	Ardaloedd dan sylw	Gwynedd a Môn
Disgrifiad			
Meistri Ymchwil KESS: yn ymchwilio i ddadansoddi osgo fel offeryn diagnostig posibl. Mae arian 'hadu' gan Wynedd wedi caniatáu defnyddio arian UE ychwanegol ar gyfer prosiect ymchwil ASA i ymchwilio i osgo fel offeryn diagnostig posibl ar gyfer ASA (dan oruchwyliaeth Dr Dawn Wimpory). Mae osgo wedi'i gydnabod yn ddiweddar fel biofarciwr unigol posibl ac mae ffisiotherapyddion profiadol wedi sôn yn y gorffennol am sylwi ar "osgo awtistig". Gyda chefnogaeth empirig (yn defnyddio fectorau pwyntio golau a dadansoddi fideo cyfrifiadurol), mae gan y dull hwn y potensial i gynnig ychwanegiad cost effeithiol, gwrthrychol nad yw'n ymwthiol o ran gweithdrefnau diagnostig ASA lle y gall ffiniau ASA fod yn arbennig o gymhleth. Mae'r prosiect hwn yn elwa o gryfderau staff lleol y mae eu gallu i ddadansoddi osgo wedi'i gydnabod yn rhyngwladol. Mae ganddo'r potensial i gymharu osgo ASA â phlant sy'n cael anaf i'r pen lle mae sganiau MRI yn cadarnhau rhan berthnasol yr ymennydd; gallai cymariaethau o'r fath helpu i esbonio sail niwrolegol ASA. Mae myfyriwr seicoleg graddedig ag anrhydedd yn y dosbarth cyntaf wrthi'n gwneud cais am ganiatâd moeseg eang drwy GIG a Phrifysgol Bangor, gan gynnwys datgeliadau manylach gan y SCT. Bydd yr elfen ymchwil yn dechrau ar ôl cael cymeradwyaeth foesegol. Caiff y prosiect uchod ei arwain gan Dr Dawn Wimpory a'i noddi gan Wynedd.			

Dadansoddi genynnau cloc mewn awtistiaeth.			
Cynhaliwr	Dr Dawn Wimpory	Ardaloedd dan sylw	Ynys Môn
Disgrifiad			
Mae ein gwaith ar eneteg yn deillio'n uniongyrchol o arsylwadau clinigol ar awtistiaeth lle mae amseru cyfathrebu a phatrymau cysgu yn broblem yn aml. Mae ein cyhoeddiadau rhyngwladol yn rhagweld ac yn cadarnhau anghysondebau ac amrywiaeth o ran genynnau cloc mewn awtistiaeth. Mae genynnau cloc yn ymddangos mewn cylchoedd cysgu a deffro, cof cyd-destunol/emosiynol ac amseru cyfathrebu. Mae pob un o'r rhain yn berthnasol iawn i awtistiaeth. Mae proffiliau mynegi genynnau cloc yn cydfynd â difrifoldeb sgorau diagnostig i wahaniaethu rhwng achosion difrifol ac achosion llai difrifol a rheolau nodweddiadol. Felly rydym yn gweithio tuag at greu prawf genynnau cloc am awtistiaeth ddifrifol. Mae hyn yn bennaf ar gyfer profi ôl-enedigol (nid cyn geni) i dargedu ymyriadau meddygol a seicolegol, e.e. ar gyfer plant bach risg uchel.			